# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon
## ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012

CRONFA LOTERI FAWR
BIG LOTTERY FUND



# Cronfa Loteri Fawr
## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon
## ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth2012

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a gyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag adran 34(3) a pharagraff 21 Atodlen 4A Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998 a Deddf y Loteri Genedlaethol 2006.

I'w argraffu ar 16 Gorffennaf 2012 yn unol â gorchymyn T ŷ'r Cyffredin.

Wedi'i roi gerbron Senedd yr Alban gan Weinidogion Yr Alban ar 16 Gorffennaf 2012

Wedi'i roi gerbron Cynulliad Gogledd Iwerddon.

HC 437 LLUNDAIN: Y LLYFRFA £29.75

SG/2012/120

© Cronfa Loteri Fawr (2012)

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (ac eithrio, lle bo'n bresennol, yr Arfau Brenhinol a phob logo adrannol ac asiantaethol) am ddim mewn unrhyw fformat neu ar unrhyw gyfrwng cyhyd â'i fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir a heb fod mewn cyd-destun camarweiniol.

Mae'n rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Gronfa Loteri Fawr a nodi teitl y ddogfen. Pan fo deunydd trydydd parti wedi'i nodi, rhaid ceisio caniatâd gan y deiliad hawlfraint priodol.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn Cronfa Loteri Fawr, 1 Plough Place, Llundain EC4A 1DE.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho yn www.official-documents.gov.uk

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael ar ein gwefan yn: http://www.cronfaloterifawr.org.uk

ISBN: 9780102979961

Argraffwyd yn y DU ar gyfer Y Llyfrfa Cyfyngedig ar ran Rheoleiddiwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

ID: P002499778 07/12

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffibr a ailgylchwyd.

# Cronfa Loteri Fawr
# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2011/12

## Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| Cyflwyniad a chrynodeb gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr | | 2 |
| Adran un | Ein perfformiad gweithredol | 5 |
| Adran dau | Ein rhaglenni grantiau | 18 |
| Adran tri | Effaith ein gwaith | 48 |
| Adran pedwar | Ein perfformiad ariannol | 54 |
| Adran pump | Ein llywodraethu, gan gynnwys: | 62 |
| | Datganiad o gyfrifoldebau'r swyddog cyfrifon | 62 |
| | Y datganiad llywodraethu | 64 |
| | Yr adroddiad tâl cydnabyddiaeth | 82 |
| Adran chwech | Ein datganiadau ariannol, gan gynnwys: | 90 |
| | Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol | 90 |
| | Cyfrifon blynyddol | 92 |
| | Memorandwm o gyfrifon – cyfrifon segur | 122 |
| Adran saith | Ein grantiau mawr | 124 |
| Atodiad | Ein cefndir statudol | 136 |

# Cyflwyniad a chrynodeb

## gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr



Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu perfformiad a chyflawniadau'r Gronfa Loteri Fawr yn 2011/12. Ein cenhadaeth yw dod â gwir welliannau i gymunedau a bywydau'r bobl fwyaf anghenus. Gwnawn hyn trwy ddefnyddio arian a godir gan y Loteri Genedlaethol i gefnogi prosiectau ledled y Deyrnas Unedig at ddibenion iechyd, addysg, amgylcheddol ac elusennol.

Mae 2011/12 wedi bod yn flwyddyn o newidiadau sylweddol, o fewn y Gronfa Loteri Fawr a'r tu allan iddi. Rydym wedi croesawu Peter Ainsworth fel ein Cadeirydd DU newydd ynghyd â Nat Sloane (Cadeirydd Lloegr) Syr Adrian Webb (Cadeirydd Cymru) a Maureen McGinn (Cadeirydd Yr Alban). Trosglwyddodd cyfrifoldeb statudol dros y Gronfa Loteri Fawr o'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i Swyddfa'r Cabinet ar 13 Ebrill 2011, ac yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus mae gennym gyfarwyddiadau polisi newydd ar gyfer ein hariannu yn Lloegr, Ynys Manaw a DU gyfan erbyn hyn. I adlewyrchu'r newidiadau hyn rydym wedi diwygio ein cynllun strategol a chyhoeddi Meddwl o'r Newydd: Y Bennod Nesaf, sy'n amlinellu'r hyn y gellir ei ddisgwyl gennym ni fel ariannwr hyd at 2015.

Yn 2011/12 gwnaed dros 12,000 o ddyfarniadau i fudiadau ar draws y Deyrnas Unedig gwerth cyfanswm o £768.8 miliwn. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd sylweddol o'i gymharu â blynyddoedd diweddar, yn rhannol o ganlyniad i sefydlu'r Big Local Trust gwerth £200 miliwn. Ar hyn o bryd rydym yn rheoli dros 17,000 o ddyfarniadau gwerth cyfanswm o bron £1 biliwn. Mae'r galw am arian Loteri'n parhau i dyfu: yn 2011/12 derbyniwyd dros 23,500 o geisiadau'n gofyn am gyfanswm o £1.9 biliwn. Er hynny, os erys gwerthiannau tocynnau Loteri'n iach gallwn ddisgwyl gwneud dyfarniadau gwerth tua £770 miliwn bob blwyddyn hyd at 2015.

Anelwn yn barhaus at fod yn ariannwr deallus, nid yn unig wrth ddosbarthu arian ond hefyd wrth ddefnyddio ein gwybodaeth a'n harbenigedd i sicrhau effaith a dylanwad gynyddol yn sgil ein gwaith.

Gwyddwn y gall symiau bach o arian rymuso pobl leol a thrawsnewid cymunedau. Yn 2011/12 roedd dyfarniadau o £10,000 neu lai'n cyfrif am 90 y cant o'n dyfarniadau. Mae'r rhaglen Arian i Bawb yn parhau i roi hwb i ystod syfrdanol o brosiectau cymunedol ym mhob cwr o'r DU.

Mewn hinsawdd economaidd heriol mae'n bwysig bod ein hariannu'n galw ar sgiliau ac arbenigedd pobl leol. Mewn oes ansicr rydym wedi darparu amser ac arian ychwanegol i helpu miloedd o'r rhai sydd eisoes yn dal grantiau i addasu i amgylchiadau newidiol.

Yn benodol, mae'r Sector Gwirfoddol a Chymunedol yn parhau'n bartneriaid cyflwyno allweddol i ni wrth ein helpu i gyflwyno ein cenhadaeth. Yn 2011/12, aeth 92 y cant o'n hariannu'n uniongyrchol i'r SGCh. Mae ein Big Local Trust arloesol gwerth £200 miliwn yn gweithio gyda phobl a phartneriaethau lleol mewn cymunedau ledled Lloegr, yr oeddent wedi'u hanwybyddu'n flaenorol gan ffynonellau ariannu eraill, i wneud eu cymunedau'n lleoedd gwell i fyw nawr a thros y deng mlynedd nesaf. Rydym wedi cyflwyno ystod o raglenni arloesol sy'n rhoi rheolaeth i'r cyhoedd dros arian Loteri. Wrth weithio gyda Channel 4 ym mis Hydref 2011, gofynnom i gyhoedd y DU ein helpu i benderfynu ar y themâu sy'n sail i'n rhaglen Mileniwm Nawr gwerth £10 miliwn. Yn Yr Alban mae'r rhaglen Our Place gwerth £9 miliwn yn canolbwyntio ar flaenoriaethau a bennir gan bobl leol.



Er bod ehangder a dyfnder ein hariannu'n golygu y gallwn ymateb i faterion lleol, mae ein graddfa'n golygu ein bod mewn sefyllfa unigryw i hwyluso cyfnewid syniadau ac arfer gorau ledled y DU. Rydym yn cyflawni hyn trwy bortffolio DU sy'n chwilio am ffyrdd arloesol o ymgysylltu â'r cyhoedd, ac ar ben hynny yn profi'r dulliau gorau o fynd i'r afael â'r heriau cymdeithasol mwyaf lletchwith. Er enghraifft, trwy ein rhaglen Gwireddu Uchelgais gwerth £25 miliwn, rydym yn efelychu ymagweddau sydd wedi profi eu gwerth at atal troseddu am y tro cyntaf gan bobl ifanc ar draws y DU, a byddwn yn buddsoddi'n helaeth mewn gwerthusiadau arbrofol sy'n dangos effaith yr ymyraethau hyn i bobl ifanc fregus. Fel ariannwr sy'n ymestyn ar draws y DU ond gyda strwythurau a phrosesau gwneud penderfyniadau datganoledig cryf yng Nghymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon, gobeithiwn gynnig cefnogaeth unigryw a pherthnasol ym mhob gwlad, ac ar yr un pryd rhannu ein dysgu i ddylanwadu ar bolisïau ac arfer.

Mae ein gwybodaeth, ein harbenigedd a'n hisadeiledd yn golygu hefyd ein bod mewn sefyllfa dda i ddosbarthu ariannu ar ran eraill. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi lansio Cronfa Cymunedau'r Arfordir ar ran Llywodraeth y DU, sy'n defnyddio refeniw a gynhyrchwyd gan asedau morol Ystâd y Goron i hyrwyddo twf economaidd a swyddi cynaliadwy.

Ar ran Llywodraeth Cymru rydym yn defnyddio ariannu a ryddhawyd o gyfrifon banc segur i annog cymunedau i ostwng allyriadau carbon ac addasu i effaith newid hinsawdd trwy'r rhaglen Camau Cynaliadwy. Rydym yn cyflwyno Young Start, a fydd yn creu cyfleoedd i blant a phobl ifanc rhwng 8 a 24 oed i'w helpu i wireddu eu potensial trwy wella'u hiechyd, eu hyder a'u cyfleoedd cyflogaeth, ar gyfer Llywodraeth Yr Alban. Ac yn Lloegr, cyflwynwyd y Gronfa Gwasanaethau Cynghori ar ran Swyddfa'r Cabinet.

Hoffem ddiolch i staff y Gronfa Loteri Fawr a'r rhai rydym yn cydweithio â hwy am eu hymrwymiad, eu hegni a'u hymroddiad parhaus. Tystiolaeth o'u gwaith yw bod y Gronfa Loteri Fawr wedi cael ei chydnabod yn ddiweddar gyda gwobr Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmeriaid. Cedwir ein diolchiadau terfynol ar gyfer y nifer mawr o brosiectau, staff a gwirfoddolwyr sy'n helpu i wneud arian y Loteri'n rhywbeth mor arbennig. Mae'n fraint gennym gefnogi cynifer o bobl ragorol sy'n gwneud sut gymaint o wahaniaeth i gymunedau a bywydau'r rhai mwyaf anghenus.

**Peter Wanless**
Prif Weithredwr

**Peter Ainsworth**
Cadeirydd


JESS
ASHER
YOUTH CLUB TEAM
AIG

# Ein perfformiad gweithredol

## Ynglŷn â'r Adroddiad Blynyddol hwn

Ynglŷn 2009 cyhoeddwyd y Farn fawr – ein Fframwaith Strategol hyd at 2015 a amlinellodd yr egwyddorion a fydd yn sail i ymagwedd y Gronfa Loteri Fawr at ariannu yn y DU. Bob blwyddyn cyhoeddwn gynllun corfforaethol sy'n pennu cyllideb, amcanion a thargedau penodol ar gyfer y flwyddyn i ddod. Gellir lawrlwytho'r cynllun corfforaethol o'n gwefan. Yr adroddiad blynyddol hwn yw ein hadroddiad yn ôl ar ein cyflawniadau yn erbyn yr ymrwymiadau hynny.

Ym mis Mawrth 2011 pennodd ein Bwrdd dri amcan corfforaethol ar gyfer y flwyddyn i ddod ynghyd ag ystod o fesurau perfformiad ar gyfer pob un ohonynt:

- Effeithlonrwydd: rydym yn rheoli arian cyhoeddus yn effeithlon.
- Ffocws cwsmeriaid: dywedodd y rhai sydd wedi ymholi am ein hariannu, ymgeisio amdano neu ei dderbyn ein bod yn darparu gwasanaeth ardderchog iddynt. Mae gennym berthnasoedd cryf a chadarnhaol gyda budd-ddeiliaid allweddol a'r cyhoedd yn gyffredinol.
- Effeithiolrwydd: mae ein rhaglenni ariannu'n dod â gwir welliannau i fywydau ein buddiolwyr.

Mae'r hinsawdd ariannol gyfredol wedi effeithio ar arianwyr, y rhai sy'n cyflwyno gwasanaethau, cyrff statudol ac, yn bwysicaf oll, y bobl y mae eu bywydau rydym yn ceisio dylanwadu arnynt er gwell. Trosglwyddodd cyfrifoldeb dros y Gronfa Loteri Fawr, gan gynnwys pennu cyfarwyddiadau polisi, o'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i Swyddfa'r Cabinet ym mis Ebrill 2011. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, cyhoeddwyd cyfarwyddiadau polisi newydd i'r Gronfa Loteri Fawr sy'n cwmpasu ein gwariant yn Lloegr, Ynys Manaw a DU gyfan, i ddod i rym ar 01 Ebrill 2012.

I adlewyrchu'r newidiadau hyn ac aros yn ymatebol i anghenion esblygol y cymunedau a wasanaethwn, rydym wedi diwygio ein cynllun strategol. Mae Meddwl o'r newydd: Y Bennod Nesaf yn amlinellu sut rydym yn addasu i'r newidiadau hyn ac yn amlinellu'r hyn y gellir ei ddisgwyl gennym ni fel ariannwr hyd at 2015.

Mae Meddwl o'r newydd yn adeiladu ar yr egwyddorion a amlinellwyd yn y Farn Fawr. Erys ein cenhadaeth heb ei newid; rydym yn ariannwr ar sail canlyniadau ymrwymedig a byddwn yn parhau i gynnig portffolio ariannu cymysg. Serch hynny, rydym hefyd yn ymgymryd â dulliau gweithio newydd fel buddsoddiad cymdeithasol, ymgysylltu â'r sector preifat a chyflwyno ariannu ar ran eraill i wneud hyd yn oed yn fwy o wahaniaeth i gymunedau a bywydau'r bobl fwyaf anghenus.

## Ein perfformiad gweithredol yn erbyn ein hamcanion corfforaethol

**Nododd Cynllun Corfforaethol 2011/12 dri amcan strategol i lunio ein blaenoriaethau a phennwyd 10 dangosydd perfformiad allweddol i fesur llwyddiant. Mae ein perfformiad wedi cael ei fonitro yn erbyn ein targedau a gyhoeddwyd, ac adroddwyd amdano i'r Bwrdd trwy gydol y flwyddyn.**

Dyma grynodeb byr o sut rydym wedi perfformio yn erbyn y tri amcan hwn. Mae adrannau eraill yr adroddiad hwn yn rhoi esboniad manylach.

### Amcan corfforaethol un:

**Rydym yn rheoli arian cyhoeddus yn effeithlon**

| Dangosyddion perfformiad allweddol | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| **1. Mae mwy nag 80 y cant o'r cyfanswm grant cytunedig ar gyfer 2011/12 wedi'i ymrwymo** | Yn ein cynllun corfforaethol 2011/12 nodwyd mai'r cyfanswm cyllideb grant cytunedig ar gyfer y flwyddyn oedd £806.5 miliwn.Gwerth gwirioneddol y dyfarniadau a wnaed yn ystod 2011/12 oedd £768.8 miliwn (90 y cant o'r swm hwn). |
| **2. Mae'r SGCh yn derbyn o leiaf 80 y cant o'n hariannu** | Yn ystod 2011/12 ymrwymwyd 92 y cant o'n hariannu i'r SGCh yn erbyn y targed o 80 y cant. |
| **3. Mae'r cyfanswm costau gweithredu'n llai na 7.1 y cant o incwm y Loteri (yn seiliedig ar incwm cyn trosglwyddo arian tua'r Gemau Olympaidd)** | Yn 2011/12 6.3 y cant oedd ein costau gweithredu craidd. Roedd y costau gweithredu gwirioneddol yn £49.0 miliwn, gostyngiad o £4.1 miliwn o'i gymharu â 2011/12 |
| **4. Mae gan y portffolio ariannu gost weithredu o lai na 5 y cant o'r gyllideb ar gyfer rhaglenni** | Mae costau gweithredu cynlluniedig ein rhaglenni'n seiliedig ar amcangyfrifon sy'n deillio o'n profiad o redeg rhaglenni cyffelyb. Ar gyfer 2011/12, daeth ein costau gweithredu rhaglenni cynlluniedig o fewn y targed 5 y cant. |
| **5. Erbyn diwedd y flwyddyn bydd y grantiau a delir i'r holl brosiectau rydym yn eu hariannu o fewn 20 y cant o'r taliadau a ragamcanir** | Rydym wedi gwneud taliadau grant o £668.5 miliwn yn 2011/12, sef 9.0 y cant uwchben y rhagamcaniad gwreiddiol. O bosib roedd hyn o ganlyniad i'r Loteri fod o flaen y rhagamcaniad. |

## Amcan corfforaethol dau:

**Dywedodd y rhai sydd wedi ymholi am ein hariannu, ymgeisio amdano neu ei dderbyn ein bod wedi darparu gwasanaeth ardderchog iddynt. Mae gennym berthnasoedd cryf a chadarnhaol gyda budd-ddeiliaid allweddol a'r cyhoedd yn gyffredinol.**

| Dangosyddion perfformiad allweddol | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| 1. Mae o leiaf 74 y cant o'n cwsmeriaid yn fodlon ar ein gwasanaeth<br><br>2. Dywed o leiaf 33 y cant o gwsmeriaid eu bod yn derbyn gwasanaeth cwsmeriaid ardderchog | Yn ystod y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2012 cysylltwyd â mwy na 90,000 o bobl ledled y DU a ymholodd am grant gan y Gronfa Loteri Fawr. Gwnaethom ymateb i 6,000 o gynigion amlinellol ac aseswyd dros 24,000 o geisiadau llawn. Rydym hefyd wedi darparu cefnogaeth ar gyfer mwy na 18,000 o ddeiliaid grantiau presennol.<br><br>Eleni cwblhaodd Ipsos MORI 5,739 o gyfweliadau ar-lein gyda chwsmeriaid ar ein cyfer, gan gynnwys gydag ymgeiswyr aflwyddiannus; ymgeiswyr llwyddiannus; y sawl sy'n aros am benderfyniad; ac ymholwyr cyn-ymgeisio. O'r canlyniadau gallwn adrodd bod 73.6 y cant o'n cwsmeriaid yn fodlon a bod 33.7 y cant o'r rhain wedi graddio ein gwasanaeth yn ardderchog. Dyma welliant ar berfformiad y llynedd (73 y cant a 30.3 y cant yn ôl eu trefn).<br><br>Yn ogystal â boddhad cyffredinol, rydym hefyd yn mesur boddhad o ran: agwedd staff; proffesiynoldeb ac ansawdd y gwasanaeth; amseroldeb ac ansawdd yr wybodaeth.<br><br>Pennwn dargedau mewnol ar gyfer ansawdd gwasanaeth hefyd. Ymdriniwyd â 97.8 y cant o'r cynigion amlinellol a dderbyniwyd, a 93.9 y cant o geisiadau am grantiau a dderbyniwyd, yn unol â safonau a gyhoeddir mewn arweiniad ymgeisio. |
| 3. Canfyddiad o leiaf 84 y cant o AS yw bod y Gronfa Loteri Fawr yn effeithiol | Adroddodd canlyniadau'r arolwg AS diweddaraf yn 2010/11 y cred 80 y cant o AS fod y Gronfa Loteri Fawr yn effeithiol, yn erbyn ein targed o 84 y cant. Er hynny, ystyriwyd unwaith eto mai'r Gronfa Loteri Fawr yw'r mudiad mwyaf effeithiol o'r rhai a oedd wedi'u cynnwys yn yr arolwg, ac mae ein perfformiad yn cymharu'n ffafriol â dosbarthwyr Loteri eraill. |
| 4. Mae o leiaf 80 y cant o'r sylw yn y cyfryngau'n ffafriol | Yn 2011/12 roedd 94.7 y cant o'r sylw yn y cyfryngau'n ffafriol. Dyma'r lefel uchaf o sylw ffafriol yn y cyfryngau a gyflawnwyd ers 2008.<br><br>Sicrhaodd lefel uwch o sylw cadarnhaol yn genedlaethol trwy fentrau a chyhoeddiadau uchel eu proffil wedi'u hategu gan ymdriniaeth ranbarthol a chenedlaethol gref fod y ganran gadarnhaol gyffredinol wedi'i chynnal uwchben y targed ledled y DU.<br><br>Yn cyfrannu at hyn oedd lansio'r fenter Silver Dreams mewn partneriaeth â'r Daily Mail, Miliynau'r Bobl y Jiwbilî gydag ITV a phartneriaethau gyda'r Evening Standard, Manchester Evening News a'r South Wales Argus. Yn chwarter terfynol y flwyddyn mae mentrau megis lansiad uchel ei broffil yr Ymddiriedolaeth Forces in Mind a menter gyfryngau Arwyr yn Ôl ar y cyd rhwng y Gronfa Loteri Fawr ac ymgyrch achosion da Camelot wedi ategu lefel uchel o sylw cadarnhaol a rhanbarthol. |



## Amcan corfforaethol tri:

**Mae ein rhaglenni ariannu'n dod â gwir welliannau i fywydau ein buddiolwyr.**

| Dangosyddion perfformiad allweddol | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| 1. Mae o leiaf 95 y cant o raglenni grantiau'n cyflawni eu gradd effeithiolrwydd gytunedig | Rydym yn gwerthuso ein rhaglenni i bennu eu heffeithiolrwydd, ac mae adrannau a ganlyn yr adroddiad hwn yn bwrw golwg manwl ar yr amcan corfforaethol allweddol hwn. Mae Adran 2 yn darparu manylion yr ariannu a ddyfarnwyd yn ystod y flwyddyn ac mae Adran 3 yn amlinellu ein hadroddiad canlyniadau blynyddol.<br>Eleni adolygwyd 35 o raglenni yn erbyn tri maen prawf:<br>● pa mor dda y cafodd y rhaglen ei rheoli<br>● tystiolaeth o'r effaith a gafwyd<br>● tystiolaeth o'r ddysg a rennir sy'n creu buddion ar gyfer y Gronfa Loteri Fawr a'r cymunedau y mae'n eu hariannu.<br>Aseswyd pob dimensiwn yn erbyn graddfa pum pwynt pan fo'r pwynt canol yn nodi bod y rhaglen ar y trywydd iawn tuag at gyflwyno'n llwyddiannus, a rhoddir sgôr gyffredinol. Cymerodd adolygydd cymheiriaid ran yn yr holl adolygiadau rhaglenni. |

Barnwyd bod 33 o'r 35 o raglenni (94.3 y cant) yn 'effeithiol' yn 2011/12. Er gwaetha'r ffaith yr ystyrir nad oedd dwy raglen wedi cyflawni mesurau llwyddiant digonol i raddio eu hunain yn effeithiol, maen nhw wedi adnabod camau dysgu a chamau gweithredu cadarn er newid, y byddwn yn canolbwyntio arnynt yn ystod y flwyddyn i ddod.



# Cydraddoldeb

## Ein hymrwymiad i gydraddoldeb

Mae cydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhan annatod o'n polisïau a'n diwylliant. Mae'r uwch dîm rheoli a'r Bwrdd yn darparu cefnogaeth ac anogaeth gref i wneud ein hegwyddorion cydraddoldeb yn rhan annatod o'n harferion a'r prosiectau a ariannwn. Parhawn i roi ein Strategaeth Gydraddoldeb tair blynedd ar waith sy'n canolbwyntio ac yn symbylu pobl ynglŷn â'r angen am ystyried a gweithio tuag at nodau cydraddoldeb wrth wneud grantiau bob dydd ac mewn perthnasoedd gwaith. Roedd y Strategaeth yn ymwneud â defnyddio 'eiriolwyr' o fewn y busnes i wireddu hwn gyda chefnogaeth o'r haenau uchaf. Roedd hefyd yn cefnogi cyflwyno gofynion gwybodaeth gydraddoldeb newydd i alluogi dealltwriaeth fwy clir yngŷn â sut mae ein prosiectau'n cyrraedd cymunedau difreintiedig.

## Cydraddoldeb yn ein hariannu

Mae monitro cydraddoldeb wedi cael ei gyflwyno i'r rhan fwyaf o'n rhaglenni grantiau. Gofynnir i ymgeiswyr a fydd eu prosiect o fudd pennaf i bobl o gefndir ethnig, oedran, rhyw, crefydd neu gred, anabledd neu dueddfryd rhywiol penodol ac, yng Ngogledd Iwerddon yn unig, cefndir cymunedol. Rydym yn cywain yr wybodaeth hon gan ein bod am wybod pwy sy'n elwa o'r prosiectau a ariannwn er mwyn i ni ddarganfod p'un a oes angen i ni roi mwy o gefnogaeth i rai ymgeiswyr, targedu ein hariannu neu newid sut rydym yn rhedeg ein rhaglenni.

I gael ei ystyried ar gyfer ariannu, dylai prosiect fod yn seiliedig ar dystiolaeth glir o angen; weithiau bydd hyn yn gwarantu ymyrraeth a dargedir sy'n canolbwyntio ar grŵp buddiolwyr neu sefyllfa benodol; mewn llawer o achosion, fodd bynnag, bydd yr angen yn torri ar draws ystod o bobl, ac mi fydd yn bwysig i brosiectau fod mor hygyrch a chynhwysol â phosib. Adlewyrchir hyn yn ein hystadegau ariannu, sy’n amlygu’r ffaith bod y mwyafrif helaeth o geisiadau a dderbyniwyd a’r dyfarniadau a wnaed yn ymwneud â phrosiectau sy’n nodi eu bod yn anelu at greu buddion ar gyfer ystod helaeth o bobl.

Ar gyfer yr adroddiad hwn dadansoddwyd yr wybodaeth o 21,548 o'r ceisiadau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2012. Eithriwyd grantiau a ddiddymwyd ac a drosglwyddwyd a'r rhai nad oedd ganddynt fuddiolwyr uniongyrchol. Roedd yr holl geisiadau hyn wedi derbyn penderfyniad ariannu yn ystod y flwyddyn. Gwnaed 11,541 o ddyfarniadau (cyfanswm o £452 miliwn) o'r gronfa geisiadau hon. Amlinellir y canlyniadau yn y tabl ar dudalennau 10 ac 11.

Nodwn fod cyfradd lwyddiant y ceisiadau ar gyfer prosiect sydd o fudd pennaf i bobl o gymunedau Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du o'r DU yn parhau'n is na'r gyfradd ar gyfer prosiectau nad ydynt o fudd pennaf i unrhyw ethnigrwydd penodol. Rydym wedi'n hymrwymo i ymchwilio i'r rhesymau dros y canfyddiad hwn.

| | Nifer y ceisiadau a'r gyfradd ymgeisio [1] | | Nifer y dyfarniadau a chyfradd lwyddo'r ceisiadau | | Swm y gofynnwyd amdano (£000) a % o'r swm y gofynnwyd amdano[2] | | Swm a ddyfarnwyd (£'000) a % o'r swm a ddyfarnwyd [3] | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ethnigrwydd** (gofynnir i ymgeiswyr a yw eu prosiect o fudd pennaf i bobl o gefndir ethnig penodol. Gallant ddewis hyd at dri chategori ac felly mae'r atebion hyn yn cynnwys cyfrif dwbl a thriphlyg.) | | | | | | | | |
| Gwyn DU | 1,550 | 6% | 825 | 53% | 79,021 | 6% | 35,138 | 8% |
| Gwyn arall | 551 | 2% | 285 | 52% | 30,210 | 2% | 10,351 | 2% |
| Grwpiau ethnig Cymysg/ Lluosog | 978 | 4% | 485 | 50% | 41,644 | 3% | 12,488 | 3% |
| Asiaidd/ Asiaidd DU | 1,024 | 4% | 515 | 50% | 71,845 | 5% | 22,287 | 5% |
| Du/ Affricanaidd/Caribïaidd/ Du o'r DU | 1,324 | 6% | 591 | 45% | 63,634 | 5% | 21,113 | 5% |
| Grŵp ethnig arall | 414 | 2% | 186 | 45% | 18,984 | 1% | 5,904 | 1% |
| Dim ethnigrwydd penodol | 17,612 | 75% | 9684 | 55% | 1,097,668 | 78% | 358,215 | 77% |
| **Oedran** (gofynnir i ymgeiswyr a yw eu prosiect o fudd pennaf i bobl o grŵp oedran penodol. Gall ymgeiswyr ddewis mwy nag un grŵp oedran ac felly gall yr atebion hyn gynnwys cyfrif lluosog.) | | | | | | | | |
| 0-24 | 9,353 | 37% | 5100 | 55% | 834,573 | 44% | 322,526 | 52% |
| 25-64 | 4,096 | 16% | 2158 | 53% | 320,319 | 17% | 80,595 | 13% |
| 65+ | 2,068 | 8% | 1185 | 57% | 113,444 | 6% | 40,365 | 7% |
| Dim oedran penodol | 9,903 | 39% | 5177 | 52% | 649,037 | 34% | 172,731 | 28% |
| **Rhyw** (gofynnir i ymgeiswyr a yw eu prosiect o fudd pennaf i bobl o ryw benodol.) | | | | | | | | |
| Benyw | 1,196 | 6% | 598 | 50% | 92,726 | 6% | 27,559 | 6% |
| Gwryw | 399 | 2% | 205 | 51% | 24,716 | 2% | 6,471 | 1% |
| Dim rhyw benodol | 19,062 | 92% | 10,211 | 54% | 1,281,014 | 89% | 404,130 | 90% |

[1] Dangosir y gyfradd ymgeisio fel canran o'r ceisiadau sydd wedi gofyn am y data

[2] Dangosir y swm y gofynnwyd amdano fel canran o'r ceisiadau sydd wedi gofyn am y data

[3] Dangosir y swm a ddyfarnwyd fel canran o'r cyfanswm ariannu a ddyfarnwyd i'r ceisiadau a ofynnodd am y data

| | Nifer y ceisiadau a'r gyfradd ymgeisio [1] | | Nifer y dyfarniadau a chyfradd lwyddo'r ceisiadau | | Swm y gofynnwyd amdano (£000) a % o'r swm y gofynnwyd amdano[2] | | Swm a ddyfarnwyd (£'000) a % o'r swm a ddyfarnwyd [3] | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cefndir cymunedol** (Gofynnir i ymgeiswyr sy'n ymgeisio i raglenni sy'n gweithredu yng Ngogledd Iwerddon nodi i ba gymuned mae'r rhai sy'n elwa o'u prosiect yn perthyn iddi'n bennaf.) | | | | | | | | |
| Catholig yn bennaf | 269 | 22% | 166 | 62% | 6,681 | 15% | 2,876 | 9% |
| Protestannaidd yn bennaf | 410 | 33% | 239 | 58% | 6,563 | 15% | 3,845 | 13% |
| Y ddwy | 491 | 40% | 326 | 66% | 30,599 | 68% | 22,915 | 75% |
| Nid y naill na'r llall | 64 | 5% | 43 | 67% | 1,085 | 2% | 763 | 3% |
| **Crefydd neu gred** (Gofynnir i ymgeiswyr a yw eu prosiect o fudd pennaf i bobl o grefydd neu gred benodol. Gallant ddewis mwy nag un crefydd neu gred ac felly gall yr atebion hyn gynnwys cyfrif lluosog.) | | | | | | | | |
| Dim crefydd | 15 | <1% | 7 | 47% | 5,096 | <1% | 1922 | <1% |
| Cristnogaeth | 302 | 1% | 152 | 50% | 10,451 | 1% | 2369 | <1% |
| Bwdhaeth | 3 | <1% | 2 | 67% | 430 | <1% | 20 | <1% |
| Hindŵaeth | 27 | <1% | 12 | 44% | 1,321 | <1% | 543 | <1% |
| Iddewiaeth | 128 | 1% | 62 | 48% | 2,007 | <1% | 586 | <1% |
| Moslemiaeth | 132 | 1% | 61 | 46% | 6,221 | <1% | 1,364 | <1% |
| Sikhiaeth | 11 | <1% | 6 | 55% | 873 | <1% | 47 | <1% |
| Crefydd arall | 25 | <1% | 12 | 48% | 2,050 | <1% | 1,087 | <1% |
| Dim crefydd benodol | 20,743 | 96% | 11,163 | 54% | 1,370,225 | 95% | 429,633 | 95% |
| **Anabledd** (Gofynnir i ymgeiswyr a yw eu prosiect o fudd pennaf i bobl anabl.) | | | | | | | | |
| Anabl | 2,286 | 11% | 1,430 | 63% | 195,002 | 14% | 66,928 | 15% |
| Heb fod yn anabl | 17,767 | 88% | 9,333 | 53% | 1,190,820 | 83% | 361,125 | 81% |
| **Tueddfryd rhywiol** (Gofynnir i ymgeiswyr a yw eu prosiect o fudd pennaf i lesbiaid, dynion hoyw neu bobl ddeurywiol.) | | | | | | | | |
| Lesbiaid / dynion hoyw / deurywiol | 105 | 1% | 58 | 55% | 6,742 | <1% | 2,518 | 1% |
| Heb fod yn berthnasol i lesbiaid/ dynion hoyw/ deurywiol | 19,800 | 97% | 10,551 | 53% | 1,368,505 | 95% | 420,217 | 99% |

## Cydraddoldeb mewn cyflogaeth

Mae ein proses gyflwyno'n cynnwys hyfforddiant penodol mewn cydraddoldeb ar ddechrau cyflogaeth, ac yn ystod y flwyddyn rydym wedi cynnal nifer o sesiynau hyfforddiant ar urddas yn y gweithle.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn aelod o raglen Eiriolwyr Amrywiaeth yr elusen Stonewall, sy'n rhan o'n hymrwymiad i gefnogi staff lesbiaidd, hoyw a deurywiol (LGB). Eleni daeth y Gronfa Loteri Fawr yn 240 allan o 363 o fudiadau a gymerodd ran yn Fynegai Stonewall o gyflogwyr LGB gorau Prydain. Rydym yn 54 safle'n uwch o'i gymharu â 2010.

Rydym hefyd wedi lansio cynllun lleoliad gwaith a gynorthwyir i bobl ag anableddau yn ein dwy brif ganolfan weithredu, ac mae prosiect newydd, 'EnAble' wedi cychwyn adolygiad o sut y gallwn annog cyflogi pobl ag anableddau.

Mae ystadegau gweithlu eleni'n dangos na chafwyd unrhyw newid mewn perthynas â chanran y staff ag anableddau, ond cafwyd cynnydd bach yn nifer y staff BME a gyflogir. Parhawn yn ymrwymedig i gynyddu nifer y cyflogeion ag anableddau.

Yn ystod y flwyddyn dechreuwyd prosiect i adnabod camau gweithredu y gall y Gronfa Loteri Fawr eu cymryd i fod yn fwy cynrychioliadol o'r gymuned mewn perthynas â phobl ag anableddau a sut y gall y Gronfa Loteri Fawr fod yn gyflogwr mwy effeithiol. Ni chafwyd newid sylweddol i'r canrannau ethnigrwydd amrywiol.

| Statws anabledd | Cronfa Loteri Fawr | Gwasanaeth Sifil | Poblogaeth y DU sy'n weithgar yn economaidd |
|---|---|---|---|
| Staff ag anableddau | 3% | 4% | 13% |
| Staff heb anableddau | 97% | 96% | 87% |

| Rhyw | Cronfa Loteri Fawr | Gwasanaeth Sifil | Poblogaeth y DU sy'n weithgar yn economaidd |
|---|---|---|---|
| Benyw | 62% | 52% | 44% |
| Gwryw | 38% | 48% | 56% |

| Grŵp Ethnig | Cronfa Loteri Fawr | Poblogaeth y DU sy'n weithgar yn economaidd |
|---|---|---|
| Asiaidd | 5.7% | 3% |
| Du | 2.5% | 1.4% |
| Tsieineaidd | 0.3% | 0.3% |
| Cymysg | 1.0% | 1.5% |
| Arall | 0.2% | 0.4% |
| Gwyn arall | 4.4% | 3.4% |
| Cyfanswm Du a lleiafrifoedd ethnig (BME) | 14.1% | 10.0% |
| Gwyn DU | 83.5% | 90% |
| Dim gwybodaeth | 1.9% | |
| Ddim eisiau datgan | 0.5% | |

# Ein hymagwedd at ddatblygu cynaliadwy

## Adran 75, Deddf Gogledd Iwerddon 1998

Yn unol â'n dyletswyddau statudol o dan Adran 75 Deddf Gogledd Iwerddon 1998, gwnaethom gyflwyno ein hadroddiad cydraddoldeb blynyddol i Gomisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon ym mis Awst 2010. Darparodd yr adroddiad yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau deddfwriaethol a chynnydd ar waith cydraddoldeb yng Nghronfa Loteri Fawr Gogledd Iwerddon rhwng mis Ebrill 2010 a mis Mawrth 2011.

Cyhoeddwyd ein seithfed adroddiad sgrinio ym mis Medi 2011, sy'n rhoi manylion yr holl bolisïau, rhaglenni a swyddogaethau y sicrhawyd eu hansawdd.

Mae pedwerydd adolygiad blynyddol Cynllun Gweithredu Anabledd 2007 – 2012 wedi'i gwblhau ac mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi cyflawni'r holl amcanion a bennwyd.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi datblygu proffil cydraddoldeb ar gyfer Gogledd Iwerddon, dogfen bennawd yn hytrach nag astudiaeth ymchwil gynhwysfawr. Mae'n darparu data ar anghydraddoldebau ac anfantais allweddol, ynghyd â dadansoddiad o ddata ariannu'r Gronfa Loteri Fawr.

## Cynllun Iaith Gymraeg

Cyhoeddwyd ein Cynllun Iaith Gymraeg newydd ym mis Medi 2009. Mae'n amlinellu sut byddwn yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru ac wrth ddyfarnu grantiau. Mae gweithrediad y cynllun yn cael ei fonitro a'i drafod mewn cyfarfodydd rheolaidd rhwng Swyddog Iaith Gymraeg y Gronfa Loteri Fawr a Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Mae'r cynllun i gael ei adolygu yn 2012 yn unol â'r Mesur a'r Safonau Iaith Gymraeg newydd. Yn ystod 2011 cyhoeddwyd canllaw iaith Gymraeg newydd, 'Rheoli eich prosiect yn ddwyieithog' i ddarparu arweiniad clir ar ein gofynion iaith Gymraeg i'r holl ymgeiswyr i raglenni Cymru a DU gyfan y Gronfa Loteri Fawr.

Rydym yn ymrwymedig i gyflawni a hyrwyddo datblygu cynaliadwy, o fewn ein mudiad ac o ganlyniad i effaith ein penderfyniadau ariannu.

## Dyfarnu grantiau'n gynaliadwy

Gwnaed ymrwymiad yn y Farn Fawr nid yn unig i leiafu ein heffaith ar yr amgylchedd ond hefyd i sicrhau bod y mudiadau a ariannwn yn gwneud yr un peth. Rydym wedi amlinellu'r pwysigrwydd a roddwn ar ddatblygu cynaliadwy yn ein harweiniad rhaglenni generig sy'n esbonio'r hyn yr ydym eisiau i fudiadau feddwl amdano wrth ystyried datblygu cynaliadwy a'u prosiect. Rydym wedi datblygu adnodd ar y we i helpu mudiadau i ddeall beth mae hyn yn ei olygu'n ymarferol, sy'n darparu manylion ffynonellau cymorth ynghyd â rhestr wirio y gall ymgeiswyr ei ddefnyddio pan fyddant yn cyflwyno cais i ni.

Fel arwydd o sut mae datblygu cynaliadwy yn cael ei ymgorffori yn ein gwaith, mae gan y rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol yng Nghymru elfen unigryw sy'n mynnu bod cymunedau'n dangos effaith gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol eu prosiect. Yn Lloegr bydd ein rhaglen Communities Living Sustainably yn cefnogi hyd at 10 o bartneriaethau i ymchwilio i ffyrdd o helpu cymunedau i ymdrin ag effaith bosib newid hinsawdd dros y pum mlynedd nesaf. Mae ein buddsoddiad Community Spaces yn Yr Alban yn helpu cymunedau i gymryd cyfrifoldeb dros eu hamgylchedd a'u mannau cymunedol eu hunain, i'w gwneud yn fwy cynaliadwy. Yng Ngogledd Iwerddon, bydd ein rhaglen Energy Efficient Venues gwerth £5 miliwn yn helpu mudiadau gwirfoddol a chymunedol i wneud arbedion ar eu costau gwres a golau rheolaidd.


Yn ystod y flwyddyn rydym hefyd wedi ceisio annog arianwyr eraill i ystyried datblygu cynaliadwy trwy weithio gyda City Bridge Trust i gynhyrchu canllaw: "Ariannu ar gyfer y dyfodol: sut y gall yr ddyfarnwyr grantiau helpu i greu byd mwy gwyrdd". Mae hyn yn dod â gwybodaeth ynghyd i helpu arianwyr i hyrwyddo cynaladwyedd amgylcheddol trwy eu harferion ariannu, beth bynnag yw eu blaenoriaethau ariannu.

| Allyriadau nwyon tŷ gwydr | | 2010/11 | 2011/12 |
|---|---|---|---|
| Dangosyddion Anariannol ($tCO_2E$) | Cyfanswm Gros ar gyfer Cwmpasau 1 a 2 | 2,545 | 2,309 |
| | Cyfanswm Net ar gyfer Cwmpasau 1 a 2 (llai gostyngiadau h.y. Tariffau Gwyrdd) | 2,545 | 2,309 |
| | Allyriadau Gros ar gyfer Cwmpas 3 (Teithio Busnes) | 236 | 246 |
| | Allyriadau Cwmpas 3 eraill a fesurwyd | 0 | 0 |
| Defnydd Ynni Cysylltiedig (kWh) | Trydan: Anadnewyddadwy | 3,901,249 | 3,431,763 |
| | Trydan: Adnewyddadwy | 0 | 0 |
| | Nwy | 2,257,987 | 2,363,278 |
| | LPG | 0 | 0 |
| | Eraill | 0 | 0 |
| Dangosyddion Ariannol (£'000) | Gwariant ar Ynni | £475 | £547 |
| | Gwariant Trwyddedau CRC (2010 ymlaen) | £0 | £0 |
| | Incwm CRC o Daliadau Ailgylchu | £0 | £0 |
| | Gwariant ar wrthbwyso achrededig | £0 | £0 |
| | Gwariant ar deithio busnes swyddogol | £812 | £918 |


| Gwastraff | | | 2010/11 | 2011/12 |
|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol (t) | Cyfanswm gwastraff (isafswm gofyniad) | | 132 | 132 |
| | Gwastraff peryglus | Cyfanswm | 0 | 0 |
| | Gwastraff nad yw'n beryglus | Tirlenwi | 48 | 47 |
| | | Ailddefnydd/Ailgylchu | 132 | 132 |
| | | Wedi'i losgi / ynni o wastraff | 0 | 0 |
| Dangosyddion ariannol (£'000) | Cyfanswm cost gwaredu (isafswm gofyniad) | | 47 | 50 |
| | Gwastraff peryglus - Cyfanswm cost gwaredu | | 0 | 0 |
| | Gwastraff nad yw'n beryglus - Cyfanswm cost gwaredu | Tirlenwi | 17 | 18 |
| | | Ailddefnydd/Ailgylchu | 30 | 32 |
| | | Wedi'i losgi / ynni o wastraff | 0 | 0 |

# Cynaladwyedd mewnol

## Allyriadau (maint a chost)




## Meintiau gwastraff




## Gweithredu mewn ffordd gynaliadwy

Yn ogystal â'r ffyrdd yr ydym yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy trwy ein rhaglenni grant, rydym yn anelu at redeg ein gweithrediadau ein hunain mewn ffordd sy'n gynaliadwy yn amgylcheddol.

Rydym wrthi'n datblygu strategaeth gynhwysfawr i ymateb i ymrwymiadau Greening Government y Llywodraeth, ond rydym bob amser wedi cymryd camau i leihau effaith amgylcheddol ein gwaith. Ymysg y camau rydym wedi'u cymryd yw:

- Annog staff yn gryf i ddefnyddio cludiant cyhoeddus yn hytrach na cheir preifat, wrth deithio i'r gwaith ac yn ystod eu hamser yn y gwaith; rydym yn rhoi cyfyngiadau ar leoedd parcio yn ein swyddfeydd ac yn darparu cynllun i annog beicio.
- Buddsoddi'n helaeth mewn fideo-gynadledda i leiafu'r angen am deithio i gyfarfodydd mewnol.
- Buddsoddi mewn systemau TG sy'n defnyddio ynni'n fwy effeithlon ac annog staff i ddefnyddio cyfarpar yn effeithlon, er enghraifft trwy ddiffodd eitemau.
- Gwella'r systemau gwresogi ac awyru yn yr un swyddfa rydym yn gwneud defnydd llawn ohono ac felly yn ei rheoli.
- Sicrhau ein bod bob amser yn ystyried cynaladwyedd wrth brynu deunyddiau a phapur printiedig. Defnyddiwn ddeunyddiau wedi'u hailgylchu pryd bynnag y bo'n bosib.
- Lleihau swm y gwastraff a gynhyrchwn, a threfnu i gymaint ohono â phosib gael ei ailddefnyddio neu ei ailgylchu yn hytrach na'i gladdu mewn safleoedd tirlenwi.
- Gweithredu strategaeth lety ragweithiol iawn i leihau maint y swyddfeydd, ac felly yr ynni, a ddefnyddiwn.

| Defnydd o adnoddau meidraidd/dŵr | | | 2010/11 | 2011/12 |
|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol ($m^3$) | Defnydd o ddŵr | Wedi'i gyflenwi | 5,501 | 6,079 |
| Dangosyddion ariannol (£'000s) | Costau cyflenwi dŵr | | £32 | £35 |

Yn y dyfodol, bwriadwn:-

- Sefydlu gwaelodlinau clir a thargedau gwella ar draws yr ystod lawn o fesurau o fewn Greening Government, gyda chynlluniau gweithredu i'w cyflawni nhw i gyd.
- Adfywio ein cynllun 'Eiriolwyr Gwyrdd' ymysg ein staff i annog arferion cynaliadwy.
- Ymgorffori cynaladwyedd yn fwy clir yn ein polisïau caffael.
- Targedu'r gostyngiad mewn hedfaniadau domestig a'r defnydd o bapur.
- Ystyried gosod yn erbyn ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr.
- Ceisio cydsyniad gyda landlordiaid i brynu trydan o ffynonellau adnewyddadwy.

Mae Trysorlys EM wedi cyhoeddi canllawiau newydd ar y mesurau i adrodd amdanynt ac mae'r rhain wedi'u hamlinellu isod. Mae'r mesurau'n ymdrin â'n hallyriadau nwyon tŷ gwydr a'n defnydd o ynni; y gwastraff a gynhyrchwn; a'r dŵr a ddefnyddiwn. Gan mai ni yw'r unig denant mewn un yn unig o'n swyddfeydd (Birmingham) mae'n anodd yn aml i gael gwybodaeth ddibynadwy ac amserol gan ein landlordiaid mewn perthynas â'n defnydd ein hunain.


Daw 'allyriadau Cwmpas 1' o gynhyrchu nwyon tŷ gwydr yn uniongyrchol, er enghraifft trwy losgi nwyon mewn boeleri, ac 'allyriadau Cwmpas 2' yw'r rhai sy'n rhan o ynni a brynir, megis trydan. Ni allwn wahanu'r rhai'n yn fanwl gywir ar hyn o bryd (gan fod sut gymaint yn cael ei brynu'n anuniongyrchol trwy ein landlordiaid), ond rydym yn gweithio i wella gwybodaeth yn y dyfodol.

Mae gostyngiad parhaus ym maint ein swyddfeydd wedi ein galluogi i leihau ein defnydd o ynni ac felly ein hallyriadau dros y flwyddyn ddiwethaf. Hyd yn oed wedyn, mae'r cynnydd sylweddol mewn prisiau ynni'n golygu bod ein costau wedi codi.

Cododd 'allyriadau Cwmpas 3' o deithio busnes ychydig bach y llynedd. Mae ein hallyriadau eisoes yn isel ond byddwn yn parhau i chwilio am ffyrdd o'u gostwng ymhellach. Cododd costau oherwydd codiadau mewn prisiau, yn enwedig ar gyfer teithio ar y trên.

Mae'r tabl ar dudalen 15 yn dangos y gwastraff a gynhyrchwyd yn ystod y flwyddyn, ac arhosodd y ganran rydym yn ei chladdu mewn safleoedd tirlenwi'n wastad yn ystod y flwyddyn.

Defnydd o ddŵr




Ymddengys fod y defnydd o ddŵr yn ein swyddfeydd wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn (fel y dangosir yn y tabl ar y chwith). Mae data ar y dŵr a ddefnyddir gan y Gronfa Loteri Fawr yn arbennig o anodd i gael gafael arno gan na all llawer o'r wybodaeth a ddarperir gan landlordiaid wahaniaethu rhwng y Gronfa Loteri Fawr a thenantiaid eraill, ac rydym yn aneglur ynglŷn â'r rheswm dros y cynnydd a adroddwyd. Byddwn yn parhau i weithio i wella'r wybodaeth y gallwn gael gafael arni, ac wrth gwrs byddwn yn annog y defnydd effeithlon o ddŵr yn ein swyddfeydd.

## Camau nesaf

Fel mudiad rydym yn ymrwymedig i welliannau parhaus ar draws pob maes, ac yn dilyn y flwyddyn gyntaf hon o adrodd am gynaladwyedd, mae gwelliannau sylweddol eisoes wedi'u gwneud yn y broses adrodd a chyflwyno gwybodaeth. Bydd y sylw'n canolbwyntio nawr ar resymoli'r ymarfer hwn, yn ogystal â chynyddu ansawdd y data trydydd parti a ddarperir wrth i ni symud ymlaen.

Gobeithiwn wella'r offeryn adrodd hwn yn y dyfodol trwy ddefnyddio meincnodi a dargedir.  Gan mai dyma'r flwyddyn gyntaf y mae'n ofynnol i ni (a mudiadau tebyg) adrodd ar ein cynaladwyedd , mae ychydig iawn o wybodaeth ar hyn o bryd i'w defnyddio yn y cyfryw ffordd.  Dylai defnyddio meincnodau'r diwydiant ddarparu dealltwriaeth fwy clir o sut rydym yn perfformio, yn ogystal â'n cynorthwyo i adnabod amcanion allweddol i'w halinio gyda'n strategaeth amgylcheddol ddatblygol.

# Ein rhaglenni grantiau

Yn ystod 2011/12 rydym wedi parhau i wneud dyfarniadau newydd a rheoli dyfarniadau a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol. Rhoddir manylion ein grantiau dros £5 miliwn yn Adran saith.

## Maint y gweithgarwch

Mae'r tablau isod yn crynhoi maint y ceisiadau llawn, y dyfarniadau a wnaed a'r grantiau sy'n cael eu rheoli yn ystod y flwyddyn ariannol mewn rhaglenni a reolir gan y Gronfa Loteri Fawr. Nid yw hyn yn cynnwys ceisiadau i'n partneriaid dyfarnu a'n partneriaid cyflwyno dan gontract, a dyfarniadau a wnaed ganddynt.

**Ceisiadau a dderbyniwyd yn ystod 2011/12**
Nid yw rhai o'r ceisiadau hyn wedi'u cyflwyno i bwyllgor penderfyniadau eto

| | Nifer o geisiadau | Swm y gofynnwyd amdano (£) |
|---|---|---|
| Rhaglenni'r Gronfa Loteri Fawr | 23,544 | 1,915,664,216 |
| Rhaglenni nad ydynt wedi'u hariannu gan y Loteri | 1,130 | 155,559,727 |
| Cyfanswm | 24,674 | 2,071,223,943 |

Gyda llawer o'n rhaglenni rydym yn defnyddio cam cynnig amlinellol i roi adborth cyflym sy'n nodi p'un a yw rhaglen yn werth ei datblygu neu beidio, a sut y gellir ei datblygu. Yn 2011/12 derbyniwyd bron 6,000 o gynigion cam amlinellol yn gofyn am £1.5 biliwn.

**Dyfarniadau newydd yn ystod 2011/12**
Mae rhai o'r dyfarniadau hyn yn ymwneud â cheisiadau a dderbyniwyd mewn blynyddoedd cynharach.

| | Nifer o ddyfarniadau | Swm a ddyfarnwyd (£) |
|---|---|---|
| Rhaglenni'r Gronfa Loteri Fawr | 12,376 | 768,841,000 |
| Rhaglenni nad ydynt wedi'u hariannu gan y Loteri | 1,276 | 146,676,339 |
| Cyfanswm | 13,652 | 915,517,339 |







Mae'r tabl isod yn dangos grantiau sy'n cael eu rheoli yn ystod 2011/12. Dyfarnwyd y grantiau hyn gan y Gronfa Loteri Fawr. Maent erbyn hyn yng ngham cyflwyno'r prosiectau ac yn derbyn taliadau grant.


**Grantiau sy'n cael eu rheoli ar 31 Mawrth 2012**

| | Nifer o ddyfarniadau | Taliadau i dderbynyddion grantiau (£) |
|---|---|---|
| Rhaglenni'r Gronfa Loteri Fawr | 17,007 | 998,328,814 |
| Rhaglenni nad ydynt wedi'u hariannu gan y Loteri | 1,681 | 76,271,769 |
| Cyfanswm | 18,688 | 1,074,600,583 |

## Ein hymrwymiad i'r sector gwirfoddol a chymunedol (SGCh)

Rydym wedi gwneud addewid i ymrwymo o leiaf 80 y cant o'n hariannu'n uniongyrchol i'r sector gwirfoddol a chymunedol (SGCh). Eleni aeth 92 y cant o'r arian a ymrwymwyd i'r SGCh. Ariannodd yr 8 y cant sy'n weddill nifer o bartneriaethau cymunedol ehangach, gan greu buddion ar gyfer y SGCh a'r bobl a'r cymdogaethau y mae'n eu gwasanaethu.

Dyfarniadau newydd a wnaed yn 2011/12 (ac eithrio amrywiadau i ddyfarniadau cyfredol a dyfarniadau gan ein partneriaid dyfarnu):




## Cyfrifon Segur

O dan Ddeddf Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Segur 2008 ('y Ddeddf'), gall banciau a chymdeithasau adeiladu drosglwyddo arian o gyfrifon segur i Reclaim Fund Ltd, endid nid er elw sydd ag awdurdod i weithredu fel y gronfa hawlio'n ôl.

Mae Reclaim Fund Ltd yn trosglwyddo arian y mae wedi'i fodloni nad oes ei angen i dalu hawliadau yn y dyfodol gan berchnogion y cyfrifon segur i'r Gronfa Loteri Fawr. Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn dosbarthu'r arian hwnnw yn unol â'r Ddeddf a'r cyfarwyddiadau a roddir iddo gan y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet a'r gweinyddiaethau datganoledig.

# Rhaglenni DU gyfan

Yn 2009 cytunodd Bwrdd y Gronfa Loteri Fawr i ddyrannu o leiaf 10 y cant o gyllideb y Gronfa Loteri Fawr i raglenni DU gyfan. Mae'r Gronfa Loteri Fawr bob amser wedi ariannu rhaglenni a phrosiectau ar sail DU gyfan, fel y gwnaeth ei rhagflaenwyr. Ond fel rhan o'i hystyriaeth o fframwaith strategol 2009-15, roedd Bwrdd y DU eisiau mabwysiadu ymagwedd fwy strategol at ariannu DU gyfan i sefydlu gweledigaeth fwy clir o ran pryd y byddai'r Gronfa Loteri Fawr yn ymyrryd ar lefel y DU.

Ym mhob gwlad o'r DU mae'r Gronfa Loteri Fawr yn cyflwyno arian sydd wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion gwirioneddol a nodir gan ei phwyllgorau gwlad datganoledig.

Mae gan Bwyllgor Ariannu'r DU, gyda'i ddyraniad ariannu a chylch gorchwyl ei hun, rôl sy'n unigryw ac yn gweddu i waith y pedwar pwyllgor gwlad. Mae ganddo ddiddordeb penodol mewn cymhwyso'r athroniaeth hon i'r heriau polisi cymdeithasol anoddaf sy'n wynebu holl wledydd y DU ac yn rhyngwladol yn yr oes bresennol.

Oherwydd graddfa'r heriau hyn, ni ellir eu datrys trwy ariannu'r Gronfa Loteri Fawr ar ei ben ei hun. Fel un o nifer bach iawn o arianwyr a all gyfuno cyrhaeddiad ledled y DU gyda dealltwriaeth ddofn o'r hyn sy'n wahanol a'r hyn sy'n debyg rhwng Cymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon, gallwn ddangos yr hyn a allai fod yn bosib, gan helpu eraill i ddysgu o'r hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio.

Rydym yn defnyddio tystiolaeth i bennu rhestr fer o broblemau craidd sy'n cyflwyno her i'r holl wledydd bellach. Byddwn yn blaenoriaethu'r rhai hynny sydd â goblygiadau hir dymor sylweddol o ran bywyd yn y dyfodol:

- Mae Dyfodol Gwell yn profi sut y gellir trefnu gwasanaethau'n well o gwmpas gwella ansawdd bywydau plant oedran cynradd sy'n tyfu i fyny o dan yr amgylchiadau mwyaf heriol.
- Mae Gwireddu Uchelgais yn ymchwilio i'r ffordd orau o efelychu 25 o ymyraethau sydd wedi dangos yn flaenorol sut i leihau cyfraddau troseddu ymysg pobl ifanc.
- Rydym am ddysgu sut y gall cymunedau addasu orau i oblygiadau newid hinsawdd.
- Rydym am ymchwilio i sut y gall cymunedau ymbaratoi ar gyfer yr amser pan fydd llawer mwy o bobl dros 60 oed.

Mi fydd mwy hefyd, ac rydym yn datblygu cronfa hyblyg i ymateb yn gyflym i'r cynigion mwyaf cymhellol a gyflwynir i ni.

Weithiau bydd ein hymyraethau'n galw ar y gorau o'r hyn sy'n digwydd yn ein portffolios gwlad. Ar achlysuron eraill byddwn yn gweld bylchau ac yn ceisio eu llenwi. Weithiau byddwn yn ymgysylltu â nifer mawr o'r cyhoedd trwy bartneriaethau gyda darlledwyr ac eraill sydd â phresenoldeb ledled y DU.


Ym mhob achos mae ein huchelgais yn ymestyn ymhell y tu hwnt i wella bywydau'r rhai sy'n ffodus i gael eu heffeithio'n uniongyrchol gan ein hariannu. Rydym yn cefnogi ymchwil a dysgu sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r buddsoddiadau a wnawn, gan ddysgu wrth i ni symud ymlaen, a chynnwys y rhai a all ddylanwadu ar ddyluniad a chyflwyniad gwasanaethau ac ymddygiadau mewn cymunedau yn y dyfodol. Fel brocer i sgyrsiau sydd wedi'u symbylu gan arian a anelir yn uniongyrchol at heriau y mae pedair gwlad y DU yn rhannu budd wrth fynd i'r afael â nhw, ein bwriad yw ysgogi addasiadau parhaus a chadarnhaol i arferion ariannu'n genedlaethol ac yn lleol ac o ran y rolau sydd gan bobl o fewn cymunedau.

## Portffolio y DU

Mae portffolio cyfredol y DU yn cynnwys tri maes ariannu bras: Efelychu ac Arloesedd; Partneriaethau a Chynnwys y Cyhoedd; a'r rhaglen Ryngwladol.



# Efelychu ac Arloesedd



Mae Efelychu ac Arloesedd yn ymdrin â mentrau a phrosiectau sy'n ymgorffori modelau ariannu newydd megis Bondiau Effaith Gymdeithasol, neu sy'n cyflwyno'r posibilrwydd o fynd i'r afael â phroblemau sydd wedi hen galedu mewn ffyrdd newydd ar draws y DU, er enghraifft Dyfodol Gwell sy'n ymdrin â materion mewn perthynas â theuluoedd ag anghenion lluosog. Trwy Efelychu rydym yn ymchwilio i sut i fynd ag arfer effeithiol y tu hwnt i'w fan cychwyn ac i mewn i gymunedau newydd, yn enwedig trwy Gwireddu Uchelgais, sy'n ymwneud ag atal troseddu am y tro cyntaf. Mae gweithredu, lledaenu dysgu a dylanwadu ar bolisïau ac arfer i gyd yn elfennau arwyddocaol y ddau linyn hwn. Isod mae manylion y rhaglenni sy'n dod o dan y maes ariannu hwn.



## Gwireddu Uchelgais

Mae Gwireddu Uchelgais yn fuddsoddiad £25 miliwn a fydd yn efelychu ymyraethau effeithiol a seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi pobl ifanc i gyflawni eu potensial ac osgoi llwybrau sy'n arwain at droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae dau ddimensiwn allweddol i hyn: atal pobl ifanc rhag troseddu am y tro cyntaf ac efelychu arfer SGCh effeithiol.

Ym mis Mawrth 2012 gwnaethom benodi consortiwm a arweiniwyd gan Catch 22 fel ein Partner DU i redeg y rhaglen. Dros y flwyddyn ariannol nesaf bydd Catch 22 yn cyflawni gwaith dwys gyda 25 o brosiectau. Mae'r rhain yn cynrychioli rhai o'r prosiectau sydd â'r dystiolaeth orau yn y DU o gefnogi pobl ifanc i osgoi troseddu.

## Dyfodol Gwell

Mae Dyfodol Gwell, a lansiwyd ym mis Mawrth 2011, yn darparu hyd at £26 miliwn (£24.5 miliwn wedi'i ddyfarnu) i wella canlyniadau ar gyfer plant sy'n byw mewn teuluoedd ag anghenion lluosog a chymhleth. Bydd yn treialu ystod o ymagweddau newydd at ymyrraeth gynnar a chefnogaeth dros y pum mlynedd nesaf. Mae'r partneriaethau a arweinir gan y SGCh yn cydweithio'n agos â gwasanaethau cyhoeddus lleol, gyda'r nod o fwyafu gwerth yn sgil rhannu arbenigedd ac adnoddau ar draws sectorau.

Yn ystod 2011/12 dyfarnodd y rhaglen 25 o grantiau datblygu gwerth £236,000 a gwnaed 26 o ddyfarniadau llawn gwerth £23.3 miliwn.

## Carchar EM y Parc

Mae prosiect Carchar EM y Parc yn unigryw yn y ffordd y mae'n cyfuno mathau amrywiol o ymyraethau ac yn ei ffocws cryf ar ailintegreiddio o fewn y gymuned. Mae'n darparu cefnogaeth cyn ac ar ôl rhyddhau o'r carchar i deuluoedd, gyda'r nod o leihau'r tebygolrwydd y bydd cyn-droseddwyr yn cyflawni troseddau pellach ac y bydd eu plant yn ymwneud ag ymddygiad troseddol.

Ariannwyd cam cyntaf y prosiect trwy gais a gaffaelwyd yn uniongyrchol yn 2010/11, gan ddyfarnu £49,588 i ddatblygu cynllun busnes. Wedi hynny gwahoddwyd G4S Care & Justice (UK) Limited i gyflwyno cais llawn, a dyfarnwyd £3.1 miliwn iddynt ym mis Chwefror 2012.

# Partneriaethau a Chynnwys y Cyhoedd

**Mae Partneriaethau a Chynnwys y Cyhoedd yn cwmpasu ein rhaglenni gydag agwedd sy'n wynebu'r cyhoedd – er enghraifft y sawl sy'n cael eu cyflwyno mewn partneriaeth â mudiadau'r cyfryngau neu'r sawl sy'n galluogi cyfranogiad cyhoeddus cyffredinol drwy gymryd rhan mewn pleidleisio cyhoeddus neu ddigwyddiadau cymunedol. Mae Miliynau'r Bobl, Living Landmarks, Pentref SOS a Byd o Natur yn enghreifftiau o raglenni yn y ffrwd hon. Isod mae manylion y rhaglenni sy'n dod o dan y maes ariannu hwn.**

## Miliynau'r Bobl y Jiwbilî

Gyda chymeradwyaeth gan Balas Buckingham, mae'r Gronfa Loteri Fawr ac ITV yn helpu i nodi Jiwbilî Ddiemwnt y Frenhines trwy Miliynau'r Bobl y Jiwbilî. Lansiwyd y rhaglen hon ar 26 Tachwedd 2010 gyda chyllideb o £3.6 miliwn. Nod y rhaglen yw gwella mannau lleol neu fywydau pobl yn y gymuned trwy ariannu prosiectau newydd gwerth hyd at £60,000 sy'n digwydd yn 2012.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi gwneud 63 o ddyfarniadau gwerth £3.5 miliwn.

## Mileniwm Nawr

Lansiwyd y rhaglen Mileniwm Nawr gwerth £10 miliwn yn 2011. Bydd y rhaglen yn datblygu prosiectau creadigol ac ysbrydoliaethus sy'n briodol ar gyfer y deng mlynedd hon (2010–2020) ac yn seiliedig ar themâu y mae'r cyhoedd yn eu cefnogi.


Trwy'r Penderfyniad Mawr, partneriaeth gyda Channel 4, ac arolwg barn a gynhaliwyd gan Ipsos MORI, dywedodd pobl o bob cwr o'r DU wrth y Gronfa Loteri Fawr am y mathau o brosiectau yr oeddent eisiau iddynt gael eu hariannu gan Mileniwm Nawr. Defnyddiwyd yr adborth hwn i helpu wrth lunio'r rhaglen a'r mathau o brosiectau. Derbyniwyd 132 o geisiadau a dyfarnwyd arian datblygu i bump ohonynt. Bydd y pum prosiect hyn yn cael eu ffilmio ar gyfer cyfres ddogfen pum rhan.

Yn ystod 2011/12 gwnaeth y rhaglen bum dyfarniad arian datblygu gwerth £147,825. Disgwylir i'r dyfarniadau llawn gael eu gwneud yn ystod 2012/13.

## Pentref SOS Actif

Yn dilyn rhaglen Pentref SOS y llynedd a'r gyfres deledu lwyddiannus ar y BBC, lansiwyd Pentref SOS Actif. Bydd y rhaglen grantiau bach hwn yn ysbrydoli pobl mewn pentrefi gwledig i ddefnyddio menter gymdeithasol i adfywio eu cymunedau. Mae'r rhaglen hefyd yn cynnwys ymgyrch ddysgu ryngweithiol a arweinir gan Sefydliad Plunkett sy'n cynnig cyngor a chefnogaeth i bobl sy'n sefydlu eu mentrau cymunedol eu hunain trwy wefan ryngweithiol, cyfres o ddigwyddiadau sioe deithiol a llinell gymorth dros y ffôn. Gweler www.villagesos.org.uk/cy am fwy o fanylion.

Yn ystod 2011/12 gwnaed 62 o ddyfarniadau gwerth £1.5 miliwn.



## Fixers

Mae Fixers yn brosiect arloesol sydd wedi profi ei werth a gyflwynir ar hyn o bryd yn Lloegr a fydd yn ehangu ei raglen pobl ifanc yn Lloegr ac yn ei chyflwyno ar draws y DU. Gall pobl ifanc rhwng 16 a 25 oed ddewis a datblygu ymgyrchoedd a fydd yn ddefnyddiol i'r gymuned leol ac yn helpu pobl eraill. Mae dros 5,000 o bobl ifanc wedi gweithio ar 600 o brosiectau Fixers

Yn ystod 2011/12 dyfarnwyd £7.2 miliwn.

## Yr Ymddiriedolaeth Gyfryngau

Bydd y prosiect yn sefydlu rhwydwaith DU gyfan o bothau newyddion cymunedol lleol, gan ddod â gwaith yr Ymddiriedolaeth Gyfryngau ynghyd gyda chymunedau a mudiadau cymunedol; bydd yn cynyddu'r effaith a'r cwmpas daearyddol yn sylweddol trwy integreiddio gwasanaethau lleol a DU gyfan.

Yn ystod 2011/12 dyfarnwyd £2.0 miliwn.

## Kew: Grow Wild

Dyfarnwyd £10.5 miliwn i'r prosiect Kew Go Native! ym mis Mawrth 2012.

Bydd y rhaglen hon yn ymgyrch cynnwys y cyhoedd cenedlaethol enfawr i ysbrydoli unigolion, grwpiau a chymunedau i weithredu dros gadwraeth leol. Bydd y prosiect yn cydweithio â mudiadau ar draws y DU i annog y cyhoedd i feddwl eto am flaenoriaethau amgylcheddol a phwysigrwydd heriau amgylcheddol allweddol. Cyfanswm gwerth y prosiect yw £13 miliwn, y mae £10.5 miliwn ohono wedi'i ddyfarnu gan y Gronfa Loteri Fawr.

Dros gyfnod y grant mae Kew wedi pennu targedau uchelgeisiol i gyrraedd dros 4 miliwn o bobl ifanc ac annog dros 1 miliwn o bobl i weithredu. Bydd pedair gardd nodedig yn trawsnewid mannau trefol segur; bydd mwy na 2 miliwn o safleoedd yn cael eu plannu; a bydd 200,000 o safleoedd ychwanegol yn cael eu plannu gan bobl ifanc.

## Prosiect Volunteer it Yourself – Federation of London Youth Clubs

Mae VIY yn cyfuno gwirfoddoli a datblygu sgiliau trwy herio pobl ifanc 14–17 oed mewn ardaloedd difreintiedig yng Nghymru a Lloegr i ddysgu crefftau a sgiliau adeiladu, gan weithio ar 47 o glybiau ieuenctid ac adeiladau cymunedol lleol t mae angen eu hatgyweirio ar yr un pryd. Mae'r prosiectau'n targedu grŵp oedran iau na ddarperir ar eu cyfer gan gynlluniau sydd eisoes yn bodoli.

Tros gyfnod dwy flynedd y prosiect hwn bydd VIY yn galluogi 1,880 o bobl ifanc i wirfoddoli, dysgu sgiliau newydd ac ennill achrediad galwedigaethol gyda chymorth gan 188 o wirfoddolwyr sgiliau proffesiynol lleol. Un o gryfderau'r prosiect yw'r bartneriaeth rhwng London Youth Clubs, yr Asiantaeth Noddi ar y Cyd a Wickes.

Yn ystod 2011/12, dyfarnwyd £940,000.

## Rhaglen Ryngwladol

Mae ein rhaglen Ryngwladol (Cymunedau Rhyngwladol) yn cynnig ariannu i fudiadau'r DU sy'n cyflwyno prosiectau mewn cymunedau difreintiedig tramor. Mae'r rhaglen gyfredol, a lansiwyd ym mis Medi 2010, yn canolbwyntio ar wella addysg gynradd, iechyd, mynediad i adnoddau naturiol, hawliau dyno a lleihau tlodi mewn ffordd gynaliadwy. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r rhaglen wedi gwneud 16 o ddyfarniadau gwerth £6.9 miliwn.





## Arwyr yn Ôl 2

Mae'r rhaglen Arwyr yn Ôl 2 yn darparu arian Loteri i helpu cyn-filwyr yr Ail Ryfel Byd a fu yn y gad ac sy'n byw yn y DU neu Weriniaeth Iwerddon i gymryd rhan mewn ymweliadau Coffáu (yn y DU a thramor).

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r rhaglen wedi gwneud 462 o ddyfarniadau gwerth £758,435.

# Rhaglenni Lloegr



Yn ystod 2011/12, parhawyd i ddatblygu ein portffolio yn Lloegr, a myfyrio ar sut y gall ein hymagweddau ariannu ymateb orau i'r cyd-destun cymdeithasol ac economaidd heriol sy'n wynebu unigolion a chymunedau anghenus - a'r mudiadau gwirfoddol a chymunedol sy'n derbyn y rhan fwyaf o'n hariannu, ac sy'n gweithredu orau fel catalydd ar gyfer gweithredu dinesig ac adfywio.

Wrth wraidd ein hariannu a'n buddsoddiadau yn Lloegr mae People Powered Change (PPC), a ategir gan dair egwyddor: helpu pobl i ddefnyddio eu sgiliau eu doniau a'u hadnoddau i adnabod problemau a dod o hyd i atebion sy'n gweithio ar gyfer eu cymunedau; gweithio ar y cyd, brocera sgyrsiau a phartneriaethau i fynd i'r afael â phroblemau'n well yn y dyfodol; a rhannu dysgu'n lleol ac yn genedlaethol. Trwy PPC rydym yn dathlu llwyddiannau deiliaid grantiau, gan ddarparu llwyfan i'w gwaith gael ei gydnabod a'i efelychu mewn mannau eraill.

Mae ein rhaglenni agored sefydledig - Reaching Communities ac Arian i Bawb - yn parhau'n rhan ganolog o'n portffolio a gwnaethom gynyddu'r ariannu sydd ar gael trwy'r ddwy raglen yn 2011/12 fel rhan o becyn £70 miliwn o gefnogaeth i elusennau a grwpiau gwirfoddol sy'n profi anawsterau yn wyneb cwtogi ar wariant a galw cynyddol am wasanaethau.

Mae'r fenter Supporting Change and Impact hefyd wedi cynnig cefnogaeth ar gyfer deiliaid grantiau sy'n dod tua diwedd eu hariannu er mwyn cynllunio at y dyfodol, yn ogystal â blwyddyn o ariannu ychwanegol ar gyfer y rhai sy'n dangos effaith ragorol.

Gwnaed cynnydd sylweddol gan BIG Local, ein buddsoddiad hir dymor gwerth £200 miliwn yn y cymdogaethau mwyaf difreintiedig yn Lloegr. Cyhoeddwyd 50 o gymdogaethau pellach a fydd yn elwa o'r rhaglen. Cwblhawyd y broses o sefydlu mudiad annibynnol (Local Trust) hefyd, a fydd yn helpu ardaloedd lleol i benderfynu sut i wario eu dyraniadau a gweinyddu gwaddol gwariant y rhaglen.

Parhawyd â'n hymrwymiad i fuddsoddiad strategol a dargedir wrth i £30 miliwn o grantiau gael eu dyfarnu o dan y rhaglen Youth in Focus, ac wrth lansio Improving Financial Confidence (£30 miliwn), Communities Living Sustainably (£10 miliwn) a'r Gronfa Silver Dreams (£10 miliwn), ar y cyd gyda'r Daily Mail.

Cymerwyd cam ymlaen pwysig hefyd wrth ymchwilio i rôl bosib buddsoddiad cymdeithasol wrth fynd i'r afael â phroblemau a brofi gan gymunedau a'r rhai mwyaf anghenus, gyda'n harian Loteri a chyfrifon segur.

**Cylch gwaith**

Gwariant sy'n elusennol neu'n gysylltiedig ag iechyd, addysg neu'r amgylchedd

| Dysgu cymunedol a chreu cyfleoedd | Hyrwyddo cydlyniant a diogelwch cymunedol | Hyrwyddo lles |
|---|---|---|

**Canlyniadau Lloegr**

| Gwell cyfleoedd i bobl mewn bywyd, gan gynnwys medru cael gwell mynediad i hyfforddiant a datblygiad i wella eu sgiliau bywyd | Cymunedau cryfach gyda dinasyddion mwy actif, yn cydweithio i fynd i'r afael â'u problemau | Pobl a chymunedau mwy iach a mwy actif | Gwell amgylcheddau gwledig a threfol y gall cymunedau eu hygyrchu a'u mwynhau'n |
|---|---|---|---|

Arian i Bawb Lloegr

Reaching Communities (Lloegr)

Big Local

Supporting Change and Impact

Next Steps in Social Investment

| Youth in Focus | Silver Dreams | Parks for People |
|---|---|---|
| Improving Financial Confidence | | Communities Living Sustainably |

## Arian i Bawb

Mae Arian i Bawb Lloegr yn ariannu prosiectau rhwng £300 a £10,000 i adeiladu cymunedau cryfach, gwella amgylcheddau gwledig a threfol a chreu pobl sy'n fwy iach ac yn fwy actif.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2011/12:**
6,792 o ddyfarniadau gyda gwerth o £56.4 miliwn.

## Reaching Communities

Lansiwyd y rhaglen Reaching Communities ym mis Rhagfyr 2005. Nod y rhaglen yw gwella cymunedau a bywydau'r bobl fwyaf anghenus. Mae grantiau'n ymwneud ag amrywiaeth eang o faterion, ac yn cefnogi cymunedau drwy grwpiau gwirfoddol cenedlaethol yn ogystal â rhai bach lleol. Dyfernir symiau rhwng £10,000 a £500,000.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2011/12:**
559 o ddyfarniadau gyda gwerth o £148 miliwn.

# Communities Living Sustainably

## Big Local

Bydd y rhaglen Big Local gwerth £200 miliwn yn helpu pobl mewn hyd at 150 o ardaloedd difreintiedig bach yn Lloegr sy'n cael eu hanwybyddu i wneud eu cymunedau'n llefydd gwell i fyw. Mae Big Local yn cael ei redeg gan Local Trust, a fydd yn buddsoddi'r arian ac yn cefnogi cynlluniau ariannu lleol ym mhob ardal. Bydd y cynlluniau'n cefnogi pobl leol i adnabod blaenoriaethau sy'n bwysig iddynt a chymryd camau priodol. Bydd y cynlluniau'n dod â buddion hir dymor i'r ardaloedd, yn cynyddu sgiliau a hyder, yn ychwanegol at ariannu cyhoeddus ac yn cael eu rhedeg yn lleol. Lansiwyd Local Trust ym mis Chwefror 2012, ac mae 100 o gymdogaethau sydd ar fin elwa wedi'u cyhoeddi.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2011/12:**
Dyfarnwyd gwaddol gwariant unigol o £196.8 miliwn i Local Trust ym mis Mehefin 2011. Wrth baratoi am hynny parhawyd â'n cefnogaeth ar gyfer y 50 ardal gychwynnol er mwyn i bobl leol ddechrau meddwl am y newidiadau yr hoffent eu gweld gyda 34 o grantiau Getting People Involved gwerth cyfanswm o £625,410.

Bydd y rhaglen hon yn ariannu partneriaethau lleol sy'n dod â'r sectorau cyhoeddus, preifat, gwirfoddol a chymunedol ynghyd i fyw'n fwy cynaliadwy a delio ag effaith newid yn yr hinsawdd. Bydd y cymunedau hyn yn darparu ysbrydoliaeth ac yn rhannu eu dysgu gyda chymunedau eraill ar draws Lloegr. Ym mis Mawrth 2012 rhoddwyd grantiau datblygu i 30 o gymunedau i lunio cynlluniau manwl ar gyfer dyfarniadau o hyd at £1 miliwn dros bum mlynedd, ac mae Both Dysgu wedi'i sefydlu er mwyn iddynt rannu eu dysgu gyda chymunedau eraill.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2011/12:**
30 o grantiau datblygu o hyd at £10,000 gwerth cyfanswm o £298,730. Mae grant unigol o £1.6 miliwn wedi'i ddyfarnu i bartneriaeth a arweinir gan Groundwork i gefnogi cymunedau sy'n cymryd rhan, a sicrhau bod dysgu'n cael ei rannu'n ehangach.





## Supporting Change and Impact

Yn 2011 lansiwyd pecyn mawr o gefnogaeth gwerth £70 miliwn ar gyfer elusennau a grwpiau cymunedol ar draws Lloegr sy'n profi anawsterau yn wyneb cwtogiadau i wariant cyhoeddus a galw cynyddol am eu gwasanaethau. Yn ogystal â darparu £25 miliwn ychwanegol trwy ein rhaglenni agored, darparwyd grantiau gwerth hyd at £10,000 i helpu prosiectau i adolygu eu gwaith a dod o hyd i ffyrdd o fynd yn fwy cynaliadwy. Rhoddwyd cyfle hefyd i ddeiliaid grantiau ymgeisio am werth blwyddyn ychwanegol o ariannu i barhau â'u gwaith trwy'r hinsawdd economaidd anodd.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2011/12:**
217 o ddyfarniadau Supporting Impact uniongyrchol gwerth cyfanswm o £20.9 miliwn
820 o ddyfarniadau Supporting Change gwerth cyfanswm o £7.9 miliwn
19 o ddyfarniadau gwerth cyfanswm o £19.7 miliwn er mwyn i bartneriaid reoli gynlluniau Supporting Change and Impact o fewn eu cynlluniau dyfarniadau neu bortffolios.

## Next Steps in Social Investment

Ein nod gyda Next Steps yw ymchwilio i rôl bosib buddsoddiad cymdeithasol wrth fynd i'r afael â phroblemau a brofir gan gymunedau a'r rhai mwyaf anghenus. Rydym yn gwneud hyn trwy ariannu cyfryngau buddsoddiad cymdeithasol cadarn, gan alluogi dysgu ymarferol am fuddsoddiad cymdeithasol.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2011/12:**
Pedwar dyfarniad gwerth cyfanswm o £460,876. Rydym hefyd yn ymchwilio i nifer o gynigion eraill a byddwn yn gwneud dyfarniadau pellach yn ystod 2012/13.

## Ffocws ar Ieuenctid

Lansiwyd y rhaglen Youth in Focus gwerth £30 miliwn yn 2010 i ariannu prosiectau sy'n cefnogi pobl ifanc fregus trwy newidiadau anodd yn eu bywydau. Yn benodol targedodd y rhaglen ofalwyr ifanc; pobl ifanc sy'n gadael gofal; a phobl ifanc sy'n gadael sefydliadau troseddwyr ieuenctid.



## Parks for People

Mae Parks for People yn rhaglen ar y cyd rhwng y Gronfa Loteri Fawr a Chronfa Dreftadaeth y Loteri. Yn 2011/12 roedd ganddi gyllideb gyfunol o hyd at £21.7 miliwn yn Lloegr.

Mae'r rhaglen yn cefnogi adfywio, cadwraeth a mwynhad cynyddol parciau cyhoeddus.

Mae Pwyllgor Lloegr y Gronfa Loteri Fawr yn gwneud penderfyniadau ar y cyd gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri ar hyn o bryd.

Yn 2011/12 cyrhaeddodd nifer o geisiadau Gam Dau mewn fersiwn cynharach o'r rhaglen

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2011/12:**
Dyfarnwyd wyth grant gwerth cyfanswm o £17.1 miliwn i ymgeiswyr sy'n cyrraedd ail gam y broses ymgeisio. Roedd 14 o geisiadau cam cyntaf pellach, yn gofyn am £23.6 miliwn yn llwyddiannus, a dyfarnwyd ariannu datblygu gwerth £1.3 miliwn iddynt.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2011/12:**
30 o ddyfarniadau gwerth cyfanswm o £29.6 miliwn. Roedd y rhan fwyaf o'r dyfarniadau hyd at £1 miliwn ar gyfer hyd at bum mlynedd, gyda thri dyfarniad Lloegr gyfan mwy o hyd at £1.5 miliwn yn canolbwyntio ar ymwybyddiaeth a dysgu cenedlaethol.

## Rhaglenni trydydd parti

**Gan ddefnyddio'r pwerau a roddwyd i ni drwy Ddeddf y Loteri Genedlaethol 2006 rydym yn rhedeg y rhaglenni ariannu canlynol nad ydynt yn ymwneud â'r Loteri yn Lloegr.**

**Yn 2011/12 rheolwyd dwy brif raglen ar gyfer Swyddfa'r Cabinet:**

## Advice Services Fund

Mae Advice Services Fund yn cefnogi 296 o fudiadau yn y sector cyngor am ddim yr effeithiwyd arnynt gan ostyngiadau mewn gwariant cyhoeddus, gyda grantiau rhwng £40,000 a £70,000. Bydd y rhaglen yn galluogi mudiadau cynghori nid er elw i barhau i ddarparu gwasanaethau am ddim i bobl yn eu cymunedau yn Lloegr, gyda ffocws ar gyngor ar ddyledion, budd-daliadau lles, tai a chyflogaeth. Dyfarniadau gwerth cyfanswm o £17.2 miliwn erbyn mis Mawrth 2012.

## Transforming Local Infrastructure

Darparodd y Swyddfa Cymdeithas Sifil ariannu tymor byr ar gyfer mudiadau cymdeithas sifil rheng flaen trwy drawsnewid gwasanaeth isadeiledd lleol. Gwnaed dyfarniadau gwerth cyfanswm ychydig dros £30 miliwn i 74 o bartneriaethau o fudiadau isadeiledd lleol i resymoli a thrawsnewid y gwasanaethau cefnogi y maent yn eu darparu i fudiadau cymdeithas sifil rheng flaen.

# Rhaglenni'r Alban



Yn Yr Alban rydym wedi parhau i ariannu pobl, teuluoedd a chymunedau ar draws y wlad. Eleni gwelwyd newidiadau a heriau ar gyfer mudiadau, yn enwedig y rhai yn y trydydd sector, ac rydym wedi cynnig cyfleoedd ariannu sefydlog trwy ein rhaglenni sefydledig. Rydym hefyd wedi chwilio am ffyrdd newydd o fuddsoddi, gan ffocysu'n aml ar y lleoedd a'r bobl fwyaf anghenus. Rydym wedi rhoi llais y bobl sy'n elwa o arian Loteri wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Parhawyd i ddyfarnu grantiau trwy ein prif bortffolio Investing in Communities. Eleni dyfarnwyd 102 o grantiau gwerth mwy na £46 miliwn trwy ein tri phrif faes buddsoddi - Growing Community Assets, Life Transitions a Supporting 21st Century Life.

Agorodd ein rhaglen Community Spaces, sy'n dod â chymunedau lleol ynghyd i ddatblygu man neu le sy'n bwysig iddynt, eleni ac mae eisoes wedi dyfarnu 26 o grantiau gwerth £3.1 miliwn.

Yn dilyn blwyddyn o waith adeiladu gallu, dyfarnwyd grantiau gwerth £3.3 miliwn i 16 o fudiadau trwy Our Place, ein rhaglen £9 miliwn sy'n canolbwyntio ar bum cymdogaeth yn Yr Alban.

Gwaddolwyd Ymddiriedolaeth JESSICA (Yr Alban) (a elwir bellach yn Resilience Scotland) gyda grant o £15 miliwn. Bydd yr ymddiriedolaeth hon yn gweithio ochr yn ochr â'r brif Ymddiriedolaeth JESSICA a ariennir gan Ewrop i gynnig cefnogaeth ddatblygu, grantiau a benthyciadau ad-daladwy i grwpiau a arweinir gan gymunedau yn yr 13 cymuned drefol fwyaf difreintiedig yn Yr Alban. Am y tro cyntaf bydd gan y cymunedau hyn fudd ariannol, gan eu galluogi i gyfeirio adfywio eu hardaloedd lleol.

Yn dilyn ymgynghoriad gyda mudiadau allweddol, gwnaethom alw am brosiectau sy'n cefnogi menywod a phlant gyda phrofiad o gam-drin domestig i fedru symud ymlaen, ac roeddem yn falch o fedru dyfarnu 18 o grantiau gwerth cyfanswm o £6.5 miliwn.

Gwnaethom ymgynghori ar a galw am brosiectau partneriaeth sydd â'r nod o gefnogi rhieni sengl ag anghenion mwy cymhleth i gyrraedd sefyllfa well ar gyfer symud ymlaen tuag at gyflogaeth. Bwriadwn fuddsoddi o leiaf £7 miliwn yn y maes hwn yn ystod y flwyddyn i ddod.

Rydym wedi parhau i gydweithio â mudiadau partner i ddatblygu ail ymddiriedolaeth, yr Ymddiriedolaeth Life Changes y byddwn yn ei gwaddoli gyda £50 miliwn i gefnogi pobl ifanc sy'n gadael gofal, a phobl sydd â dementia, ynghyd â'u gofalwyr.

Parhaodd ariannu i gyrraedd cymunedau ym mhob cwr o'r Alban trwy ein tair rhaglen grantiau bach, Arian i Bawb, Investing in Ideas a 2014 Communities. Rhyngddynt mae'r rhaglenni hyn wedi gwneud 2,050 o ddyfarniadau gwerth mwy nag £11.5 miliwn.



## Arian i Bawb Yr Alban

Yn 2011/12, ariannwyd Arian i Bawb Yr Alban gan y Gronfa Loteri Fawr, Creative Scotland a sportscotland. Mae'n ariannu prosiectau rhwng £500 a £10,000 i ddod â phobl ynghyd, gwella eu hansawdd bywyd a'u hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau lleol.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2011/12:** (Cronfa Loteri Fawr yn unig): 1,327 gwerth £9.7 miliwn

## 2014 Communities

Lansiwyd 2014 Communities yn 2008. Nod y rhaglen yw mwyafu buddion ac etifeddiaeth profiad Glasgow o groesawu Gemau'r Gymanwlad 2014. Yn ystod ei drydedd flwyddyn, cynigiodd 2014 Communities grantiau hyd at £2,000 i sefydlu fudiadau chwaraeon a chymunedol bach. Trwy'r rhaglen, ein nod yw annog mwy o bobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol a chwaraeon.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2011/12:** 641gwerth £1.1 miliwn



## Investing in Ideas

Lansiwyd Investing in Ideas yn 2006. Mae'n dyfarnu grantiau rhwng £500 a £10,000 i brofi a datblygu syniadau a allai fynd yn brosiectau cyflawn yn y pen draw, neu arwain at wella cyflwyniad gwasanaethau. Rhoddir blaenoriaeth i fudiadau nad ydynt wedi cael eu hariannu drwy'r rhaglen yn flaenorol, i brosiectau datblygu bach, i ddatblygu prosiectau Growing Community Assets ac i brosiectau sy'n cynnwys y gymuned ehangach.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2011/12:** 82 gwerth £721,009.



## Investing in Communities

Mae Investing in Communities yn bortffolio o fuddsoddiad yn Yr Alban, a dyfernir grantiau'n bennaf drwy dri maes buddsoddi: Supporting 21st Century Life, Life Transitions a Growing Community Assets. Yn ogystal â'r grantiau hynny (wedi'u rhestru o dan bob maes buddsoddi isod) eleni rydym wedi ariannu pedwar prosiect hefyd sy'n torri ar draws ein meysydd buddsoddi, rhoi 13 dyfarniad o arian datblygu i fudiadau sy'n llunio ceisiadau, a chynnig 35 o grantiau ychwanegol (hyd at £50,000 fel arfer) i brosiectau presennol a allai ddangos eu bod yn cael eu heffeithio'n wael gan yr hinsawdd economaidd gyfredol.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2011/12:**
52 gwerth £4.4 miliwn.

## Growing Community Assets

Mae Growing Community Assets yn galluogi cymunedau i fod â mwy o reolaeth a dylanwad dros eu dyfodol eu hunain drwy berchen ar asedau. Yn gyffredinol asedau diriaethol megis tir neu adeiladau yw'r rhain, ond gallant hefyd gynnwys mathau eraill o ased, megis ynni. Mae'r broses o gaffael asedau'n annog pobl i gymryd rhan yn gynyddol yn eu cymunedau ac yn helpu i ddatblygu'r sgiliau, y gallu a'r hyder y mae eu hangen arnynt i gydweithio i ymdrin ag anghenion lleol.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2011/12:**
tri gwerth £2.5 miliwn.

## Life Transitions

Mae Life Transitions yn cefnogi unigolion trwy newidiadau allweddol yn eu bywydau. Gall cefnogaeth well ar y pwyntiau hyn helpu pobl i gynllunio trawsnewidiad cadarnhaol, megis gadael gofal, neu atal pobl rhag gwneud trawsnewidiadau annisgwyl, megis mynd i ddyled. Mae'n ariannu prosiectau sy'n canolbwyntio ar: helpu pobl ifanc fregus i newid yn gadarnhaol i oedolaeth, cefnogi pobl sy'n anweithgar yn economaidd i weithio, helpu pobl sy'n profi rhwystrau lluosog i symud ymlaen, megis problemau iechyd meddwl a digartrefedd, ac adeiladu cynhwysiad ariannol ar gyfer grwpiau difreintiedig.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2011/12:**
57 o grantiau gwerth £26.9 miliwn

## Supporting 21st Century Life

Mae Supporting 21st Century Life yn ariannu prosiectau sy'n adeiladu teuluoedd a chymunedau cryfach. Ei nod yw gwella ansawdd bywydau unigolion drwy helpu'r teuluoedd mwyaf anghenus i ddelio â heriau bywyd teuluol drwy gymryd camau i roi gwell cyfleoedd bywyd i blant. Mae'n ariannu prosiectau sy'n canolbwyntio ar: gefnogi plant sydd mewn perygl o unigedd, helpu pobl hŷn i aros yn annibynnol, cefnogi teuluoedd difreintiedig gyda heriau magu plant, cynyddu sgiliau ariannol mewn teuluoedd lle mae pryderon ariannol yn effeithio ar berthnasoedd, a helpu teuluoedd gyda chyfrifoldebau gofalu i ymdopi'n well.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2011/12:**
38 o grantiau gwerth £14.6 miliwn

# Community Spaces



Mae Community Spaces, a lansiwyd yn 2011, yn ariannu prosiectau sy'n helpu cymunedau i wella'u mannau a'u lleoedd lleol, gan ddarparu rhywle gwell i bobl ddod ynghyd i fod yn fwy iach ac yn fwy hapus. Dros y tair blynedd nesaf byddwn yn buddsoddi £12 miliwn gyda maint grant unigol cyfartalog o tua £100,000.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2011/12:** 27 grant datblygu gwerth £320,708 a 26 dyfarniad llawn gwerth £3.1 miliwn.




## Ymddiriedolaeth JESSICA (Yr Alban)

Yn rhan olaf 2010 cyhoeddodd y Gronfa Loteri Fawr ei bod yn sefydlu Ymddiriedolaeth JESSICA (Yr Alban) – ymddiriedolaeth annibynnol newydd gwerth £15 miliwn yn Yr Alban i gefnogi cymunedau trefol difreintiedig yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan ddirywiad economaidd difrifol, methiant yn y farchnad ac anfantais. Bydd Ymddiriedolaeth JESSICA (Yr Alban) yn alinio â Chronfa Ewropeaidd gyfochrog sy'n gweithredu yn yr un ardaloedd ac yn cydweddu â hi. Dyfarnodd y Gronfa Loteri Fawr grant datblygu i Sefydliad Cymunedol Yr Alban (gwerth £80,000) i ddatblygu cais manwl, cynllun busnes a llawlyfr rheoliadau i sefydlu'r ymddiriedolaeth, a chwblhawyd gwaith i ddatblygu cynlluniau o safon uchel eleni. Gwnaed y gwaddol i'r Ymddiriedolaeth ym mis Mawrth 2012.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2011/12:**
2 gwerth £15 miliwn.

### Our Place

Lansiwyd Our Place yn gynnar yn 2010 gyda chyllideb o £9 miliwn. Mae Our Place yn ffordd newydd o fuddsoddi arian Loteri yn seiliedig ar flaenoriaethau a bennir gan bobl leol. Mae ganddi ymagwedd strategol at gymdogaethau sydd â lefelau uchel o amddifadedd ac angen, ond hefyd lefelau uchel o weithgarwch gwirfoddol a syniadau ar gyfer y dyfodol. Ei nod yw helpu i adeiladu gallu lleol a chefnogi gweledigaethau cymunedau ar gyfer gwella eu cymdogaethau.

Mae pum contract cefnogi wedi helpu'r pum cymdogaeth Our Place i adnabod eu blaenoriaethau lleol a chyflwyno pecyn o geisiadau Cam un sy'n gweddu i ddatganiad gweledigaeth eu cymuned a chanlyniadau'r rhaglen Our Place. Gwerthfawrogir y gefnogaeth hon yn fawr gan gymunedau ac mae'n parhau i gael ei datblygu gan fod cymunedau bellach yn datblygu ceisiadau ac yn derbyn grantiau ar gyfer eu prosiectau llawn.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2011/12:**
16 gwerth £3.3miliwn.

### Yr Ymddiriedolaeth Life Changes

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi bod yn gweithio i greu Ymddiriedolaeth Life Changes newydd, gyda'r bwriad o'i gwaddoli gyda £50 miliwn i greu buddion ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal a phobl ifanc sydd â dementia ynghyd â'u gofalwyr.

Yn ystod y flwyddyn dyfarnwyd grant datblygu i bartneriaeth a arweiniwyd gan Long Term Conditions Alliance Scotland (gwerth £188,150) i ddatblygu cais manwl, cynllun busnes a llawlyfr rheoliadau i sefydlu'r ymddiriedolaeth.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2011/12:**
1 gwerth £188,150.

# Rhaglenni Gogledd Iwerddon



Yn dilyn lansiad ein portffolio o raglenni y llynedd, mae 2011/12 wedi gweld y rhaglenni hyn yn cyflwyno ystod helaeth o brosiectau i bobl hŷn, pobl iau, cefnogi lleoliadau cymunedol a mynd i'r afael â rhai o'r heriau a achosir gan gamddefnyddio alcohol.

Yn sgil cefnogaeth yn ymgynghoriad y Farn Fawr am raglen sy'n creu buddion ar gyfer teuluoedd, rydym wrthi'n ymgynghori ar raglen arfaethedig i gefnogi teuluoedd ar draws Gogledd Iwerddon. Agorodd yr ymgynghoriad ym mis Chwefror 2012 gydag arolwg ar-lein a digwyddiadau ymgynghori.

Wrth ymateb i alw uchel am wasanaethau a heb unrhyw welliant yn yr argoel economaidd, rydym wedi estyn y ddarpariaeth o wasanaethau cynghori. Mae hyn yn cael ei gyflwyno gan Advice Services Alliance Northern Ireland trwy ddarparu cefnogaeth ychwanegol ar gyfer gwasanaethau cyngor ar arian a dyled yng Ngogledd Iwerddon.

Trwy ein rhaglenni Reaching Out, ystod helaeth o grantiau ar gyfer prosiectau y gall pobl hŷn a phobl ifanc mewn perygl elwa ohonynt, gan gyflwyno dros £18 miliwn o ariannu yn ystod 2011/12.

## Reaching Out: Empowering Young People

Lansiwyd y rhaglen Reaching Out: Empowering Young People gwerth £20 miliwn yn 2010 i gefnogi rhai o'r bobl ifanc fwyaf bregus yng Ngogledd Iwerddon, gan gynnwys y rhai sydd wedi bod mewn gofal, ymwneud â throseddu neu gael eu gwahardd o addysg. Roedd grantiau ar gael ar gyfer prosiectau a fydd yn helpu pobl ifanc i drawsnewid eu bywydau trwy gynlluniau hyfforddiant a chyflogaeth, cefnogaeth un i un mewn argyfyngau, rhaglenni mentora a gwaith allgymorth ar y stryd.

Dyfarnwyd £349,495 i 'r National Children's Bureau ym mis Mai 2011 i gyflwyni datblygiad a chefnogaeth i ddeiliaid grantiau.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2011/12:**
29 o ddyfarniadau gwerth bron £12 miliwn.



## Arian i Bawb Gogledd Iwerddon

Mae Arian i Bawb Gogledd Iwerddon yn ariannu prosiectau rhwng £500 a £10,000 i wella cymunedau a bywydau'r bobl fwyaf anghenus trwy ariannu prosiectau sy'n cynnwys pobl yn eu cymunedau, dod â nhw ynghyd i fwynhau amrywiaeth eang o weithgareddau elusennol, cymunedol, addysgol, amgylcheddol ac iechyd.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2011/12:**
436 o ddyfarniadau gyda gwerth o £3.5 miliwn.

## Energy Efficient Venues

Bydd y rhaglen Energy Efficient Venues gwerth £5 miliwn yn helpu mudiadau gwirfoddol a chymunedol i wneud arbedion ar eu costau gwres a golau rheolaidd.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2011/12:**
222 o grantiau bach gwerth £1.7 miliwn ac 20 o grantiau mawr gwerth £816,756.




## Healthy Minds

Lansiwyd y rhaglen Healthy Minds Gogledd Iwerddon gwerth £0.9 miliwn ym mis Mawrth 2010 i gefnogi gweithgareddau i wella iechyd meddwl a lles pobl. Roedd grantiau rhwng £500 a £10,000 ar gael i grwpiau ar draws Gogledd Iwerddon i ariannu gweithgareddau i gefnogi: iechyd meddwl oedolion; pobl hŷn sy'n profi unigedd; teuluoedd yr effeithir arnynt gan alcohol; a phobl yr effeithir arnynt gan newidiadau a thrawsnewidiadau bywyd megis profedigaeth.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2011/12:** 48 o ddyfarniadau gwerth £420,000.

## Reaching Out: Connecting Older People

Lansiwyd y rhaglen Reaching Out: Connecting Older People gwerth £20 miliwn yn 2010 i gefnogi pobl hŷn unig a bregus sydd wedi cael eu heffeithio gan brofedigaeth, anabledd, salwch tymor hir neu sy'n byw mewn gofal preswyl neu dai lloches. Bydd prosiectau'n cefnogi pobl hŷn trwy weithgareddau sy'n gysylltiedig ag iechyd corfforol a meddwl, rhaglenni gwirfoddoli a phrosiectau a fydd yn dod â phobl hŷn sy'n profi unigedd a phobl ifanc ynghyd.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2011/12:** 17 o ddyfarniadau gyda gwerth o £6.3 miliwn.

## Impact of Alcohol

Mae'r rhaglen Impact of Alcohol gwerth £10 miliwn yn annog ymagwedd gymunedol at leihau'r niwed a achosir gan gamddefnyddio alcohol. Trwy'r rhaglen hon mae'r Gronfa Loteri Fawr am ariannu ystod o brosiectau a fydd yn lleihau'r niwed i unigolion, teuluoedd a chymunedau yr effeithir arnynt gan gamddefnyddio alcohol. Mae'r rhaglen yn cael ei chyflwyno trwy grantiau Gogledd Iwerddon gyfan gan fudiadau gwirfoddol a chymunedol, a thrwy grantiau portffolio a gyflwynir gan Ymddiriedolaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon, yn gweithio gyda mudiadau gwirfoddol a chymunedol.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2011/12:** 4 dyfarniad gwerth £5.7 miliwn.

# Rhaglenni Cymru



Yn ystod y flwyddyn 2011/12 lansiwyd rhaglenni newydd i ddosbarthu arian Loteri ac arian nad yw'n dod o'r Loteri, gan wireddu'r ymrwymiadau a wnaed yn ein hymgynghoriad cyhoeddus, 'Y Farn Fawr'. Ystyriwyd hefyd sut y dylem fuddsoddi ein cyllideb grant heb ei dyrannu hyd at 2015, gan gymryd i ystyriaeth yr hinsawdd economaidd ac ariannol lawer yn anoddach a'r pwysau y mae mudiadau a phobl mewn angen yn eu hwynebu, a chymerwyd camau i gefnogi mudiadau gwirfoddol ac i adeiladu gallu trwy gynnig contractau i ddarparu cefnogaeth â ffocws i'n hymgeiswyr a'n budd-ddeiliaid.

Cyflawnwyd cryn dipyn o waith yn ystod y flwyddyn hefyd i bennu'r hyn y mae ar gyrff isadeiledd SGCh ei angen i ymateb i'r pwysau ar y mudiadau SCGh y maent yn eu cefnogi. Yn dilyn trafodaethau helaeth gyda budd-ddeiliaid, a chyda thystiolaeth o ymchwil a gomisiynwyd gan y Gronfa Loteri Fawr, caffaelwyd grant yn uniongyrchol i gefnogi Cynghorau Gwirfoddol Cymunedol (CGC) a mudiadau gwirfoddolwyr i reoli'r cynnydd sylweddol yn y galw am wirfoddoli.



## Arian i Bawb (Cymru)

Mae Arian i Bawb (Cymru) yn darparu dyfarniadau rhwng £500 a £5,000 i brosiectau sy'n cefnogi gweithgareddau cymunedol, yn estyn mynediad a chyfranogiad, yn cynyddu sgiliau a chreadigrwydd ac yn gwella ansawdd bywydau.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2011/12:** 782 gwerth £3.0 miliwn.

## Awydd am Arloesi

Lansiwyd y rhaglen Awydd am Arloesi ym mis Ionawr 2011 a bydd yn rhedeg dros dair rownd flynyddol. Mae'r rhaglen yn dyfarnu grantiau rhwng £20,000 ac £1 miliwn i gefnogi prosiectau sy'n profi ymagweddau at fynd i'r afael â phroblemau ac anghenion cymdeithasol mewn ffyrdd na roddwyd cynnig arnynt yn flaenorol yn y DU. Gwnaed y dyfarniadau cyntaf ym mis Rhagfyr 2011.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2011/12:** 5 gwerth £1.4 miliwn.




## Pawb a'i Le

Mae'r rhaglen Pawb a'i Le'n dyfarnu grantiau rhwng £5,001 ac £1 miliwn i gefnogi gweithredu cydlynol gan fudiadau i wneud eu cymunedau'n lleoedd gwell i fyw, gan alluogi pobl i gydweithio dros gymunedau cryfach, cyfiawnder cymdeithasol a gwell amgylcheddau gwledig a threfol.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2011/12:** 86 gwerth £22.2 miliwn

### Lleisiau Lleol

Bydd ein rhaglen Lleisiau Lleol yn helpu cymunedau ledled Cymru i gael mwy o ddylanwad dros bolisïau a phenderfyniadau sy'n effeithio ar eu cymuned, gan adeiladu gallu dinasyddion i ymwneud a chynllunio a rhedeg gwasanaethau neu brosiectau sy'n ymateb i anghenion eu cymunedau ac yn creu buddion ar gyfer y gymuned. Lansiwyd y rhaglen ym mis Mehefin 2011, a bydd yn dyfarnu grantiau o hyd at £1.5 miliwn. At ei gilydd dyfarnwyd grantiau datblygu i 14 CGC, yn gweithio mewn partneriaeth ag ystod o fudiadau SGCh a statudol lleol ym mis Ionawr 2012 i gefnogi datblygu ceisiadau llawn a chynlluniau busnes prosiectau. Bydd dyfarniadau llawn yn cael eu gwneud ym mis Rhagfyr 2012.

**Nifer y grantiau datblygu a ddyfarnwyd yn 2011/12:** 14 gwerth £300,000.

### Cefnogaeth i'r isadeiledd SGCh

Yn ystod 2011/12 cyflawnwyd ymgynghoriadau ac ymchwil gynhwysfawr i'r ffyrdd gorau o gefnogi cyrff isadeiledd SGCh yng Nghymru. Adnabuwyd yr angen am gefnogi'r cynnydd cyflym yn y galw am wirfoddoli, a chaffaelwyd grant yn uniongyrchol i ddarparu ariannu ychwanegol ar gyfer cynghorau gwirfoddol sirol a mudiadau gwirfoddolwyr ar draws Cymru. Yn sgil hynny gwnaed dyfarniad o £1 miliwn i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

### Cefnogi ac adeiladu gallu ymgeiswyr a deiliaid grantiau

Rydym yn awyddus i ddefnyddio ein hariannu i gefnogi ein hymgeiswyr ac adeiladu gallu ymysg ein deiliaid grantiau. Yn dilyn prosesau caffael cystadleuol, gwnaed buddsoddiadau pellach yn ystod 2011/12 yn y gefnogaeth a ddarparwn i'n cwsmeriaid yng Nghymru.

Dyfarnwyd contract gwerth £799,000 i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i gefnogi ymgeiswyr wrth baratoi eu ceisiadau llawn i'r rhaglen Pawb a'i Le. Mae'r gefnogaeth a ddarperir yn cynnwys cefnogaeth un i un, gwefan, desg gymorth a digwyddiadau hyfforddi.

Dyfarnwyd contract gwerth £106,000 i Old Bell 3 i gefnogi ymgeiswyr sy'n cael eu gwahodd i gyflwyno ceisiadau Cam 2 i'r rhaglen Awydd am Arloesi.

Dyfarnwyd contract gwerth £296,000 i Old Bell 3 i ddarparu cefnogaeth i fudiadau werthuso eu hunain yn effeithiol. Bydd yr holl fudiadau y dyfernir grantiau mawr iddynt yn cael eu cyfeirio i'r gwasanaeth, a fydd yn darparu cymorthfeydd cefnogaeth a chyngor unigol, seminarau hyfforddi ar ddangosyddion a methodoleg ynghyd â llinell gymorth.

## Sgiliau Bywyd

### Rhaglenni a ariennir ar y cyd a rhaglenni nad ydynt yn ymwneud â'r Loteri

**Gan ddefnyddio'r pwerau a roddwyd i ni drwy Ddeddf y Loteri Genedlaethol 2006 rydym yn rheoli'r rhaglen ariannu canlynol a ariennir ar y cyd ac nad ydynt yn ymwneud â'r Loteri yng Nghymru.**

### Trosglwyddo Asedau Cymunedol

Lansiwyd y rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol gwerth £13 miliwn ym mis Hydref 2009 mewn partneriaeth â Llywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n darparu ariannu cyfalaf ar gyfer y rhaglen. Bydd y rhaglen yn creu cymunedau mwy cynaliadwy drwy gefnogi trosglwyddo asedau o gyrff sector cyhoeddus i fudiadau cymunedol mentrus sy'n cynnwys ac yn creu buddion ar gyfer y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Mae'n rhaid i brosiectau weithio i wella gwasanaethau neu gyfleusterau ar gyfer eu cymunedau, dangos bod eu cynigion yn gynaliadwy yn yr hir dymor ac yn ystyried effaith amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd eu gwaith. Mae'r rhaglen yn rhedeg dros dair rownd, gyda dyfarniadau yn ystod 2011/12 yn cael eu gwneud i ymgeiswyr i Rownd dau.

**Nifer y grantiau a ddyfarnwyd yn 2011/12:** 14 gwerth £4.1 miliwn



Ariennir ein rhaglen Sgiliau Bywyd ar y cyd gyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, gan ddarparu arian cyfatebol gan y Loteri ac Arian Strwythurol Ewropeaidd. Mae'r rhaglen yn galluogi'r rhai sy'n gadael gofal, gofalwyr a chyn-ofalwyr, teuluoedd sy'n anweithgar yn economaidd a phobl hŷn i ddatblygu eu sgiliau bywyd, cynyddu eu hyder a dychwelyd i, neu barhau i hygyrchu, addysg, dysgu, gwirfoddoli neu gyflogaeth.

**Nifer y contractau a ddyfarnwyd yn 2011/12:** Pedwar gwerth £2.4 miliwn gan ddilyn proses gaffael gystadleuol.

# Ariannu Cyfrifon Segur



Ym mis Tachwedd 2008 pasiwyd y Ddeddf Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Segur, gan alluogi banciau a chymdeithasau adeiladu i drosglwyddo arian a ddelir mewn cyfrifon segur i gronfa adennill ganolog ar gyfer ail-fuddsoddi yn y gymuned. Mae unrhyw arian a ryddheir gan y Gronfa Adennill yn trosglwyddo i'r Gronfa Loteri Fawr i gael ei ddosbarthu. Derbyniodd y Gronfa Adennill gymeradwyaeth gan FSA ym mis Mawrth 2011 a dechreuodd drosglwyddo arian i'r Gronfa Loteri Fawr.

Yn ystod 2011/12 dosbarthodd y Gronfa Loteri Fawr yr arian hwn trwy raglenni amrywiol ar draws y DU, yn unol â Chyfarwyddiadau Swyddfa'r Cabinet yn Lloegr a'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn y gwledydd eraill.

Fe'n cyfarwyddwyd i drosglwyddo'r holl arian a glustnodir ar gyfer Lloegr i gyfanwerthwyr buddsoddiad cymdeithasol newydd, Big Society Capital. Yn ystod y cam sefydlu, fe'n cyfarwyddwyd gan Swyddfa'r Cabinet i ddosbarthu hyd at £8 miliwn trwy Bwyllgor Buddsoddi i gefnogi rhai buddsoddiadau cymdeithasol cynnar. Yn ystod 2011/12 cytunwyd ar saith dyfarniad gwerth cyfanswm o £7.1 miliwn y maent oll wedi'u trosglwyddo bellach i Big Society Capital i'w rheoli.

Yn Yr Alban, ymgynghorwyd ar ffocws ar gyfer ariannu gan gyfrifon banc segur, a lansiwyd Young Start, gyda chyllideb o £89.9 miliwn, gan greu cyfleoedd newydd ar gyfer plant a phobl ifanc.

Yng Nghymru, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a chymeradwyaeth gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, mae gweinidogion Cymru wedi'n cyfarwyddo ni i gefnogi dwy flaenoriaeth ariannu: gweithredu i ymdrin ag achosion a chanlyniadau newid yn yr hinsawdd a chefnogi pobl ifanc i gyflawni eu potensial llawn. Lansiwyd y rhaglen Camau Cynaliadwy, a fydd yn annog gweithredu cymunedol i leihau allyriadau carbon ac addasu i effaith newid yn yr hinsawdd trwy ddarparu hyfforddiant a sgiliau angenrheidiol ar gyfer grwpiau cymunedol ym mis Medi 2011. Dyfarnodd y rhaglen grant unigol o £620,000 yn 2011/12.

Yng Ngogledd Iwerddon mae'r Adran Cyllid a Phersonél yn arwain bennu blaenoriaethau ar gyfer arian Cyfrifon Segur.

# Effaith ein gwaith



## Ein hymrwymiad i effaith

Wrth gyflwyno ein cenhadaeth, mae'r Gronfa Loteri Fawr eisiau sicrhau bod ein hariannu'n cyflawni effaith gadarnhaol sylweddol ar gyfer pobl mewn angen ac ar gyfer cymunedau ar draws y DU ac yn rhyngwladol. Rydym yn ymrwymedig i ddeall, mesur a chyfathrebu'r effaith honno. Mae ein hymagwedd seiliedig ar ganlyniadau'n darparu strwythur trwy'r broses ymgeisio i fudiadau gynllunio ar gyfer effaith a phennu ffyrdd priodol o fesur hynny. Trwy fonitro blynyddol, mae prosiectau'n adrodd ar eu cynnydd tuag at gyflawni eu canlyniadau, ac ar ddiwedd y grant asesir mesur llwyddiant terfynol,

Rydym yn annog gwerthuso - p'un a yw'n hunanwerthuso ar gyfer mudiadau bach neu werthusiadau mwy cadarn a gomisiynir ar gyfer deiliaid grantiau mawr, ac rydym yn comisiynu gwerthusiadau sylweddol o'n rhaglenni mwyaf a'r rhai a allai gael y dylanwad mwyaf. Rydym hefyd yn rhoi gwerth mawr ar ddysgu - o fewn prosiectau, rhwng prosiectau ac yn gyffredinol o fewn mudiad y Gronfa Loteri Fawr, gan gredu mai dim ond trwy ddysgu ac addasu y gellir gwella perfformiad. Mae rhaglen o ymchwil, gwerthuso a dysgu'n cefnogi cyflwyniad ein Fframwaith Strategol ac yn adlewyrchu'r gwerth a roddwn ar ddefnyddio gwybodaeth, dysgu a thystiolaeth.

## Deall ein heffaith

Fel ariannwr deallus, mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ceisio sicrhau bod ein dewisiadau ariannu a'n hymddygiadau'n galluogi'r mudiadau a ariannwn i gyflawni'r effaith orau bosib ar gyfer cymunedau a phobl anghenus.

Diffiniwn effaith fel unrhyw effaith sy'n deillio o'n gwaith. Mae hyn yn cynnwys unrhyw ganlyniadau cyflym yn ogystal ag effeithiau dros y tymor hwy; mae'n cynnwys patrymau dylanwad ehangach yn ogystal â'r gwahaniaeth a ddaw yn sgil ein rhaglenni ariannu. Mae ehangder ein diffiniad yn tanlinellu'r ffaith bod 'effaith' yn amrywiol, na ellir ei darogan a'i bod yn aml yn anodd i'w hadnabod a'i mesur.

Amlygwyd natur gyffredinol ein heffaith yn adroddiad Canolfan Ymchwil y Trydydd Sector ar ein heffaith ar y trydydd sector, 'Wherever there is money there is influence'. Mae maint a graddfa ein hariannu'n golygu y gall y ffordd a weithiwn gyda phartneriaid, deiliaid grantiau a budd-ddeiliaid fod yr un mor ddylanwadol â'r gweithgareddau a'r prosiectau a ariannwn yn uniongyrchol.



O ganlyniad i ganolbwyntio o'r newydd ar effaith, rydym yn datblygu ymagweddau at ddeall, mesur a chyfathrebu effaith ar nifer o lefelau:


## 1. Lefel y prosiect

Mae ein hariannu'n ceisio gwneud gwahaniaeth i bobl a chymunedau trwy ganlyniadau a gyflwynir gan brosiectau unigol. Mae llawer o brosiectau wedi llwyddo i gyflawni effaith ehangach o ganlyniad i'w gwaith, megis cyflwyno a hyrwyddo syniadau a dulliau gweithio newydd.

- Mae ariannu a ddyfarnwyd i Gyngor ar Bopeth Gogledd Norfolk trwy Advice Plus wedi gwneud gwahaniaethau sylweddol i unigolion. Er enghraifft, roedd cwpwl yn eu 80au yn byw mewn cartref symudol ar yr arfordir ac yn dioddef gyda dyledion lluosog a salwch pan wnaethant gysylltu'n gyntaf â'r prosiect. Erbyn hyn maen nhw wedi llwyddo i sicrhau llety lloches ar ffurf fflat mewn tref gerllaw ac wedi llwyddo i dalu'r rhan fwyaf o'u dyledion trwy gyd-drafodaeth. Fel y gwnaethant ddweud, 'Mae'n sut ryddhad. Ni allwn fod wedi ymdopi heb eu cefnogaeth nhw. Mae fel rhywun yn dod ac yn codi'r baich oddi ar eich ysgwyddau ac yn eich helpu i weld yn gliriach'.
- Mae Wiltshire Wheels to Work wedi helpu 141 o bobl ifanc i ddod o hyd i swyddi neu hyfforddiant. Amcangyfrifwyd hefyd bod y cyflawniad hwn hefyd wedi arbed tua hanner miliwn o bunnoedd mewn budd-daliadau ar gyfer y Llywodraeth.
- I ddechrau roedd North West Taxi Proprietors yn cynnal prosiect i wella iechyd a lles gyrwyr tacsis yn Derry a'r cylch. Ond sylweddolodd y gyrwyr y gallent wneud gwahaniaeth ehangach yn y gymuned, yn fwyaf arwyddocaol, efallai, trwy gael eu hyfforddi i helpu atal pobl rhag lladd eu hunain ar Bont Foyle. Roedd ymchwil wedi dangos y bydd llawer o 'neidwyr' yn newid eu meddwl os cynigir llinell fywyd iddynt. Erbyn hyn gall gyrwyr tacsis wneud hynny'n union - cadw dyfeisiau arnofio y gellir eu taflu i mewn i'r Foyle. Yn ogystal â chynnig budd cymunedol ehangach, mae wedi cynyddu lles meddyliol y gyrwyr eu hunain.
- Mae Pathways through Participation, a ariannwyd trwy ein rhaglen Grantiau Ymchwil, wedi hyrwyddo ystod eang o ganfyddiadau ynglŷn â sut i gynnwys pobl fel dinasyddion gweithredol a chynnal eu cyfranogiad. Mae wedi symbylu diddordeb a thrafodaeth o fewn y DU a thramor.

Fel rhan o'n hymagwedd at ddeall effaith rydym yn adnabod sut y gellir clystyru'r miloedd o brosiectau a ariannwn yn ôl y mathau o ganlyniadau y maent yn gweithio i'w cyflawni. Mae hyn yn cael ei wneud trwy godio canlyniadau pob prosiect yn erbyn fframwaith o fathau o ganlyniadau, ac asesu gwerth yr ariannu yn erbyn pob math o ganlyniad:

**Dadansoddiad canrannol o werth dyfarniadau fesul canlyniadau'r Gronfa Loteri Fawr**





## 2. Lefel y rhaglen

Wrth ddatblygu ein rhaglenni ariannu adnabyddwn ganlyniadau rydym am i'r rhaglen yn gyffredinol eu cyflawni. Ariannwn ystod o brosiectau y mae eu cyfraniadau unigol ar y cyd yn cefnogi'r canlyniadau hynny. Trwy gefnogi grwpiau a ariennir, prosiectau rhwydweithio, gwerthuso ein gwaith a rhannu dysgu am y rhaglen, gallwn gryfhau canlyniadau'r rhaglen a chynyddu effaith gadarnhaol ehangach.

- Mae Growing Community Assets wedi cefnogi gwasanaethau a chyfleusterau sydd bellach yn cael eu defnyddio gan tua 32,000 o bobl ledled Yr Alban, y rhan fwyaf ohonynt yn rheolaidd. Mae'r rhaglen wedi creu neu ddiogelu 269 o swyddi amser llawn a 206 o swyddi rhan-amser, ac wedi helpu 17 o fusnesau newydd i sefydlu eu hunain hyd yn hyn.
- Mae'r rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol yng Nghymru'n dangos sut y gall arianwyr gwahanol gydweithio i ddarparu rhaglen gydlynol – yn yr achos hwn, yn cynnig cefnogaeth gyfalaf a refeniw i brosiectau ac felly yn adlewyrchu arfer gorau yn y maes hwn.
- Ers iddi ddechrau, mae Reaching Communities Gogledd Iwerddon wedi cynnig contract datblygu cynhwysfawr i ddeiliaid grantiau. Mae 87 y cant o ddeiliaid grantiau'n adrodd bod ymgysylltu â'r prosiect wedi'u helpu i gyflwyno eu prosiect yn fwy effeithiol, ac mae 73 y cant yn teimlo ei bod wedi'u helpu i gefnogi eu datblygiad trefniadaethol yn gyffredinol. Mae ymagwedd y prosiect yn fodel ar gyfer efelychu o fewn y Gronfa Loteri Fawr – ac mae hefyd yn denu diddordeb ehangach ymysg arianwyr ac mewn ymchwil academaidd.
- Mae llawer o'n rhaglenni â thema, os nad y rhan fwyaf ohonynt, ar draws y DU yn trefnu neu'n annog digwyddiadau rhwydweithio ar gyfer yr holl brosiectau rydym wedi'u hariannu i rannu llwyddiant ac atebion i heriau.

  Mae'r rhaglen Lles yn Lloegr wedi mabwysiadu ystod helaeth o ymagweddau at wneud hyn ar draws 17 portffolio ariannu gwahanol, gan gynnig cynadleddau, adroddiadau, cefnogaeth ar hunanwerthuso a rhwydweithio dros y we.
- Mae gwerthuso a dysgu yn sgil ein Gronfa Pobl Ifanc wedi cael ystod eang o effeithiau. Yn ogystal â chynhyrchu arweiniad poblogaidd iawn mewn nifer o feysydd allweddol wrth ymateb i anghenion a godwyd gan brosiectau sy'n derbyn ariannu, pwysleisiodd eto bwysigrwydd a gwerth ymgysylltu â phobl ifanc wrth ddylunio gwasanaethau a phennu eu ffurf. Fel y nododd un cyfranogwr, 'Rwyf wedi dysgu sut gymaint: sgiliau trosglwyddadwy, sgiliau arweinyddiaeth. Nid yw llawer o bobl yn cael y cyfle i ddweud eu dweud a gweld cynnydd prosiect fel hyn'.
- Lansiwyd y rhaglen Big Local gwerth £200,000, a redwyd gan Local Trust. Cododd llawer o ddyluniad ac impetws y rhaglen o lwyddiannau amlwg yr ymagweddau a arloeswyd yn yr Ymddiriedolaeth Cyfran Deg, sydd wedi dangos pa mor effeithiol y gall rhaglenni cynnwys y cyhoedd fod yn ymarferol, yn ogystal ag amlygu atebion i rai o'r rhwystrau i ddatganoli pŵer a chyfrifoldeb i gymunedau yn y fath ffordd.
- Ymysg canlyniadau cadarnhaol eraill, mae gwerthusiad o'n rhaglen Lles wedi canfod bod 10 y cant yn llai o bobl dros 65 oed a 5 y cant yn llai o bobl rhwng 16 a 64 oed wedi adrodd am symptomau iselder sylweddol ar ôl cymryd rhan yn ein prosiectau.

## 3. Lefel Strategol

Rydym yn chwarae rôl bwysig wrth helpu i lunio ymagweddau at gefnogaeth ar gyfer y sector gwirfoddol a chymunedol, trwy bwysigrwydd cymharol maint ein buddsoddiad a thrwy gymryd rhan mewn rhwydweithiau a thrafodaethau gydag arianwyr eraill, y rhai sy'n llunio polisi a'r llywodraeth, gan fynd yn aml y tu hwnt i'r maes ariannu ac i feysydd polisi cymdeithasol eraill.

- Roedd 'Wherever there is money there is influence' yn cynnwys arolwg mawr o fudiadau SGCh ar draws y DU. Teimlodd ymatebwyr fod y Gronfa Loteri Fawr wedi cael effaith gadarnhaol ehangach ar arfer y sector, yn fwyaf amlwg mewn meysydd megis adennill costau llawn a symud tuag at ganolbwyntio ar ganlyniadau. O ran eu gwaith eu hunain gyda ni, teimlodd mwyafrif mawr ein bod wedi helpu i wella'u sgiliau llunio ceisiadau a chodi arian. Roedd hyn yn arbennig o wir gyda mudiadau llai (gydag 81 y cant yn cytuno) ac yn cael ei adrodd gan nifer mawr o ymgeiswyr aflwyddiannus hyd yn oed (34 y cant).
- Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn cymryd rôl weithredol mewn rhwydweithiau arianwyr ar draws y DU, gan gynnwys y Fforwm Ariannu Deallus a Fforwm Arianwyr Yr Alban. Rydym wedi rhannu ein dysgu a helpu i noddi cyhoeddiadau ac arweiniad i gefnogi arianwyr yn ehangach. Cefnogodd y Gronfa Loteri Fawr ac arianwyr eraill lansio gwefan newydd (www.fundernetwork.org.uk). O fewn chwe mis roedd dros 300 o ddefnyddwyr o 150 o ymddiriedolaethau a mudiadau'n defnyddio'r wefan i chwilio am wybodaeth, dysgu gan gymheiriaid, a rhannu'r hyn y maent yn ei wybod.
- Yn yr un modd roeddem yn ariannwr mawr i Borth Gwybodaeth Canolfan Ymchwil y Trydydd Sector, sy'n darparu mynediad agored i ymchwil a gwybodaeth ar y sectorau gwirfoddol, cymunedol a menter gymdeithasol. Yn ystod pedwar mis cyntaf y Porth cafwyd 2,115 o ymweliadau a gwnaed 6000 o chwiliadau, gyda nifer cyfartalog o 2.8 chwiliad fesul ymweliad. O'r 575 o bobl a gofrestrodd eu manylion, mae 49 y cant yn SGCh, mae 28 y cant yn academyddion neu ymchwilwyr ac mae 23 y cant yn llywodraeth neu 'arall'
- Mae'r gwerthusiad o'n rhaglen Lles wedi datblygu dangosyddion cadarn i fesur pa mor effeithiol y bu ein hariannu o ran gwella lles cyfranogwyr. Yn ogystal â chadarnhau llwyddiannau sylweddol wrth gyflawni'r hyn y mae'r rhaglen wedi'i sefydlu i'w wneud, mae'r ymagwedd hon yn dylanwadu ar y ffordd y mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn datblygu ymagweddau at ddiffinio a mesur lles.
- Wrth ddatblygu ein rhaglen Dyfodol Gwell, gwnaethom ymgynghori a gweithio'n agos dros amser gyda budd-ddeiliaid ar draws y DU. O ganlyniad i hyn bydd ein rhaglen anghenion cymhleth sydd ar ddod yn Lloegr yn gweddu i'r ymagwedd hon. Rydym hefyd wedi gweithio'n agos i gyfeirio datblygiad rhaglen Teuluoedd Cythryblus newydd Llywodraeth y DU, gan amlygu'n benodol yr angen am fabwysiadu ymagwedd gyfannol at y gwerthusiad a fydd yn cydweddu â'n hymagwedd ni, ac felly yn cynhyrchu mwy o dystiolaeth gadarn am beth sy'n gweithio yn y maes hwn.

### Beth nesaf?

Mae gan y Gronfa Loteri Fawr rôl bwysig i'w chwarae wrth gynyddu ymwybyddiaeth a hyrwyddo trafodaeth o effaith a sut i'w mesur. Gwnawn hyn trwy'r sawl a ariannwn, trwy fodelu arfer da ein hunain a thrwy gyfrannu at drafodaeth helaeth ar draws y sector gwirfoddol a'r tu hwnt. Eleni rydym wedi defnyddio ein hariannu yn y DU i gefnogi rhai mentrau strategol i helpu i sicrhau newidiadau mewn systemau. Mae'r rhain yn cynnwys 'Inspiring Impact' a fydd yn adeiladu gallu mudiadau sector gwirfoddol i fesur effaith yn fwy effeithiol; a'r Alliance for Useful Evidence, a fydd yn gwella ansawdd a darpariaeth tystiolaeth ar yr un llaw a'r arfer o ddefnyddio tystiolaeth mewn penderfyniadau am bolisi cymdeithasol ar y llaw arall.




Trwy ei rhwydwaith o filoedd o ddeiliaid grantiau, rhai bach a rhai mawr, mae'r Gronfa Loteri Fawr mewn sefyllfa dda i gyfrannu at wella arfer sy'n gysylltiedig ag effaith ac felly yn y pen draw, i gynyddu'r effaith honno ar gyfer pobl mewn angen. Mae ein Fframwaith Strategol a chyfarwyddiadau polisi newydd yn tanlinellu'r ymrwymiad hwn.

## Ychwanegedd

Yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol 2006 mae'n ofynnol i holl ddosbarthwyr y Loteri adrodd am eu polisïau a'u harferion ychwanegedd. Mae ychwanegedd yn egwyddor bwysig o'n hariannu. Defnyddiwn y diffiniad a ganlyn:

"Mae arian gan y Loteri'n wahanol i arian gan y Llywodraeth ac yn ychwanegu gwerth. Er nad yw'n disodli gwariant y Trysorlys, lle bo'n briodol mae'n ategu polisïau ac ariannu'r Llywodraeth a rhaglenni, polisïau ac ariannu eraill."

Roedd yr holl ddyfarniadau a wnaed yn 2011/12 yn cydweddu â'r diffiniad hwn o ychwanegedd.

Mewn rhai amgylchiadau, gallai fod angen i swyddogion ariannu sy'n asesu cais farnu a yw prosiect yn 'ychwanegol' neu beidio. Mae canllawiau clir, gan gynnwys tri phrawf, wedi'u datblygu i sicrhau na fydd arian y Loteri'n cymorthdalu nac yn disodli ariannu statudol ar gyfer gwasanaeth nac yn dyblygu cyfrifoldebau statudol.

Dyma'r tri phrawf y mae gofyn i swyddogion ariannu eu cymhwyso:

**i.** Ydych chi'n hyderus NA FYDD y grant y gofynnir amdano'n cymorthdalu nac yn darparu rhan o'r costau ar gyfer gwasanaeth a ddarperir ar sail contract ar gyfer corff statudol?

**ii.** Ydych chi'n hyderus NA FWRIEDIR i'r grant ddisodli ariannu gan awdurdod statudol sydd wedi cael ei ddiddymu neu mewn perygl o gael ei ddiddymu?

**iii.** Ydych chi'n hyderus NAD YW'R prosiect yn dyblygu gwasanaethau y mae corff statudol yn eu darparu ar gyfer y gymuned darged ar hyn o bryd er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau statudol?

Rydym yn sicrhau bod y canllawiau hyn yn cael eu cymhwyso'n gyson ac yn deg.

Mae Cyfarwyddiadau Polisi newydd wedi'u cyhoeddi ar gyfer y Gronfa Loteri Fawr a byddant yn dod i rym mewn Lloegr ac yn effeithio ar ein gwariant Lloegr a DU gyfan o'r flwyddyn ariannol 2012/13. Mae'r rhain yn cynnwys y ddarpariaeth ganlynol ar ychwanegedd, y byddwn yn ei chymryd i ystyriaeth:

"YCHWANEGEDD a CHYDWEDDU – dylai datblygu rhaglenni ac ariannu prosiectau gydweddu ag arianwyr a phartïon eraill sy'n gweithio tuag at gyrchnodau'r Gronfa, ychwanegu gwerth atynt a bod yn unigryw iddynt."

Mae ein ffocws ar gyfer y polisi hwn mewn perthynas ag ariannu gan y Llywodraeth yn parhau. Ni allwn fod mewn sefyllfa lle mae disgwyl i arian y Loteri fodloni dyletswyddau cyhoeddus statudol a chyflenwi gostyngiadau mewn ariannu'r Trysorlys.

# Ein perfformiad ariannol

Nodir ein canlyniadau ariannol ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2012 yn y cyfrifon blynyddol sy'n dechrau ar dudalen 92. Paratowyd y cyfrifon hyn ar ffurf a bennwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon ac maent yn cydymffurfio â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) sy'n ymgorffori'n gyffredinol y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

## Incwm o'r Loteri Genedlaethol

Yn ystod 2011/12 derbyniwyd £771 miliwn (2010/11 £773 miliwn) mewn incwm uniongyrchol o werthu tocynnau'r Loteri Genedlaethol

Ym mis Mawrth 2007 cytunodd Senedd y DU y dylid trosglwyddo £638 miliwn i Gronfa Dosbarthu Loteri Gemau'r Olympaidd (OLDF) rhwng Chwefror 2009 ac Awst 2012. Yn ystod 2011/12 gwnaed trosglwyddiadau gwerth cyfanswm o £172 miliwn.

Tabl o drosglwyddiadau i Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Olympaidd:

| Blwyddyn Ariannol | £ m |
|---|---|
| 2008/09 | 43 |
| 2009/10 | 172 |
| 2010/11 | 172 |
| 2011/12 | 172 |
| 2012/13 | 80 |
| 2013/14 | 0 |

Yn ystod 2010 cymeradwyodd Senedd y DU gynigion yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, Cyfryngau a Chwaraeon i newid ein cyfran o incwm y Loteri Genedlaethol. Gostyngodd ein cyfran o 50 y cant i 46 y cant o 1 Ebrill 2011 a gostyngodd eto i 40 y cant o 1 Ebrill 2012.

Mae'r gostyngiad hwn yn ein cyfran o incwm y Loteri wedi'i osod yn erbyn y cynnydd sylweddol mewn tocynnau Loteri Genedlaethol a werthwyd dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae incwm a gynhyrchir gan y Loteri Genedlaethol yn cael ei gadw a'i fuddsoddi ar ein rhan ni yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (NLDF), gan gynhyrchu £5.6 miliwn pellach [2010/11 £8.5 miliwn) mewn incwm buddsoddi yn ystod y flwyddyn.

Nid oes gan ein Bwrdd unrhyw gyfrifoldeb dros fuddsoddi balansau NLDF; erys y stiwardiaeth gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon. Darperir manylion yn nodyn 13 y cyfrifon blynyddol. Mae nodyn 20 y cyfrifon blynyddol yn nodi pam mae'r Bwrdd yn ystyried nad ydym yn agored i risgiau sylweddol o ran cyfraddau llog.

## Ariannu achosion da

Mae ymrwymiadau newydd gwerth cyfanswm o £760 miliwn (2010/11 £291 miliwn) wedi'u cofnodi yn ein cyfrifon; dyma werth y dyfarniadau a dderbyniwyd yn ffurfiol gan dderbynyddion grantiau, ac mae'n cynnwys rhai dyfarniadau a wnaed yn 2010/11. Cafodd gwerth y dyfarniadau ei ostwng yn 2010/11, a'i gynyddu yn 2011/12 o ganlyniad i oedi gyda chwblhad cyfreithiol y dyfarniad mawr iawn unigol o £200 miliwn i'r Big Local Trust, sy'n cael ei drafod ar dudalen 31. Nid yw gwerth £60 miliwn (2010/11 £55 miliwn) o ddyfarniadau ychwanegol wedi'u cofnodi fel ymrwymiadau eto gan ein bod yn dal i aros i dderbynnydd y grant eu derbyn.

Yn ystod 2011/12 gwnaed taliadau o £668 miliwn (2010/11 £508 miliwn) i ddeiliaid grantiau.

## Sut rydym yn penderfynu faint i'w wario

Ein polisi blaenorol oedd gwneud dyfarniadau hyd at yr uchafswm bob blwyddyn, yn amodol ar beidio â chymryd risgiau gormodol. Pennwyd y polisi hwn yng nghyd-destun yr angen am ostwng ein balansau NLDF, yr ystyriwyd yn hanesyddol eu bod yn eithafol. Er ei fod yn llwyddiannus iawn wrth ostwng y gyllideb, arweiniodd y balans at gryn dipyn o ansefydlogrwydd yn ein cyllidebau grant, yn enwedig pan newidiodd bolisïau allanol megis trosglwyddo arian i'r Gemau Olympaidd.

O ganlyniad i hyn cymeradwyodd y Bwrdd Strategaeth Ariannu Grantiau yn ystod y flwyddyn, yn dilyn adolygiad. Dyluniwyd y strategaeth i ymateb i'r lefel ostyngol o falansau NLDF a ddelir bellach gan y Gronfa Loteri Fawr, ac i adlewyrchu'r lefel uchaf o ddatganoli i bwyllgorau gwlad sy'n bodoli bellach. Amcan allweddol y strategaeth yw cynhyrchu patrwm mwy sefydlog o ariannu ar draws y blynyddoedd. Mae sefydlogrwydd cynyddol yn ein galluogi i ddarparu lefel resymol ragweladwy o ariannu, gan gynnig gwell sicrwydd i'r mudiadau a ariannwn a chan sicrhau bod ansawdd y prosiectau a ariennir yn gyson.


Byddwn yn parhau i wneud yr uchafswm dyfarniadau posib dros bob cyfnod o bum mlynedd. Nid yw ein hagwedd at risg, sydd wedi'i hamlinellu isod, wedi newid.

Nid yw'r strategaeth yn golygu y byddwn yn gwneud dyfarniadau neu daliadau o'r un gwerth yn union bob blwyddyn. Ei nod yw cynhyrchu lefel weddol sefydlog o fudd yn sgil ein hariannu bob blwyddyn. Mewn rhai blynyddoedd gall hyn olygu ein bod yn gwneud rhai dyfarniadau a thaliadau mwy sy'n creu buddion dros nifer o flynyddoedd. Mae Big Local Trust yn enghraifft dda o hyn: mae dyfarniad unigol o £200 miliwn wedi'i gynnwys eleni, ond bydd yr Ymddiriedolaeth yn gwneud taliadau i'r mudiadau buddiolwyr terfynol dros sawl blwyddyn yn y dyfodol.


Mae llawer o'n grantiau'n talu allan am nifer o flynyddoedd ar ôl iddynt gael eu dyfarnu. Mae hyn yn adlewyrchu ein polisi o gefnogi prosiectau sy'n rhedeg ar gyfer hyd at bum mlynedd, ac ariannu prosiectau cyfalaf. Mae'r ffaith y bydd llawer o'n grantiau'n cael eu talu allan nifer o flynyddoedd ar ôl ymrwymo iddynt yn golygu y gallwn wneud ymrwymiadau ar sail arian nad ydym wedi'i dderbyn eto. Ar 31 Mawrth 2012, roedd gennym £980 miliwn (2010/11 £898 miliwn) o ymrwymiadau yn ddyledus, ond dim ond £399 miliwn (2010/11 £523 miliwn) yn unig i'w ddefnyddio i'w talu: ymrwymiadau dros ben o £581 miliwn (2010/11 £424 miliwn), sy'n gyfwerth â thua deng mis o incwm yn y dyfodol yn seiliedig ar ein rhagamcaniadau cyfredol.

## Ariannu ein hymrwymiadau sy'n weddill

Ariannu ein hymrwymiadau sy'n weddill



Rhagamcaniad achos canolog




Mae ein hincwm yn y dyfodol yn ansicr - nid oes neb yn gwybod faint o incwm a fydd o'r Loteri.  Felly mae'n rhaid i ni fod yn ochelgar. Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn cynhyrchu rhagamcaniadau o incwm y dyfodol sy'n seiliedig ar y dybiaeth y bydd gwerthiannau tocynnau'r Loteri aros yn fras ar eu lefel bresennol yn y dyfodol – yr 'achos canolog' yw'r enw rydym yn ei roi i hyn, ac rydym yn ei ddefnyddio ar gyfer cynllunio gwariant tebygol y dyfodol dros yr hir dymor.

Mae ein cynllunio ariannol yn ystyried yr arian sy'n cael ei drosglwyddo i'r Gemau Olympaidd, effaith gemau'r Loteri Olympaidd a'r gostyngiad cynyddol yn ein cyfran incwm.

Mae'r graff uchod yn dangos sut mae disgwyl i bethau weithio allan ar sail yr achos canolog. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys ein rhagamcaniadau cyfredol o'n gwariant cynlluniedig ar raglenni ar gyfer 2012 - 2015.


Ni allwn wneud ymrwymiadau grant go iawn ar sail yr achos canolog. Petaem yn gwneud hynny ac os cafwyd gostyngiad yn incwm y Loteri, mae'n bosib na fyddai modd i ni fodloni ein holl ymrwymiadau. Felly rydym yn cynhyrchu rhagamcaniad mwy gochelgar o'r enw 'achos 5 y cant' (gan ein bod yn amcangyfrif bod cyfle 5 y cant y byddai'n digwydd mewn gwirionedd). Dengys hanes y Loteri nad ydym yn bod yn rhy ochelgar.

Er bod gwerthiannau tocynnau Loteri wedi tyfu'n gryf yn ystod y blynyddoedd diwethaf, cafwyd gostyngiad o 17 y cant mewn gwerthiannau tocynnau gwirioneddol rhwng 1998 a 2003. Mae'n amlwg bod gostyngiad o tua 5 y cant yn ein rhagamcaniad yn sefyllfa bosib.

Rydym yn bwriadu gwneud ymrwymiadau fel na fyddai gennym unrhyw falans o ran yr achos 5 y cant ar y pwynt isaf yn y dyfodol. Mae blaengynllunio nifer o flynyddoedd ymlaen llaw yn caniatáu i ni wneud unrhyw newidiadau i'n rhaglenni gyda chyn lleied o aflonyddwch â phosib os dengys ein rhagamcaniadau efallai na fyddwn yn bodloni ymrwymiadau yn y dyfodol.

Dangosir effaith cynlluniau cyfredol ar ein balansau NLDF gan ddefnyddio'r achos 5 y cant yn y graff a ganlyn.

Rhagamcaniad Achos 5%




## Balansau NLDF

Ar 31 Mawrth 2012 mae ein balans NLDF yn £399 miliwn (2010/11 £523 miliwn). Mae hyn yn agos iawn i'r rhagamcaniad o £387 miliwn a gyhoeddwyd yn ein hadroddiad blynyddol diwethaf.

Ein strategaeth yw gwneud ymrwymiadau grant o'r gwerth uchaf posib a allwn, wedi'u cyfartalu dros gyfnod o bum mlynedd. Mae'n anochel y bydd hyn yn golygu bod y balans NLDF mor isel ag sy'n bwyllog. Bydd y lefel yn amrywio'n unol â strwythur ein rhaglenni ar unrhyw adeg.


Fel y mae'r siart ar dudalen 58 yn ei ddangos, mae ein balans NLDF wedi gostwng 65 y cant ers 2004.

Mae cynnydd annisgwyl yn Incwm y Loteri, fel yr hyn sydd wedi digwydd yn ddiweddar iawn, yn arwain yn anochel at falansau uwch am gyfnod. Er ein bod yn adolygu'r sefyllfa'n rheolaidd, ac yn cynyddu ein cyllidebau grant pryd bynnag y ceir cynnydd yn y rhagamcaniad incwm, mae'n cymryd peth amser i ddyfarniadau cynyddol o ansawdd a gwerth da gael eu gwneud ac i dderbynyddion grantiau dynnu taliadau i lawr.

Nid ydym yn pennu targed ar gyfer ein balansau NLDF. Gan nad ydym yn rheoli incwm y Loteri, mae'n amhosib i ni reoli'r balans yn y tymor byr. Rydym yn cyhoeddi cynlluniau sy'n seiliedig ar yr achos canolog ac yn esbonio'r amrywiaethau bob blwyddyn. Er hynny, rydym yn cymedroli ymrwymiadau i ddod â'r balansau yn ôl i lawr i'r isafswm lefel sy'n ochelgar mor gynnar â phosib.

Rhagwelwn ar hyn o bryd y bydd ein balans NLDF ar 31 Mawrth 2013 oddeutu £422 miliwn

Balans NLDF terfynol




## Ein costau gweithredu - sut mae'r Gronfa Loteri Fawr yn gwario'n fwy effeithlon

Ein mesur effeithlonrwydd ariannol allweddol yw'r gyfran o'n hincwm Loteri rydym yn ei gwario ar ei ddosbarthu. O'r mesur hwn rydym yn eithrio costau rydym yn eu hailgodi ar bobl eraill, gan gynnwys costau dosbarthu arian nad yw'n dod o'r loteri. Rydym hefyd yn eithrio costau unigol sy'n fuddsoddiadau i wella effeithlonrwydd yn y dyfodol. Ar y sail hon, cost dosbarthu arian y Loteri oedd £49 miliwn (2010/11 £53 miliwn). Mae hyn yn cynrychioli 6.3 y cant o Incwm y Loteri (2010/11 6.8 y cant).

Mae'r Llywodraeth wedi gofyn i ddosbarthwyr y loteri leihau eu costau gweithredu i gwrdd â dau darged: Bydd costau gweithredu'r Loteri'n cael eu cyfyngu i 8 y cant o Incwm y Loteri a bydd costau gweinyddu craidd yn cael eu cyfyngu i 5y cant o Incwm y Loteri. Rydym wedi cytuno i gwrdd â'r targedau hyn erbyn 2014-15.


Mae sail y targed 8 y cant yn debyg iawn i'r mesur cyfredol uchod, felly rydym yn cwrdd â'r targed hwn ar hyn o bryd, ond mae'r gostyngiad yn ein cyfran incwm i 40 y cant yn golygu y bydd angen i ni leihau ein costau gweithredu Loteri tua £1 miliwn pellach i £48 miliwn er mwyn cwrdd â'r targed yn 2014-15 gan gynnwys unrhyw chwyddiant rhwng nawr a'r amser hwnnw.

Mae'r targed mwy cul o 5 y cant ar gyfer costau gweinyddu craidd yn berthnasol i gostau'r Loteri ac eithrio'r costau hynny yr ystyrir eu bod yn darparu cefnogaeth rheng flaen ar gyfer ymgeiswyr a derbynyddion grantiau a'r cyhoedd. Er enghraifft, darparu cyngor a chymorth i fudiadau sy'n ymgeisio am arian loteri, a gweithgareddau i gynnwys y cyhoedd wrth wneud penderfyniadau ar y loteri. Yn bennaf y costau gweinyddu craidd yw'r costau o brosesu ceisiadau a rheoli grantiau ar ôl eu dyfarnu, gan gynnwys yr holl gostau cefnogi.

Amcangyfrifwn yr oedd ein costau craidd yn 2011-12 tua £39.0 miliwn, a bydd angen iddynt ostwng i £35.5 miliwn erbyn 2014-15.

Mae'n amlwg bod hwn yn darged heriol, ac rydym yn rhoi cynllun ar waith yn y tymor canolig i'w gyflawni. Ein nod yw gwneud hynny heb gyfaddawdu naill ai ansawdd ein rhaglenni neu ein safonau gwasanaeth cwsmeriaid. Mae rhaglenni agored sy'n dyfarnu symiau mawr o grantiau bach yn ddrutach i'w rhedeg na rhaglenni sy'n dyfarnu symiau bach o grantiau mawr i grŵp cyfyngedig o ymgeiswyr.

**DPA - Costau Gweinyddu gwirioneddol o'i gymaru â gwaelodlin chwyddedig 2004/2005**




Mae'r mathau o raglenni rydym yn eu rhedeg wedi'u symbylu gan yr hyn sy'n cyflwyno'r canlyniadau gorau, nid cost y cyflwyno, ac nid ydym yn bwriadu newid hynny.

Bydd cyfran fawr o'r arbedion o ganlyniad i ni roi ein rhaglen ailbeiriannu prosesau busnes (BPR) ar waith, a fydd yn symud rhan helaeth o'n busnes ar-lein. Byddwn hefyd yn parhau i ostwng ein costau llety a gwneud arbedion gweithredu eraill ble bynnag y gallwn.

Bydd yr arbedion hyn yn adeiladu ar y gostyngiad sylweddol mewn costau rydym eisoes wedi'u cyflawni ers i'n rhagflaenwyr gyfuno yn 2004.

Fel pob corff cyhoeddus rydym wedi cyfyngu ar wariant dewisol, gan gynnwys recriwtio staff parhaol, yn ystod 2011/12.

## Sut mae ein costau wedi gostwng dros amser

Dengys y siart isod sut mae costau dosbarthu'r Gronfa Loteri Fawr wedi gostwng ers 2004/05, y flwyddyn y cafodd y Gronfa Loteri Fawr ei ffurfio wrth i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Gronfa Gymunedol gyfuno, o'i gymharu â'r hyn a fyddai wedi digwydd petaent wedi codi'n unol â chwyddiant yn unig.

Mae'r tabl isod yn dangos sut mae costau wedi gostwng dros y pum mlynedd diwethaf yn fanylach.

| £ miliwn | 2006/07 | 2007/08 | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Incwm gan y Loteri cyn y trosglwyddiad OLD | 642 | 660 | 662 | 783 | 786 | 780 |
| Costau wedi'u hadennill gan gyrff eraill | 3 | 5 | 7 | 7 | 7 | 8 |
| Cyfanswm incwm | 645 | 665 | 669 | 790 | 793 | 788 |
| Cost dosbarthu grantiau Loteri | 66 | 60 | 57 | 58 | 53 | 49 |
| Buddsoddi ar gyfer arbedion yn y dyfodol | 8 | (1) | 3 | 5 | 0 | 0 |
| Costau wedi'u hadennill gan gyrff eraill | 3 | 5 | 7 | 7 | 7 | 8 |
| Cyfanswm costau gweithredu | 77 | 64 | 67 | 70 | 61 | 57 |
| Cost dosbarthu grantiau'r Loteri fel % o incwm y Loteri | 10.3% | 9.1% | 8.6% | 7.4% | 6.8% | 6.3% |

## Sefyllfa ariannol

Mae gennym ddiffyg o £179 miliwn ar gyfer y flwyddyn (gwarged o £273 miliwn yn 2010/11).

Mae'r diffyg hwn yn cynyddu ein diffyg cronnus o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol ac erbyn hyn mae gennym ddiffyg o £536 miliwn o ran arian wrth gefn argadwedig (2010/11 £357 miliwn). Nid yw'r diffyg ond yn adlewyrchu ein polisi, sydd wedi'i drafod uchod, o wneud dyfarniadau grant a fydd yn cael eu talu allan yn y dyfodol o incwm y dyfodol, ac nid yw'n destun pryder. Mae ein cyfarwyddiadau cyfrifon yn mynnu ein bod yn trin yr ymrwymiadau fel gwariant yn y flwyddyn y maent yn cael eu gwneud.

# Eitemau datgelu statudol

## Asedau sefydlog

Amlinellir y symudiadau mewn asedau diriaethol ac anniriaethol sefydlog yn ystod y flwyddyn yn Nodiadau 10 a 11 y cyfrifon. Yn ystod y flwyddyn, buddsoddwyd £7 miliwn (2010/11 £3 miliwn) mewn gwariant cyfalaf sy'n gysylltiedig i raddau helaeth â buddsoddi yn ein system ariannu newydd.

## Archwilwyr

O dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 2006, mae'n rhaid i gyfrifon y Gronfa Loteri Fawr gael eu harchwilio a'u cadarnhau gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn cyflawni ein harchwiliad allanol.

## Ein polisi ac arfer taliadau

Yn unol â'r Canllaw Arferion Talu Gwell, anelwn at dalu ein holl gredydwyr o fewn 30 niwrnod ar ôl derbyn anfoneb, oni bai bod amodau a thelerau eraill wedi'u cyd-drafod fel arall. Yn 2011/2012, talwyd 98 y cant (98 y cant yn 2010/11) o'r holl gredydwyr o fewn 30 niwrnod ar ôl i ni dderbyn anfoneb nad yw'n destun anghydfod.

Ar ben hynny rydym hefyd wedi ymrwymo i ostwng diwrnodau talu credydwyr yn ystod 2011/12. 10 niwrnod yw targed Her Talu'n Brydlon y Llywodraeth. Yn ystod 2011/2012 talwyd 72 y cant o gyflenwyr o fewn 10 niwrnod gwaith (73 y cant yn 2010/11).

# Ein llywodraethu

**Mae adran hon yr adroddiad yn cynnwys:**

- **Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifon.**
- **Datganiad llywodraethu'r Swyddog Cyfrifon.**
- **Aelodaeth y bwrdd, pwyllgorau gwlad a'r uwch dîm rheoli.**
- **Cofrestr o fuddiannau aelodau.**
- **Yr adroddiad tal cydnabyddiaeth.**

## Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifon

O dan Adran 36A Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddfau'r Loteri Genedlaethol 1998 a 2006), mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi cyfarwyddo'r Gronfa Loteri Fawr i baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer bob blwyddyn ariannol ar ffurf ac ar sail a amlinellir yng Nghyfarwyddiadau'r Cyfrifon. Paratoir y Cyfrifon ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt ddarparu golwg gwir a theg o sefyllfa'r Gronfa Loteri Fawr ac o'i hincwm, ei gwariant a'i llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifon gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth ac yn benodol:

- gadw at y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol a defnyddio polisïau cyfrifo addas yn gyson
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol
- datgan p'un a yw safonau cyfrifo perthnasol fel y'u hamlinellir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth wedi'u dilyn, a datgan ac esbonio unrhyw wyriadau materol yn y datganiadau ariannol
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes cyfredol.

Mae Swyddog Cyfrifon yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi penodi Prif Weithredwr y Gronfa Loteri Fawr fel Swyddog Cyfrifon. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifon, gan gynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifon yn atebol amdano, cadw cofnodion priodol a diogelu asedau'r Gronfa Loteri Fawr, wedi'u hamlinellu yn Rheoli Arian Cyhoeddus a gyhoeddir gan Drysorlys EM.

Yn ogystal â hyn mae Swyddog Cyfrifon Swyddfa'r Cabinet wedi fy nynodi i'n Swyddog Cyfrifon ar gyfer y Cyfrifon Segur o dan Ddeddf Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Segur 2008. Mae'r cyfrifon hyn hefyd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

Fel Swyddog Cyfrifon, hyd eithaf fy ngwybodaeth, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y Gronfa Loteri Fawr yn ymwybodol ohoni. Rwyf wedi cymryd bob cam perthnasol fel Swyddog Cyfrifon i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a bod archwilwyr y Gronfa Loteri Fawr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

## Cyfrifoldebau dirprwyedig

Pryd bynnag y bo'n briodol, mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi ceisio defnyddio pwerau dirprwyo a ddarparwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998. O ganlyniad i hyn, gall partïon eraill fod yn atebol am elfennau penodol o raglenni.

## Cynlluniau ar y cyd

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi cymryd rhan mewn cynlluniau ar y cyd, fel y diffinnir yn Neddf y Loteri Genedlaethol 1998, i ddarparu arian ochr yn ochr â chyrff eraill i gyflawni'r canlyniadau a ddiffinnir gan y Gorchymyn Cynllun ar y Cyd perthnasol. Yn y cynlluniau hyn, mae Swyddog Cyfrifon y Gronfa Loteri Fawr yn gyfrifol am sicrhau bod arian y Loteri a ddyrennir gan y Gronfa'n cael ei ddefnyddio'n unol â phwerau cyfreithiol y Gronfa; defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o arian y Loteri a ddyrennir gan y Gronfa Loteri Fawr i'r rhaglen; cael ei fodloni bod y systemau a ddefnyddir i weithredu'r rhaglen yn gadarn ac yn addas i'r diben; a chytuno ar y mecanwaith ar gyfer dyrannu costau gweinyddol y rhaglen rhwng y Dosbarthwyr Loteri sy'n cymryd rhan. Yn ogystal â hynny yn achos rhaglen Arian i Bawb Lloegr, gan fod y Gronfa Loteri Fawr yn gweinyddu'r rhaglen, mae Swyddog Cyfrifon y Gronfa hefyd yn gyfrifol am gyflwyno'r systemau a ddefnyddir i weithredu'r rhaglen.

Yn ystod 2011/12, mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi cymryd rhan yn y cynlluniau canlynol ar y cyd:

- Active England, rhan o'r rhaglen Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion: cynllun a weinyddir gan Sport England ar ran Sport England a'r Gronfa Loteri Fawr.
- Parks for People: cynllun a weinyddir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar ran Gronfa Dreftadaeth y Loteri a'r Gronfa Loteri Fawr.

## Partneriaid dyfarnu

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi defnyddio'r pwerau a ddarperir gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998 i ddirprwyo'r cynlluniau grant a restrir isod i bartneriaid dyfarnu. Mae'r cytundeb dirprwyo rhwng y Gronfa Loteri Fawr a'r partneriaid dyfarnu'n amlinellu cyfrifoldeb Prif Weithredwr y partner dyfarnu i sicrhau bod systemau a roddir ar waith i weinyddu ceisiadau Loteri ac i brosesu a monitro grantiau Loteri yn dderbyniol ac yn addas i'r diben a bod arian y Loteri'n cael ei ddosbarthu'n gywir ac yn briodol.

Cadwaf gyfrifoldeb cyffredinol dros ddiogelu arian cyhoeddus a ddarperir i'r Gronfa Loteri Fawr ac am sicrhau bod partneriaid dyfarnu'n gweithredu'n unol â'n telerau cytunedig a'r cyfarwyddiadau ariannol a pholisi a ddarparwyd i mi.

Fel rhan o'r Gronfa Pobl Ifanc:

- Youthnet – BIG Deal.

Fel rhan o'r rhaglen Changing Spaces:

- Cymdeithas Frenhinol Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt – Bwyd Lleol.
- Building Research Establishment Ltd – Rhaglen Community Sustainable Energy.
- Ymddiriedolaeth Groundwork– Community Spaces.
- Natural England – Access to Nature.
- Mind – Ecominds.

Fel rhan o'r rhaglen Reaching Communities yn Lloegr:

- Ymddiriedolaeth Loteri Ynys Manaw.
- Make your Mark.

Fel rhan o'n canlyniadau People Powered Change:

- Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Gwyddoniaeth, Technoleg a'r Celfyddydau (NESTA) - Her Gymdogaethau.
- The Foundation for Social Entrepreneurs (UnLtd) – Big Venture Challenge.

**Peter Wanless**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifon
10 Gorffennaf 2012

# Y datganiad llywodraethu

Mae Swyddog Cyfrifon y Gronfa Loteri Fawr, ei Phrif Weithredwr Peter Wanless, yn gyfrifol yn bersonol am y datganiad llywodraethu hwn. Mae'n amlinellu sut yr wyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldeb i reoli a rheoleiddio adnoddau'r Gronfa Loteri Fawr yn ystod y flwyddyn. Ei nod yw rhoi dealltwriaeth glir o'r ffordd y mae'r Gronfa Loteri Fawr yn gweithio ac yn cael ei rheoli, ac mae'n esbonio'r prif risgiau sy'n ei hwynebu a pha mor dda y mae'r rhain yn cael eu rheoli.

## Atebolrwydd y Gronfa Loteri Fawr i Senedd y DU, y cyrff deddfwriaethol a llywodraethau datganoledig

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn gweithredu ar draws y DU ond gyda'r broses gwneud penderfyniadau'n cael ei datganoli'n helaeth i bedair gwlad y DU. Mae hyn yn golygu bod gennym set gymhleth o rwymedigaethau allanol, sy'n gofyn am strwythur llywodraethu mewnol sydd yr un mor gymhleth.

Crëwyd y Gronfa Loteri Fawr gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 fel y'i diwygiwyd wedi hynny, a amlinellodd y prif reolau y mae'n gweithredu oddi tanynt. Mae hefyd wedi derbyn swyddogaethau o dan Ddeddf Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Segur 2008. Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn gorff cyhoeddus anadrannol ac yr wyf yn llawn atebol i Senedd y DU am arian y Gronfa Loteri Fawr. Mae gorchmynion penodol sy'n gysylltiedig â'r loteri a chyfrifon segur yn cael eu gwneud gan Senedd y DU neu Senedd Yr Alban, ond gweithredir y prif drosolwg o'r Gronfa Loteri Fawr trwy gyfarwyddiadau a gyhoeddir gan weinidogion.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon yn atebol am yr holl arian Loteri, ac felly yn cyhoeddi cyfarwyddiadau ariannol a chyfrifon i'r Loteri Genedlaethol. Am resymau cyfreithiol mae'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet yn cyhoeddi cyfarwyddiadau tebyg yn gysylltiedig ag arian cyfrifon segur. Mae'r cyfarwyddiadau'n rheoleiddio systemau a phrosesau'r Gronfa Loteri Fawr.

Er hynny, yr adran bolisi sy'n noddi'r Gronfa Loteri Fawr yw Swyddfa'r Cabinet, yn gweithredu trwy ei Swyddfa Cymdeithas Sifil. Mae'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet yn cyhoeddi cyfarwyddiadau polisi y mae'n rhaid i'r Gronfa Loteri Fawr eu cymryd i ystyriaeth wrth ddosbarthu arian sy'n berthnasol yn gyffredinol i holl ariannu'r DU ac yn benodol i Loegr. Mae'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cyhoeddi cyfarwyddiadau polisi sy'n gysylltiedig â'r arian sy'n cael ei ddosbarthu yn y gwledydd hynny.

Mae'r cyfarwyddiadau sy'n berthnasol yn ystod y flwyddyn wedi'u cynnwys yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn.

O fewn fframwaith y cyfarwyddiadau hyn mae'r Gronfa Loteri Fawr yn gwneud penderfyniadau annibynnol ar ba raglenni y dylai eu rhedeg a pha grantiau y dylai eu gwneud.

## Llywodraethu anweithredol

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi'i llywodraethu gan Fwrdd DU sy'n cynnwys Cadeirydd y DU, Cadeiryddion y pedwar pwyllgor gwlad a phum aelod arall. Mae'r Bwrdd wedi penodi un o'i aelodau fel Is-gadeirydd. Mae gan bob gwlad bwyllgor gwlad sy'n gyfrifol am y rhaglenni ariannu yn eu gwlad. Mae gan y pwyllgorau gwlad awdurdod dirprwyedig i bennu'r strategaeth a rhaglenni ariannu yn eu gwledydd, yn amodol ar fframwaith strategol DU gyfan a gymeradwyir gan y Bwrdd a'r cyfarwyddiadau polisi ar gyfer eu gwlad. Maent hefyd yn gwneud penderfyniadau am grantiau, neu'n cytuno ar y trefniadau dirprwyedig ar gyfer gwneud nhw. Mae'r Bwrdd hefyd wedi penodi Pwyllgor Ariannu'r DU a gadeirir gan Gadeirydd y DU i gyflawni swyddogaethau tebyg ar gyfer y rhaglenni hynny sy'n gweithredu ar sail DU gyfan.

Mae'r Bwrdd wedi penodi Pwyllgor Archwilio a Risg i'w gynghori ar faterion adrodd ariannol, archwilio a sicrwydd a rheoli risg. Mae'n cynnwys dau aelod allanol sydd ag arbenigedd mewn materion archwilio a chyfrifo. Mae wedi penodi Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth i ddelio gyda'r materion a amlinellir yn yr adroddiad tâl cydnabyddiaeth.

Mae'r Bwrdd, y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgorau Gwlad yn cwrdd o leiaf bob tri mis, gydag chyfarfodydd ychwanegol fel y bo angen. Mae'r Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth yn cwrdd bob blwyddyn fel arfer.

Mae'r Bwrdd yn derbyn cofnodion gan ei holl bwyllgorau. Yn ogystal â hyn, o bryd i'w gilydd mae'n derbyn adroddiadau llawnach am y strategaethau a rhaglenni ym mhob portffolio gwlad er mwyn iddo sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r fframwaith strategol a bod dysgu'n cael ei rannu. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn adrodd i bob cyfarfod o'r Bwrdd ar unrhyw faterion y mae'n tybio y mae angen eu dwyn at eu sylw, ac i ddarparu sicrwydd i'r Bwrdd. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg hefyd yn darparu adroddiad llawn i'r Bwrdd ar ei waith unwaith y flwyddyn.

Mae aelodaeth o'r holl bwyllgorau a phresenoldeb ynddynt wedi'u hamlinellu ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

Mae aelodau Bwrdd y DU, gan gynnwys cadeiryddion y pwyllgorau gwlad, yn cael eu penodi'n ffurfiol gan y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet. Mae aelodau eraill o bwyllgorau gwlad yn cael eu penodi'n ffurfiol gan y Gronfa Loteri Fawr. Mae'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn cymryd rhan yn llawn yn y penodiadau sy'n gysylltiedig â'u gwledydd. Mae'r holl aelodau Bwrdd a phwyllgor yn cael eu penodi yn sgil proses hysbysebu a dethol agored.

## Effeithiolrwydd llywodraethu anweithredol ac adolygiad ohono

Comisiynodd y Cadeirydd Gweithredol a'r Prif Weithredwr adolygiad annibynnol o lywodraethu'r Bwrdd yn 2010 i gael ei ystyried gan Gadeirydd newydd y DU. Yn dilyn penodiad Peter Ainsworth, mae'r Bwrdd wedi gwneud nifer o newidiadau i adlewyrchu aeddfedrwydd y mudiad. Mae rôl y Bwrdd wedi canolbwyntio'n fwy penodol ar drosolwg strategol o waith y Gronfa Loteri Fawr a'r defnydd effeithiol o'i adnoddau. Mae'r Bwrdd wedi lleihau o 12 aelod i ddeg. Mae swyddogaethau'r Pwyllgor Adnoddau, a oedd ar wahân yn flaenorol, wedi'u dychwelyd i'r Bwrdd. Ar yr un pryd mae Pwyllgor Ariannu DU wedi'i greu i ddirprwyo materion penodol am raglenni i ffwrdd o gyfarfodydd y Bwrdd. Mae datganoli i bwyllgorau a dirprwyo i swyddogion wedi'u cynyddu i alluogi'r Bwrdd i ganolbwyntio ar faterion strategol.

Er bod y newidiadau hyn yn dal i ymgorffori eu hunain, ac y byddant yn parhau'n destun adolygiad, cred y Bwrdd fod ei effeithiolrwydd wedi'i wella. Mae'r Bwrdd wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r holl heriau strategol, gweithredol ac ariannol sy'n wynebu'r Gronfa Loteri Fawr ac wedi cymryd rhan yn uniongyrchol wrth ddiwygio ein cynlluniau a gyhoeddwyd ar gyfer y dyfodol (Meddwl o'r Newydd). Mae'n fodlon ei fod yn derbyn digon o wybodaeth gywir i fod yn hyderus am effeithiolrwydd y rhaglenni ariannu, perfformiad ariannol a gweithredol y busnes a sut mae risg yn cael ei rheoli. Mae'r systemau sy'n darparu'r wybodaeth hon wedi'u sicrhau trwy gael eu cynnwys yn y rhaglen archwilio mewnol.

Nid yw'r Côd Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer Adrannau Llywodraeth Ganolog yn berthnasol i Gyrff Cyhoeddus Anadrannol ac mae'r hyn sy'n gyfwerth â'i ofynion manwl ar gyfer y Gronfa Loteri Fawr i'w gweld mewn statudau neu yn ein cyfarwyddiadau. Er hynny, rwyf wedi fy modloni bod egwyddorion y Côd, ynghyd â ffynonellau arweiniad eraill ar arfer da mewn llywodraethu corfforaethol wedi'u hadlewyrchu'n llawn mewn trefniadau llywodraethu'r Gronfa Loteri Fawr.

## Rheolaeth weithredol

Mae rheolaeth weithredol y Gronfa Loteri Fawr yn cael ei harwain gan ei Huwch Dîm Rheoli ("UDRh") o naw aelod, gan gynnwys fy hun. Mae'r UDRh yn cwrdd yn ffurfiol bob mis, ond mae aelodau mewn cyswllt o leiaf bob wythnos. Mae holl aelodau'r UDRh yn mynd i gyfarfodydd Bwrdd, ac mae aelodau priodol yn mynd i bwyllgorau eraill. Mae'r UDRh yn ystyried materion polisi, strategol a gweithredol allweddol, yn darparu cyngor i'r Bwrdd ar faterion sy'n gofyn am ei gymeradwyaeth ac yn goruchwylio perfformiad a rheoli risgiau'r Gronfa Loteri Fawr yn gyffredinol.

Mae aelodau'r UDRh a'u meysydd cyfrifoldeb wedi'u hamlinellu yn adran nesaf yr adroddiad hwn.

Mae strwythurau rheoli gweithredol priodol wedi cael eu creu gan gyfarwyddwyr ar draws y mudiad i oruchwylio eu cyfarwyddiaethau a'u hadrannau, a'r prosiectau a rhaglenni sy'n cael eu gweithredu ar draws y Gronfa Loteri Fawr.

## Cynllunio corfforaethol a rheoli perfformiad

Mae gan y Gronfa Loteri Fawr system ddatblygedig o gynllunio corfforaethol sydd wedi'i ddylunio i adnabod blaenoriaethau a chynlluniau corfforaethol ym mhob cyfnod er mwyn cyflwyno'r strategaeth a gymeradwyir gan y Bwrdd.  Mae cynlluniau cyfarwyddiaeth ac adrannol yn cael eu datblygu ledled y Gronfa Loteri Fawr ac yn bwydo i mewn i amcanion personol staff.

Mae'r cynlluniau corfforaethol yn adnabod dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) a dangosyddion rheoli allweddol (DRhA). Mae'r rhain yn cael eu monitro'n agos ac adroddir amdanynt i'r UDRh ac i'r Bwrdd yn rheolaidd, gyda chamau cywiro'n cael eu cymryd pryd bynnag y bo angen. Mae hyn yn ffocysu sylw ar y meysydd y mae arnynt ei angen fwyaf, gyda dim ond dau darged DPA yn cael eu colli'n faterol yn ystod 2011-12. Mae'r rhain, sydd wedi'u trafod isod, yn gysylltiedig â'r rhaglen BPR. Rhoddir gwybodaeth ariannol a pherfformiad helaeth i'r UDRh bob mis ac i staff anweithredol bob tri mis.

Mae'r systemau cynllunio corfforaethol a rheoli perfformiad wedi'u sicrhau trwy gael eu cynnwys o fewn y rhaglen archwilio fewnol. Cyflawnwyd adolygiad o'r mesurau rheoli dros y systemau adrodd DPA a DRhA yn ystod y flwyddyn: argymhellodd rhai gwelliannau, ond darparodd sicrhad cymedrol.

## Ariannu Trydydd Parti

Ym mis Hydref 2011 cymeradwyodd y Bwrdd Strategaeth Trydydd Parti'r Gronfa Loteri Fawr a ffocysodd ein gweithgareddau ac a bennodd ein hymagwedd, ynghyd â chyrchnodau cyflwyno ar gyfer y tymor byr, canolig a hir. Yn ein strategaeth amlinellwn sut rydym yn darparu ein profiad, ein systemau a'n dysgu i eraill eu defnyddio ac yn ychwanegu gwerth ble bynnag y gallwn. Mae'r Bwrdd yn ymwneud yn weithredol â phenderfyniadau am ba waith trydydd parti y mae'n briodol i'r Gronfa Loteri Fawr ymgymryd ag ef, yn unol â'r strategaeth honno. Rydym yn cymhwyso risgiau a chyfundrefn reoli i bob cyfle yn unol â'r dasg a bennir gan y cleient, gan sicrhau nad oes unrhyw risg y bydd arian Loteri'n cael ei roi mewn perygl neu y bydd gwaith nad yw'n ymwneud â'r Loteri'n cael ei groes-gymorthdalu. Rydym yn adolygu gweithgareddau a chyfleoedd yn rheolaidd i adnabod dysgu yn sgil cyflwyno gweithgareddau trydydd parti.

## Rheoli risgiau a sicrwydd

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn gweithredu system gynhwysfawr o reoli risgiau, gyda chofrestr risgiau corfforaethol yn cael ei hadolygu bob tri mis gan yr UDRh a'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae cadeirydd y pwyllgor yn adrodd i bob cyfarfod o'r Bwrdd ar unrhyw fater y mae angen ei ddwyn at eu sylw. Yn unol â chyngor gan y Pwyllgor Archwilio a Risg, mae'r Bwrdd wedi cytuno ar lefelau goddefiant risg y Gronfa Loteri Fawr. Mae'r rhain wedi cael eu datblygu'n ofalus i adlewyrchu'r lefelau gwahanol o oddefiant sy'n dderbyniol ar gyfer risgiau gwahanol.  Mae bod yn ariannwr deallus yn mynnu bod rhai risgiau'n cael eu cymryd mewn perthynas â llwyddiant rhai prosiectau.

Mae gweithdrefnau rheoli, dylunio ac adrodd ar gyfer y system rheoli ariannu newydd yn cael eu datblygu i adlewyrchu'r goddefiannau gwahanol y cytunwyd arnynt. O bryd i'w gilydd mae'r Bwrdd ei hun yn adolygu'r gofrestr risgiau i sicrhau nad oes unrhyw hepgorion materol

Mae cofrestrau risgiau tebyg yn cael eu cadw ar lefel cyfarwyddiaethau ac adrannau ac ar gyfer pob prosiect a rhaglen, ac maent yn cael eu hadolygu ar lefel uwch bob tri mis. Mae system effeithiol ar waith ar gyfer esgoli materion risg sylweddol i'r UDRh.

Mae gan y Gronfa Loteri Fawr isadran archwilio ac ymchwiliadau fewnol, y mae ei Phennaeth yn adrodd yn uniongyrchol i mi ar faterion archwilio. Mae ein tîm mewnol yn cael ei ategu gan gontract ar gyfer darparu gwasanaethau archwilio mewnol gyda PriceWaterhouseCoopers. Mae rhaglen o waith archwilio mewnol yn cael ei pharatoi bob blwyddyn gan y pennaeth archwilio mewnol a'i chytuno gyda'r UDRh a'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Dylunnir y rhaglen hon i roi sicrhad bod mesurau rheoli priodol wedi cael eu dylunio a'u bod yn gweithredu'n gywir mewn perthynas â'r holl risgiau sylweddol y mae'r Gronfa Loteri Fawr yn eu hwynebu. Mae canfyddiadau'r adroddiadau, yn enwedig unrhyw rai nad ydynt yn rhoi sicrhad neu sy'n rhoi sicrhad cyfyngedig, yn cael eu hystyried gennyf i, y cyfarwyddwyr perthnasol a'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae camau gweithredu'n cael eu cytuno gan reolwyr wrth ymateb o bobl argymhelliad a wneir, ac adroddir am gynnydd yn erbyn y rhain i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Mae nifer y camau gweithredu sy'n weddill ar ôl eu dyddiad gweithredu cytunedig yn DRhA gyda tharged o sero. Dim ond un argymhelliad â blaenoriaeth isel oedd yn weddill ar 31 Mawrth 2012. Mae'r Adran Archwilio Mewnol yn dilyn y camau gweithredu y mae rheolwyr yn datgan eu bod wedi'u cwblhau, ac yn adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg p'un a ydynt yn fodlon mai dyna'r achos ai beidio.

Cyflawnir archwiliad allanol o'r Adroddiad Blynyddol hwn a'r Cyfrifon hyn gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Ymdrinnir â chanfyddiadau ac argymhellion sy'n deillio o'r archwiliad allanol yn yr un modd â'r rhai o archwilio mewnol ac maent yn cael eu hystyried yn llawn gan y Pwyllgor Archwilio a Risg.

Mewn rhai meysydd arbenigol (er enghraifft cydymffurfio ag iechyd a diogelwch) deuir o hyd i sicrwydd pellach ar ffurf adroddiadau gan ymgynghorwyr proffesiynol a chymwysedig eraill.

Mae pob cyfarwyddwr wedi darparu datganiad sicrwydd ar fy nghyfer ar y meysydd y maent yn gyfrifol amdanynt, a chan alw ar y rhain a chanlyniadau adolygiadau archwilio mewnol, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi darparu adroddiad sicrwydd blynyddol ar fy nghyfer. O ganlyniad i argymhellion a wnaed mewn nifer o adroddiadau nad ydynt wedi'u datrys yn llawn eto, y mae rhai ohonynt yn gysylltiedig â datblygiad manwl y system rheoli ariannu sydd ar ddod, darparodd ei adroddiad sicrwydd cyfyngedig ynglŷn â dyluniad, digonolrwydd ac effeithiolrwydd system rheoli mewnol y Gronfa Loteri Fawr. Rhoddir mwy o fanylion yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. Rwyf wedi fy modloni bod camau priodol yn cael eu cymryd i ymdrin â'r materion a godwyd.

## Y prif risgiau y mae'r Gronfa Loteri Fawr yn eu hwynebu

Ar hyn o bryd mae'r gofrestr risgiau corfforaethol yn adnabod 17 risg sylweddol. Mae saith o'r rhain yn ymwneud â'r Rhaglen Ailbeiriannu Prosesau Busnes (BPR) a drafodir isod.

Mae pedair risg arall yn ymwneud â'n rheolaeth ariannol:

- methu â rheoli ein costau craidd o fewn y terfyn 5 y cant erbyn 2014/15
- cynnydd mewn incwm loteri sy'n arwain at falansau NLDF sy'n uwch na'r rhagamcaniad

- methu ag ymrwymo'r holl gyllideb grantiau gytunedig ar gyfer y flwyddyn
- methu â rheoli taliadau grant yn arwain at wariant sy'n arafach na'r rhagamcaniad.

Rwyf wedi fy modloni bod y risgiau hyn yn cael eu rheoli'n dda ac y gellir eu goddef ar hyn o bryd. Mae ein trefniadau adrodd ariannol wedi sicrhau bod unrhyw wyriad o'n cynlluniau'n cael ei adnabod yn gyflym a bod camau'n cael eu cymryd. Digwyddodd hyn yn ystod 2011-12 pan ddechreuodd ein dyfarniadau grant a'n taliadau gwympo y tu ôl i'r amserlen; arweiniodd camau gweithredu gan reolwyr at y ddau faes yn bodloni ein targedau DPA.

Mae tair risg yn gysylltiedig â'r niwed i enw da'r Gronfa Loteri Fawr a allai ddigwydd os na fydd y Gronfa Loteri Fawr yn cyflwyno ei rhaglenni a'i gwasanaethau i gwsmeriaid yn effeithiol:

- Analluiddangos ein bod yn cael effaith gadarnhaol trwy'r blaenoriaethau a amlinellir yn y Fframwaith Strategol.
- Gallai dyluniad neu weithrediad y Cynllun Tymor Canolig i gyflawni effeithlonrwydd gyfaddawdu ein heffeithiolrwydd neu ein gwasanaeth i gwsmeriaid.
- Methu â gwrthbrofi sylw negyddol yn y cyfryngau cenedlaethol

Mae'r UDRh a'r Bwrdd yn rhoi sylw agos i'r agweddau hyn ar ein gweithrediadau, a gwneir ymdrech sylweddol i ddod o hyd i adborth gan ein holl gwsmeriaid a budd-ddeiliaid i wella ein perfformiad. Mae'r holl DPA yn y meysydd hyn yn gadarnhaol iawn, ac rwy'n fodlon bod y risgiau yn y meysydd hyn ymhell o fewn goddefiant ar hyn o bryd.

Mae dwy risg arall yn gyffredin i bob mudiad o gymhlethdod tebyg:

- methu â sicrhau cydymffurfio â gofynion rheoleiddio a gofynion tebyg
- digwyddiadau diriaethol nas rhagwelwyd megis methiant systemau.

Nid oes unrhyw faterion sylweddol wedi codi yn y meysydd hyn, ac mae gan y Gronfa Loteri Fawr systemau effeithiol a chynlluniau wrth gefn yr wyf yn fodlon eu bod yn rheoli'r risgiau hyn yn foddhaol.

Y ddwy brif risg risg sy'n cyflwyno'r heriau mwyaf i'r Gronfa Loteri Fawr ar hyn o bryd yw twyll a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen BPR.

## Risg o Dwyll

Mae'n anochel bod y Gronfa Loteri Fawr yn wynebu'r risg o dwyll. Mae unrhyw fudiad sy'n dyfarnu nifer mawr o daliadau i'r cyhoedd mewn perygl o dwyll mewnol ac allanol. Mae gan y Gronfa Loteri Fawr dasg arbennig o anodd wrth daro cydbwysedd priodol rhwng cymhwyso mesurau rheoli sy'n gwneud twyll yn anoddach ac yn ei gwneud hi'n syml ac yn hawdd i ymgeisio am grantiau, yn enwedig grantiau bach i fudiadau bach sydd yn aml yn meddu ar adnoddau cyfyngedig.

Daw'r risg fwyaf o dwyll o ymosodiadau troseddol cydlynol ar ein system grantiau bach. Rydym wedi datblygu prosesau dadansoddi data ac asesu risg soffistigedig sy'n ein galluogi i adnabod patrymau ymgeisio twyllodrus a ddrwgdybir. Mae gennym dîm ymchwilio proffesiynol sy'n cefnogi ein staff ariannu wrth gyflawni asesiadau risg, ac yn prosesu pob achos o dwyll a ddrwgdybir neu ddrygioni bwriadol arall.

Gwyddwn fod y technegau hyn yn effeithiol gan i ni ddatgelu twyll trwy'r ddull hwn o bryd i'w gilydd, ac yn erlyn troseddwyr mewn cydweithrediad â'r Heddlu. Maent hefyd yn ein galluogi i wrthod y ceisiadau hynny sy'n awgrymu risg ormodol o dwyll neu gamddefnyddio ein hariannu. Er hynny, erys peth risg o dwyll heb ei ddatgelu. Rydym yn ymrwymedig i wella ein systemau'n barhaus i fynd i'r afael â hyn.

Yn ogystal â gwaith y tîm hwn, mae mesurau rheoli twyll yn cynnwys: polisi clir ar dwyll: polisi datgelu camarfer ynghyd â ffordd i'r cyhoedd gyfeirio pryderon yn uniongyrchol i'n tîm ymholiadau: trefniadau adrodd clir ar gyfer twyll a ddrwgdybir, gyda thwyll materol yn cael ei adrodd i mi, y Pwyllgor Archwilio a Risg a DCMS; a chydweithio agos gyda'r Heddlu, y Comisiwn Elusennau ac asiantaethau eraill. Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ymwneud yn agos â mentrau traws-lywodraethol a gwrth-dwyll. Mae nifer a gwerth yr anghysondebau a ddrwgdybir yn cael ei fonitro yn yr holl gyfarfodydd Archwilio a Risg, gyda'r pennaeth archwilio yn darparu adroddiadau ar unrhyw achosion materol.

Bydd rhoi ein system ariannu newydd ar waith yn 2012 yn cyflwyno heriau twyll newydd wrth i geisiadau a rheolaeth grantiau fynd ar-lein yn bennaf, ond mae hefyd yn cynnig cyfleoedd newydd i ddefnyddio technolegau mwy soffistigedig i ymladd yn ei erbyn.

## Risgiau'r Rhaglen Ailbeiriannu Prosesau Busnes (BPR)

Mae saith o'r risgiau yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn gysylltiedig â'r rhaglen BPR rydym yn ei rhoi ar waith ar hyn o bryd. Fel y mae'r enw yn ei awgrymu, mae'r rhaglen yn ailddylunio'n gyfan gwbl y ffordd yr ydym yn gweithredu ein busnes ariannu, gan adlewyrchu'r ffaith nad yw ein prosesau wedi newid yn sylweddol ers i'n rhagflaenwyr eu datblygu nhw. Mae ein prosesau yn seiliedig ar bapur o hyd i raddau helaeth, gan fethu ag adlewyrchu datblygiadau mewn technoleg neu ddisgwyliadau cwsmeriaid. Bwriedir i BPR greu buddion sylweddol ar gyfer cwsmeriaid ac effeithiolrwydd ein rhaglenni, yn enwedig wrth reoli a rhannu gwybodaeth, yn ogystal â galluogi arbedion sylweddol.

Mae'r rhaglen yn cynnwys dyluniad a gweithrediad system rheoli ariannu newydd sy'n seiliedig ar feddalwedd SAP, ond yn estyn ymhell y tu hwnt i hynny i gynnwys:

- 'Agenda Pobl' sydd wedi ail-lunio rolau a chyfrifoldebau staff.
- datblygu ein gwefan yn sylweddol i gefnogi cwsmeriaid ar-lein
- ailddylunio ein trefniadau rheoli cyswllt cwsmeriaid
- safoni a symleiddio ein prosesau i greu ymagwedd hyblyg ond llawer llai cymhleth at ddylunio rhaglenni.

Mae'r rhaglen yn cynnwys buddsoddi £16.0 miliwn mewn datblygu'r meddalwedd newydd a'i roi ar waith, ac mae'n digwydd dros nifer o flynyddoedd.

Y risgiau a adnabuwyd yw:

- effaith andwyol ar foddhad cwsmeriaid
- methu â chyflwyno'r arbedion cost disgwyliedig
- methu â chyflwyno'r buddion anariannol
- methiant y busnes i roi'r newidiadau angenrheidiol ar waith i wireddu buddion y system newydd
- methiant y trefniadau llywodraethu a sicrwydd mewn perthynas â datblygu'r system
- oedi wrth gwblhau'r system sy'n effeithio ar lansio rhaglenni ariannu
- costau ychwanegol sylweddol ar y rhaglen.

O ystyried arwyddocâd y rhaglen BPR i'r Gronfa Loteri Fawr, rydym wedi rhoi trefniadau llywodraeth a rheoli risg sylweddol ar waith ar ei chyfer.

Mae gan y rhaglen ei Huwch Swyddog Cyfrifol (USC) ei hun, Cyfarwyddwr Lloegr, Dharmendra Kanani, gyda Bwrdd i'r Rhaglen ac is-strwythurau llywodraethu ar gyfer y prosiectau sy'n ffurfio'r rhaglen. Yn ogystal â goruchwyliaeth reolaidd gan yr Uwch Dîm Rheoli a'r Bwrdd, a'r Pwyllgor Archwilio a Risg mewn perthynas â materion risg a sicrwydd, mae'r Bwrdd wedi sefydlu is-grŵp sy'n cynnwys aelodau gyda phrofiad o brosiectau tebyg, ac mae'n cwrdd â'r USC a staff uwch y rhaglen bob mis i fonitro cynnydd. Mae pedwar DPA sy'n gysylltiedig â'r rhaglen wedi'u cynnwys yn y prosesau monitro corfforaethol, ac mae adroddiad amlygu rheolaidd yn cael ei gynhyrchu i ddangos cynnydd ac adnabod meysydd i gael eu hadolygu gan swyddogion uwch.

Er bod rhai agweddau ar y rhaglen, yn fwyaf amlwg yr Agenda Pobl, wedi symud ymlaen yn dda, mae anawsterau wedi codi wrth ddatblygu'r system ariannu a arweiniai at fethu'r DPA yn ystod y flwyddyn ar gyfer cyflwyno'r rhaglen yn unol ag amser a chyllideb dymunol gwreiddiol y Bwrdd. Bwriadwyd cwblhau strwythur y system ar 1 Tachwedd 2011, ond adnabu adolygiad ansawdd y Gronfa Loteri Fawr faterion yr oedd angen eu datrys cyn i ni fedru derbyn bod y garreg filltir wedi'i chwblhau. Daeth yn amlwg y byddai angen estyn yr amserlen er mwyn i'r contractwr gael digon o amser i gwblhau'r gwaith adeiladu'n foddhaol ac i wneud nifer cyfyngedig o newidiadau i'r fanyleb wreiddiol, y gwnaeth y Gronfa Loteri Fawr dderbyn eu bod yn rhai angenrheidiol.

Adolygodd y Bwrdd achos busnes diwygiedig yn drwyadl, gan gynnwys yr opsiwn o roi'r gorau i'r rhaglen, a chytunwyd ym mis Mawrth 2012 y dylai'r rhaglen barhau yn erbyn cyllideb ac amserlen ddiwygiedig.

Cwblhawyd y gwaith o adeiladu'r system ar 9 Ebrill 2012 ac mae profi'n mynd yn ei flaen ar hyn o bryd. Bwriedir nawr i'r system fynd yn fyw yn fewnol (h.y. i staff y Gronfa Loteri Fawr) yn ddiweddarach eleni, ac yn allanol (i gwsmeriaid) yn 2013.

Rwy'n hyderus o hyd y gall y rhaglen BPR gyflwyno buddion ariannol ac anariannol sylweddol; mae'r achos busnes diwygiedig yn dal i ddangos elw ariannol sy'n fwy na'r hyn y mae ei angen i gyfiawnhau'r prosiect ar sail ariannol yn unig, yn ogystal â'r buddion anariannol sylweddol. Serch hynny, mae natur a graddfa'r rhaglen yn golygu ei fod yn aros fel y ffynhonnell risgiau mwyaf sylweddol ar gyfer y mudiad.

Blaenoriaeth glir yn ogystal â datblygu'r system ariannu newydd yw sicrhau ein bod yn parhau i gyflwyno ariannu heb ymyrryd â'n systemau cyfredol - mae ein systemau cynllunio ac adrodd corfforaethol yn ein galluogi i wneud hyn.

## Trefniadau dirprwyedig ac ymddiriedolaeth

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn dirprwyo rhai o'i swyddogaethau i fudiadau eraill fel yr esbonnir yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifon. Cyflawnir gwaith diwydrwydd dyladwy ar lywodraethu a systemau partneriaid dyfarnu arfaethedig cyn dyfarnu ariannu. Mae'r trefniadau'n cael eu rheoli'n weithredol ac mae trefniadau archwilio mewnol ac allanol priodol yn cael eu cymhwyso hefyd.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr hefyd yn gwneud dyfarniadau i ymddiriedolaethau ar ffurf gwaddolion, sy'n cael eu creu'n benodol fel arfer at ddibenion y dyfarniad. Yn ogystal â gwneud gwaith diwydrwydd dyladwy tebyg cyn y dyfarniad, mae'r Gronfa Loteri Fawr yn penodi Amddiffynnwr annibynnol sydd â phwerau i sicrhau bod y gwaddol yn cael ei gymhwyso'n briodol yn unol â bwriad y Gronfa Loteri Fawr.

## Materion a adnabuwyd yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â mesurau rheoli

- Yn ystod 2011-12 cyflawnwyd 15 adolygiad archwilio mewnol. Pan adnabuwyd gwendidau mewn mesurau rheoli yn ystod yr adolygiadau hyn ac ystyriwyd yn bennaf bod eu heffaith yn isel neu'n gymedrol, ymdriniwyd â nhw. Daethpwyd o hyd i un gwendid mewn mesur rheoli yr ystyriwyd ei fod yn ddigon difrifol i gael effaith sylweddol bosib wrth gyflawni bwriadau gweithredu'r Gronfa Loteri Fawr yn y dyfodol mewn adolygiad o dylunio mesurau rheoli ar gyfer ein system rheoli ariannu newydd, ac ymdrinnir â hynny hefyd cyn bod yn system yn 'mynd yn fyw'. Daethpwyd o hyd i bum gwendid mewn mesurau rheoli yr ystyriwyd eu bod yn ddigon difrifol i gael effaith sylweddol ar gyflawni'r system neu broses benodol mewn adolygiadau o reoli newid, monitro ôl-grant, rheoli risgiau rhaglenni a phrosiectau, diogelwch gwybodaeth a data a datblygu cyllideb rhaglenni grant. Maent oll wedi cael eu datrys neu maent yn cael eu datrys.

Yn ogystal â'r materion a adnabuwyd yn adolygiadau eleni, cymerwyd camau penodol i ymdrin â gwendid a adnabuwyd y llynedd, a ganiataodd i nifer o daliadau fesul cam i ddyfarniadau y cytunwyd arnynt yn flaenorol gael eu gwneud o flaen amser. Ni chollwyd unrhyw arian o ganlyniad i hyn, ond roedd risg y gallai hynny fod wedi digwydd os nad oedd y mudiad a dderbyniodd yr arian yn gallu ei ddychwelyd neu'n fodlon i'w ddychwelyd. Mae mesur rheoli newydd sy'n gofyn am gymeradwyaeth ddwbl ar gyfer pob taliad dros £10,000 wedi cael ei gyflwyno a bydd yn cael ei ymgorffori yn y system rheoli ariannu newydd.

## Colli data

Rydym yn trin ein rhwymedigaethau diogelu gwybodaeth fel mater o'r bwys pennaf ac, o dan weithdrefnau craffu a chynghori'r Pwyllgor Archwilio a Risgiau, aseswn ddigonolrwydd ein mesurau diogelu gwybodaeth yn rheolaidd.

Ni chafwyd unrhyw golledion data personol y gellir adrodd amdanynt yn ystod 2011/12.

## Asesiad cyffredinol o lywodraethu a rheoli mewnol

Yn fy marn i, mae systemau llywodraethu a rheoli mewnol y Gronfa Loteri Fawr yn ddigon i'm galluogi fi i sicrhau cydymffurfiad y Gronfa Loteri Fawr â Deddfau'r Loteri Genedlaethol, Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Segur a'r cyfarwyddiadau polisi, ariannol a gweinyddol a gyhoeddir fel rhan ohonyn nhw.

## Aelodaeth o'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn



**Peter Ainsworth**
Cadeirydd (o 1 Mehefin 2011)
Cadeirydd, Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth
Cadeirydd, Pwyllgor Ariannu'r DU
(o 1 Chwefror 2012)



**Frank Hewitt** CBE
Cadeirydd, Pwyllgor Gogledd Iwerddon



**Anna Southall***
Cadeirydd Dros Dro (tan 31 Mai 2011)
Aelod Cyffredinol ac Is-gadeirydd
(wedi ailddechrau o 1 Mehefin 2011)



**John Gartside** OBE*^
Aelod Cyffredinol



**Sanjay Dighe^**
Cadeirydd, Pwyllgor Lloegr
(tan 31 Mai 2011)



**Alison Magee^**
Cadeirydd, Pwyllgor Yr Alban
(tan 30 Tachwedd 2011)



**Judith Donovan** CBE*
Aelod Cyffredinol
(tan 30 Tachwedd 2011)
Cadeirydd, Pwyllgor Adnoddau
(tan 30 Tachwedd 2011)



**Maureen McGinn**
Cadeirydd, Pwyllgor Yr Alban
(o 1 Rhagfyr 2011)



**Roland Doven** MBE
Aelod Cyffredinol
Cadeirydd, Pwyllgor Archwilio a Risgiau



**Rajay Naik**
Aelod Cyffredinol
Cadeirydd, Pwyllgor Ariannu'r DU
(tan 31 Ionawr 2011)



**Janet Reed** OBE
Cadeirydd Dros Dro,
Pwyllgor Cymru
(tan 31 Rhagfyr 2011)



**Nat Sloane**
Cadeirydd, Pwyllgor Lloegr
(o 1 Mehefin 2011)



**Albert Tucker**
Aelod Cyffredinol
(tan 30 Tachwedd 2011)



**Syr Adrian Webb^**
Cadeirydd, Pwyllgor Cymru
(o 1 Ionawr 2012)



**Diana Whitworth^**
Aelod Cyffredinol

## Aelodau allanol o'r Pwyllgor Archwilio a Risg:

Hilary Gay
Angela Marshall

* Yn nodi aelodaeth o'r Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth

^ Yn nodi aelodaeth o'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn ystod y flwyddyn. Mae aelodaeth o'r Pwyllgor ar sail gylchol.

## Pwyllgorau gwlad

### Mae deg aelod ar Bwyllgor Lloegr:

**Sanjay Dighe** (Cadeirydd) tan 31 Mai 2011
**Nat Sloane** (Cadeirydd) o 1 Mehefin 2011
**Dr Alan Billings**
**Sue Charteris** tan 30 Tachwedd 2011
**John Gartside** OBE
**Scott Greenhalgh** o 1 Rhagfyr 2011
**Geeta Gopalan** o 1 Rhagfyr 2011
**Margaret Hyde** OBE tan 30 Tachwedd 2011
**Steve Richards** o 1 Rhagfyr 2011
**Danny Silverstone**
**Albert Tucker**
**Nalini Varma**
**Geoffrey Wilkinson**

### Mae wyth aelod ar Bwyllgor Yr Alban:

**Alison Magee** (Cadeirydd) tan 30 Tachwedd 2011
**Tim Allan**
**Elizabeth Cameron**
**Helen Forsyth**
**David Green**
**Alistair Grimes**
**Kristofer McGhee** tan 30 Tachwedd 2011
**Maureen McGinn** (Cadeirydd) o 1 Rhagfyr 2011
**Lucy McTernan**
**Shirley Young**

### Mae wyth aelod ar Bwyllgor Cymru:
(un swydd wag ar hyn o bryd)

**Syr Adrian Webb** (Cadeirydd) o 1 Ionawr 2012
**Graham Benfield** OBE
**Fran Targett** OBE
**Gareth Newton**
**Janet Reed** OBE (Cadeirydd Dros Dro tan 31 Rhagfyr 2011)
**Mike Theodoulou**
**Barbara Wilding** CBE, QPM, CCMI

### Mae chwe aelod ar Bwyllgor Gogledd Iwerddon:

**Frank Hewitt** CBE (Cadeirydd)
**Geraldine Campbell**
**Paul Cavanagh**
**Julie Harrison**
**Claire Keatinge**
**Peter Osborne**

## Pwyllgor Ariannu'r DU

| | |
|---|---|
| **Peter Ainsworth** | Cadeirydd y Bwrdd (Cadeirydd, Pwyllgor Ariannu DU o 1 Chwefror 2012) |
| **Rajay Naik** | Aelod Cyffredinol y Bwrdd (Is-gadeirydd, Pwyllgor Ariannu DU o 1 Chwefror 2012; Cadeirydd, Pwyllgor Ariannu DU tan 31 Ionawr 2012) |
| **Anna Southall** | Is-gadeirydd y Bwrdd (o 1 Chwefror 2012) |
| **Judith Donovan** | Aelod Cyffredinol y Bwrdd (tan 30 Tachwedd 2011) |
| **Roland Doven** | Aelod Cyffredinol y Bwrdd (tan 31 Ionawr 2012) |
| **Frank Hewitt** | Cadeirydd, Gogledd Iwerddon |
| **Lucy McTernan** | Aelod Pwyllgor Yr Alban |
| **Mike Theodoulou** | Aelod Pwyllgor Cymru |
| **Diana Whitworth** | Aelod Bwrdd Cyffredinol |
| **Geoff Wilkinson** | Aelod Pwyllgor Lloegr (tan 31 Ionawr 2012) |
| **Steve Richards** | Aelod Pwyllgor Lloegr (o 1 Chwefror 2012 |

## Yr Uwch Dîm Rheoli

**Peter Wanless**
Prif Weithredwr

**Mark Cooke**
Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Ariannol a Chorfforaethol

**Ceri Doyle**
Cyfarwyddwr, Strategaeth Perfformiad a Dysgu

**Linda Quinn**
Cyfarwyddwr, Cyfathrebu a Marchnata

**Robert Atkins**
Dirprwy Gyfarwyddwr Strategaeth a Pherfformiad

**Dharmendra Kanani**
Cyfarwyddwr, Lloegr

**Jackie Kileen**
Cyfarwyddwr, Yr Alban

**Joanne McDowell**
Cyfarwyddwr, Gogledd Iwerddon

**John Rose**
Cyfarwyddwr, Cymru

## Presenoldeb mewn cyfarfodydd bwrdd a phwyllgor yn ystod y flwyddyn

| Aelod | Bwrdd | | Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth | | Pwyllgor Archwilio a Risg | | Pwyllgor Adnoddau | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer y Cyfarfodydd | Presennol Mewn | Nifer y Cyfarfodydd | Presennol Mewn | Nifer y Cyfarfodydd | Presennol Mewn | Nifer y Cyfarfodydd | Presennol Mewn |
| **Peter Ainsworth** | 6 | 6 | | | | | | |
| **Anna Southall** | 7 | 7 | 1 | 1 | | | | |
| **Sanjay Dighee** | 2 | 1 | | | | | | |
| **Judith Donovan** | 4 | 4 | 1 | 1 | | | 2 | 2 |
| **Roland Doven** | 7 | 7 | | | 4 | 4 | | |
| **Frank Hewitt** CBE | 7 | 6 | | | | | 2 | 1 |
| **John Gartside** OBE | 7 | 6 | 1 | 1 | 1 | 1 | 2 | 2 |
| **Alison Magee** | 4 | 4 | | | 3 | 2 | | |
| **Maureen McGinn** | 7 | 6 | | | | | | |
| **Rajay Naik** | 7 | 7 | | | | | 2 | 2 |
| **Janet Reed** OBE | 4 | 4 | | | | | 2 | 2 |
| **Nat Sloane** | 7 | 6 | | | | | | |
| **Albert Tucker** | 4 | 3 | | | | | 2 | 2 |
| **Sir Adrian Webb** | 3 | 1 | | | 1 | 0 | | |
| **Diana Whitworth** Aelod cyffredinol | 7 | 6 | | | 3 | 3 | | |
| **Hilary Gay** Aelod allanol o'r Pwyllgor A a R | | | | | 4 | 3 | | |
| **Angela Marshall** Aelod allanol o'r Pwyllgor A a R | | | | | 2 | 2 | 2 | 2 |

**Peter Wanless**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifon
10 Gorffennaf 2012

# Cofrestr buddiannau

Mae'n rhaid i'n holl aelodau Bwrdd a phwyllgor, ein haseswyr, ein hymgynghorwyr ac aelodau unrhyw banel ymgynghorol ddatgan buddiannau perthnasol o dan ein côd moeseg. Mae'r côd hwn yn cydymffurfio â chôd ymarfer Swyddfa'r Cabinet ar gyfer aelodau Byrddau cyrff cyhoeddus. Mae buddiannau sy'n cael eu datgan gan aelodau Byrddau'n wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan. Mae manylion y cyfryw fuddiannau ar gyfer holl aelodau pwyllgorau sy'n gwneud penderfyniadau ar gael ar gais ysgrifenedig i Bennaeth Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd.

Os bydd y Bwrdd neu bwyllgor yn gwneud unrhyw benderfyniad y gellir tybio'n rhesymol ei fod yn arwain at wrthdaro buddiannau, yn bennaf o ran dyfarnu grantiau i fudiadau ond hefyd o ran unrhyw berthnasoedd masnachol, bydd cadeirydd y cyfarfod yn sicrhau bod unrhyw ddatgeliad yn cael ei wneud ar ddechrau'r cyfarfod a bod yr aelod yn gadael pan gaiff yr eitem berthnasol ei thrafod.

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion dyfarniadau a wnaed i fudiadau lle mae aelodau Bwrdd a phwyllgorau gwlad wedi datgan buddiant cyfredol neu yn y gorffennol.

| Aelod Bwrdd neu Bwyllgor | Natur y berthynas | Cyfanswm dyfarniadau presennol a wnaed i'r mudiad | Dyfarniadau a wnaed i'r mudiad yn ystod 2011/12 | Taliadau a wnaed i'r mudiad yn ystod 2011/12 | Balans grantiau/ dyfarniadau'r mudiad ar 31Mawrth 2012 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Tim Allan** | Cadeirydd, Young Enterprise Scotland | 1 dyfarniad £845,100 | £- | £290,083 | £228,426 |
| | Buddiant, Trossachs Area Community Transport | 1 dyfarniad £419,398 | £- | £9,698 | £25,425 |
| | Aelod, Cymdeithas Frenhinol y Celfyddydau | 1 dyfarniad £500,000 | £- | £84,011 | £338,363 |
| **Graham Benfield** | Prif Weithredwr, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru | 3 dyfarniad, cyfanswm o £728,146 | 3 dyfarniad newydd o £2,043,815 | £505,657 | £2,263,004 |
| **Geraldine Campbell** | Aelod Cysgodol y Pwyllgor Aelodaeth a Safonau, Cyngor ar Bopeth Gogledd Iwerddon | 1 dyfarniad £799,578 | Cynnydd o £319,475 yn y dyfarniad | £329,822 | £579,011 |
| **Paul Cavanagh** | Ymgynghorydd, North West Community Network | 1 dyfarniad £296,217 | £- | £96,850 | £152,408 |
| **Helen Forsyth** | Cyfarwyddwr Adfywio, Places for People | 1 dyfarniad £15,669,999 | Cynnydd o £1,000,000 yn y dyfarniad | £1,353,164 | £791,000 |

| Aelod Bwrdd neu Bwyllgor | Natur y berthynas | Cyfanswm dyfarniadau presennol a wnaed i'r mudiad | Dyfarniadau a wnaed i'r mudiad yn ystod 2011/12 | Taliadau a wnaed i'r mudiad yn ystod 2011/12 | Balans grantiau/ dyfarniadau'r mudiad ar 31Mawrth 2012 |
|---|---|---|---|---|---|
| **John Gartside** | Ymddiriedolwr ac ysgrifennydd cwmni- Tim Parry Jonathan Ball Trust | 3 dyfarniad, cyfanswm o £1,382,066 | £- | £283,364 | £156,562 |
| | Warrington Wolves Community Learning & Sport Foundation – Cyfarwyddwr ac Ymddiriedolwr | 2 ddyfarniad, cyfanswm o £173,960 | £- | £63,268 | £500 |
| **Julie Harrison** | Ymgynghorydd, Bridge Community Association | 1 dyfarniad £956,322 | £- | £188,865 | £557,608 |
| | Ymgynghorydd Cysylltiol, Community Evaluation NI | 1 dyfarniad £84,835 | £- | £42,548 | £10,500 |
| | Ymgynghorydd, East Belfast Independent Advice Centre | 1 dyfarniad £500,000 | £- | £122,356 | £286,393 |
| **Claire Keatinge** | Ymddiriedolwr a Chadeirydd, Rhwydwaith Datblygu Cymunedol ac Iechyd | 1 dyfarniad £499,957 | £- | £98,771 | £234,595 |
| | Aelod Pwyllgor GI, Rethink | 1 dyfarniad £910,888 | 2 ddyfarniad newydd o £968,385 | £207,164 | £1,157,886 |
| **Alison Magee** | Aelod, Cymdeithas Frenhinol y Celfyddydau | 1 dyfarniad £500,000 | £- | £84,011 | £338,363 |
| | Cyfarwyddwr, Partneriaeth Sutherland | 1 dyfarniadf £375,900 | £- | £59,544 | £38,717 |

| Aelod Bwrdd neu Bwyllgor | Natur y berthynas | Cyfanswm dyfarniadau presennol a wnaed i'r mudiad | Dyfarniadau a wnaed i'r mudiad yn ystod 2011/12 | Taliadau a wnaed i'r mudiad yn ystod 2011/12 | Balans grantiau/ dyfarniadau'r mudiad ar 31Mawrth 2012 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Kristofer McGhee** | Cymrawd, The Royal Society for the Arts, Manufacturers and Commerce | 1 dyfarniad £500,000 | £- | £84,011 | £338,363 |
| **Maureen McGinn** | Cadeirydd ac Ymddiriedolwr, Action on Smoking and Health Scotland | 1 dyfarniad £499,662 | Cynnydd o £11,384 yn y dyfarniad | £154,125 | £114,237 |
| | Llysgennad di-dâl, Ymddiriedolaeth Tomorrows People | 2 ddyfarniad o £950,649 | Cynnydd o £9,986 yn y dyfarniad 1 dyfarniad newydd o £320,012 | £370,381 | £693,693 |
| | Aelod Bwrdd Ymgynghorol, Prifysgol Caeredin | 1 dyfarniad £457,134 | £- | £151,526 | £115,445 |
| **Lucy McTernan** | Cyn-Ddirprwy Brif Weithredwr, Cyngor Mudiadau Gwirfoddol Yr Alban | 1 dyfarniad £8,143,844 | £- | £2,161,064 | £912,034 |
| | Prif Weithredwr, Cyngor ar Bopeth Yr Alban, Cyngor ar Bopeth Angus | 1 dyfarniad £794,643 | £- | £148,337 | £644,306 |
| **Peter Osborne** | Aelod Etholedig, Cyngor Bwrdeistref Castlereagh | 1 dyfarniad £1,066,811 | £- | £156,883 | £517,842 |
| | Cyfarwyddwr Anweithredol, Ymddiriedolaeth Iechyd De a Dwyrain Belfast | £- | 1 dyfarniad newydd o £1,487,850 | £- | £1,487,850 |

| Aelod Bwrdd neu Bwyllgor | Natur y berthynas | Cyfanswm dyfarniadau presennol a wnaed i'r mudiad | Dyfarniadau a wnaed i'r mudiad yn ystod 2011/12 | Taliadau a wnaed i'r mudiad yn ystod 2011/12 | Balans grantiau/ dyfarniadau'r mudiad ar 31Mawrth 2012 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Janet Reed** | Ymddiriedolwr, Cyngor Sgowtiaid Cymru | 1 dyfarniad o £142,218 | 1 dyfarniad newydd o £218,078 | £35,639 | £194,568 |
| **Nat Sloane** | Aelod Pwyllgor Ymgynghorol, Social Finance Limited | 2 ddyfarniad, cyfanswm o £11,255,751 | £- | £1,928,541 | £7,827,347 |
| **Fran Targett** | Ymddiriedolwr, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru | 3 dyfarniad, cyfanswm o £728,146 | 3 dyfarniad newydd o £2,043,815 | £505,657 | £2,263,004 |
| | Cyfarwyddwr, Cyngor ar Bopeth Cymru, YMCA Llanymddyfri) | 3 dyfarniad, cyfanswm o £195,302 | £- | £98,224 | £84,873 |
| | Cyfarwyddwr Cyngor ar Bopeth Cymru, Grŵp Cymdeithas Tai'r Rhondda | 5 dyfarniad, cyfanswm o £212,512 | £- | £86,897 | £122,615 |
| | Cyfarwyddwr Cyngor ar Bopeth Cymru, Canolfan Gynghori Ynys Môn | 8 dyfarniad, cyfanswm o £125,868 | £- | £49,799 | £38,688 |
| | Cyfarwyddwr Cyngor ar Bopeth Cymru, Nam ar y Golwg Gorllewin Morgannwg | 1 dyfarniad £51,222 | £- | £25,611 | £25,611 |
| **Mike Theodoulou** | Cadeirydd Gweithredol, Siambr Canolbarth a Gorllewin Cymru | 4 dyfarniad, cyfanswm o £1,562,235 | £- | £562,532 | £940,463 |
| | Cadeirydd Gweithredol, Siambr Canolbarth a Gorllewin Cymru, Ymddiriedolaeth Eglwys Gymunedol Tywi | 3 dyfarniad, cyfanswm o £798,202 | £- | £23,988 | £774,214 |

| Aelod Bwrdd neu Bwyllgor | Natur y berthynas | Cyfanswm dyfarniadau presennol a wnaed i'r mudiad | Dyfarniadau a wnaed i'r mudiad yn ystod 2011/12 | Taliadau a wnaed i'r mudiad yn ystod 2011/12 | Balans grantiau/ dyfarniadau'r mudiad ar 31Mawrth 2012 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Albert Tucker** | Cyfarwyddwr anweithredol, Grŵp Places for People | 1 dyfarniad o £15,669,499 | Cynnydd o £1,000,000 yn y dyfarniad | £1,353,164 | £791,000 |
| **Diana Whitworth** | Prif Weithredwr ar y Cyd, Grandparents Plus | 1 dyfarniad £167,916 | 1 dyfarniad newydd o £316,974 | £92,284 | £239,423 |
| **Geoffrey Wilkinson** | Cyfarwyddwr Anweithredol, Prosiect Eden | 4 dyfarniad, cyfanswm o £5,177,669 | Cynnydd o £164,153 yn y dyfarniad | £1,661,424 | £1,396,360 |
| **Shirley Young** | Darparwr Gwasanaethau Proffesiynol, Kindred (SNIP gynt) | 1 dyfarniad o £1,156,514 | £- | £277,165 | £- |
| | Darparwr Gwasanaethau Proffesiynol, Cyngor Dinas Manceinion | 1 dyfarniad o £1,095,060 | Amrywiad yn y dyfarniad o (-£72,031)<br>1 dyfarniad newydd o £389,240 | £59,293 | £383,843 |
| | Darparwr Gwasanaethau Proffesiynol, Contact a Family SPACE | 7 dyfarniad, cyfanswm o £1,818,919 | £- | £792,583 | £903,709 |

# Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y 12 mis sy'n dod i ben 31 Mawrth 2012 ac yn amlinellu'r polisi a'r datgeliadau mewn perthynas â thâl cydnabyddiaeth uwch reolwyr y Gronfa Loteri Fawr. Mae tudalennau 92 i 123 yr adroddiad hwn wedi bod yn destun adolygiad archwilio.

## Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth

Mae'r Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth, pwyllgor o'r Bwrdd, yn llunio polisi tâl cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr y Gronfa Loteri Fawr. Ar gais Cadeirydd y Pwyllgor, gall y Prif Weithredwr, y Dirprwy Gyfarwyddwr, Adnoddau Dynol neu Swyddogion eraill fod yn bresennol mewn cyfarfodydd neu ar gyfer eitemau penodol ar yr agenda.

Cyfrifoldebau'r pwyllgor yw:

- cytuno ar amodau a thelerau cyflogaeth y Prif Weithredwr
- penderfynu ar arfarniad perfformiad a thâl cysylltiedig y Prif Weithredwr
- cymeradwyo arfarniadau perfformiad a thâl cysylltiedig cyfarwyddwyr, a
- phenderfynu ar delerau diswyddo ar gyfer y Prif Weithredwr a'r cyfarwyddwyr, yn amodol ar unrhyw ganiatâd angenrheidiol gan Swyddfa'r Cabinet neu Drysorlys EM.

## Polisïau tâl cydnabyddiaeth staff uwch

Nod polisi tâl cydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr yw cynnig tâl cydnabyddiaeth sy'n galluogi'r Gronfa Loteri Fawr i ddenu, cadw a symbylu unigolion hynod alluog sydd â'r sgiliau a'r galluoedd i arwain a rheoli'r Gronfa Loteri Fawr. Wrth wneud hynny, mae'r polisi'n ceisio:

- rhoi tâl teg sy'n cydnabod cyfrifoldebau a chyfraniadau unigol, gan ddarparu elfen o dal ar sail perfformiad, a
- chydymffurfio â'r arweiniad blynyddol ar dâl a gyhoeddir gan Drysorlys EM.

## Tâl cydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr

Mae sail tâl cydnabyddiaeth staff uwch wedi'i nodi yn eu contractau cyflogaeth unigol. Mae'r Prif Weithredwr a'r cyfarwyddwyr yn destun amodau a thelerau cyflogaeth safonol y Gronfa Loteri Fawr, gan gynnwys cyfraniadau i Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Mae'r Prif Weithredwr yn gymwys i dderbyn dyfarniad tâl cyfunedig ar yr un lefel â gweddill staff y Gronfa Loteri Fawr. Mae ei gontract yn cynnwys elfen o dâl ar sail perfformiad sy'n cydymffurfio ag arweiniad Trysorlys EM mewn perthynas â phenodi Prif Weithredwyr ar yr adeg y cytunwyd ar ei gontract. Mae hyd at dau y cant o hyn wedi'i gyfuno at ddibenion pensiwn, a thelir balans unrhyw ddyfarniad fel taliad anghyfunol.

Mae cyfarwyddwyr yn derbyn dyfarniad tâl blynyddol cyfunol ar yr un lefel â'r hyn a gyd-drafodwyd ar gyfer staff y Gronfa Loteri Fawr a thaliad bonws ar sail perfformiad nad yw'n gyfunol hyd at wyth y cant o'u cyflog blynyddol. Fodd bynnag, mae tâl Cyfarwyddwyr wedi'i rewi dros y ddwy flynedd diwethaf yn unol â pholisi tâl y llywodraeth.

## Tâl cydnabyddiaeth (gan gynnwys cyflog) a hawliadau pensiwn

Mae'r adrannau a ganlyn yn darparu manylion buddiannau a thâl cydnabyddiaeth rheolwyr uchaf a gweithwyr anweithredol y Gronfa Loteri Fawr, ac ymdrinnir â nhw yn y farn archwilio allanol.

## Tâl cydnabyddiaeth gweithredwyr (cyflog a thâl ar sail perfformiad)

| Gweithredwyr | 2011/12 | | 2010/11 | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyflog £'000 | Taliadau ar Sail Perfformiad £'000 | Cyflog £'000 | Taliadau ar Sail Perfformiad £'000 |
| **Peter Wanless** (Prif Weithredwr) | 140-145 | 15-20 | 140-145 | 20-25 |
| **Mark Cooke** (Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol) | 95-100 | 5-10 | 95-100 | 5-10 |
| **Ceri Doyle** (Cyfarwyddwr, Strategaeth Perfformiad a Dysgu) | 95-100 | 5-10 | 95-100 | 0-5 |
| **Dharmendra Kanani** * (Cyfarwyddwr, Lloegr) | 100-105 | 5-10 | 90-95 | 5-10 |
| **Linda Quinn** (Cyfarwyddwr, Cyfathrebu a Marchnata ) | 75-80 | 0-5 | 75-80 | 0-5 |
| **Joanne McDowell** (Cyfarwyddwr, Gogledd Iwerddon) | 65-70 | 0-5 | 40-45 cyfwerth blynyddol 65-70 | 0-5 |
| **Jackie Killeen** (Cyfarwyddwr, Yr Alban) | 65-70 | 0-5 | 35-35 cyfwerth blynyddol 65-70 | 0-5 |
| **John Rose** (Cyfarwyddwr, Cymru) | 65-70 | 0-5 | 35-40 cyfwerth blynyddol 65-70 | 0-5 |
| **Adrienne Kelbie** (Cyfarwyddwr Gweithrediadau) Gadawodd 9 Gorffennaf 2010 | 0 | 0 | 25-30 cyfwerth blynyddol 100-105 | - |
| **Gerald Oppenheim** (Cyfarwyddwr, Polisi a Phartneriaethau) Gadawodd 30 Medi 2010 | 0 | 0 | 50-55 cyfwerth blynyddol 100-105 | - |
| **Walter Rader** (Cyfarwyddwr, Gogledd Iwerddon) Gadawodd 30 Medi 2010 | 0 | 0 | 40-45 | - |
| **Cyfanswm tâl cydnabyddiaeth band y cyfarwyddwyr â'r tal mwyaf (£'000)** | 155-160 | | 160-165 | |
| **Canolrif y cyfanswm tâl cydnabyddiaeth** | £26,393 | | £26,526 | |
| **Cymhareb** | 6:0:1 | | 6.1:1 | |

* Dharmendra Kanani –Roedd y cynnydd mewn cyflog o ganlyniad i Lwfans Cyfrifoldeb Dros Dro mewn perthynas ag arwain y prosiect BPR.
Er yr ystyrir bod Robert Atkins yn aelod o'r Uwch Dîm Rheoli ar sail bersonol, nid yw wedi'i gynnwys yn tabl isod gan nad yw'n gyfarwyddwyr a'i fod yn destun trefniadau tâl cydnabyddiaeth yr holl staff eraill ar wahân i gyfarwyddwyr

**Cyflog:** Mae 'Cyflog' yn cynnwys cyflog gros; goramser; hawl a gedwir i pwysiad Llundain neu lwfansau Llundain; lwfansau recriwtio a chadw; lwfansau swyddfa preifat ac unrhyw lwfans arall i'r graddau y mae'n destun treth y DU. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau cronnus a wneir gan y Gronfa Loteri Fawr sydd wedi'u cofnodi yn y cyfrifon hyn.

**Buddiannau mewn da:** Mae gwerth ariannol y buddion mewn da'n cynnwys unrhyw fuddiannau a ddarperir gan y Gronfa Loteri Fawr ac sy'n cael eu trin gan Gyllid a Thollau EM fel enillion trethadwy.

Ni thalwyd unrhyw fuddiannau mewn da i unrhyw aelod Bwrdd neu aelod o'r Uwch Dîm Rheoli.

**Tâl ar Sail Perfformiad** Mae'r rhain yn seiliedig ar lefelau perfformiad a gyrhaeddwyd ac yn cael eu gwneud fel rhan o'r broses arfarniadau.

## Lluosrifau tâl

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng tâl cydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr â'r tâl mwyaf yn eu mudiad a thâl cydnabyddiaeth canolrif gweithlu'r mudiad.

Mae'r cyfanswm tâl cydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, tal ar sail perfformiad anghyfunol, buddiannau mewn da yn ogystal â thaliadau diswyddo. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn cyflogwyr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian pensiynau.

Ni chafwyd unrhyw newidiadau sylweddol i nifer y gweithwyr neu dâl cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr â'r tâl mwyaf a effeithiodd ar y gymhareb hon, sef 6.0:1 yn 2011/12 a 6.1:1 yn 2010/11

## Buddiannau pensiwn 2011-12

| 2012 (12 Mis hyd at 31 Mawrth 2012) | Pensiwn cronnus yn 60 oed ar 31/03/12 a chyfandaliad cysylltiedig (£'000) | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn (£'000) | * CETV ar 31/03/12** (£'000) | * CETV ar 31/03/11** (£'000) | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV (£'000) | ECyfraniad y cyflogwr at gyfrif pensiwn partneriaeth (£100 agosaf) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Peter Wanless** (Prif Weithredwr) | 40-45 plws 130 - 135 cyfandaliad | -2.5-0 plws -2.5 - 0 cyfandaliad | 712 | 664 | -10 | - |
| **Mark Cooke** (Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol) | 10-15 plws 0 cyfandaliad | 0-2.5 plws 0 cyfandaliad | 208 | 176 | 14 | - |
| **Ceri Doyle** (Cyfarwyddwr, Strategaeth Perfformiad a Dysgu) | 25-30 plws 0 - 2.5 cyfandaliad | 0-2.5 plws 0 cyfandaliad | 319 | 273 | 21 | - |
| **Dharmendra Kanani** (Cyfarwyddwr, Lloegr) | 15-20 plws 45-50 cyfandaliad | 0-2.5 plws 2.5-5 cyfandaliad | 233 | 194 | 22 | - |
| **Linda Quinn** (Cyfarwyddwr, Cyfathrebu a Marchnata ) | 20-25 plws 70-75 cyfandaliad | -2.5-0 plws -2.5-0 cyfandaliad | 543 | 530 | -6 | - |
| **Joanne McDowell** (Cyfarwyddwr, Gogledd Iwerddon) | 15-20 plws 20-25 cyfandaliad | 0-2.5 plws 0-2.5 cyfandaliad | 232 | 187 | 28 | - |
| **Jackie Killeen** (Cyfarwyddwr, Yr Alban) | 10-15 plws 30-35 cyfandaliad | 0-2.5 plws 5-7.5 cyfandaliad | 134 | 96 | 29 | - |
| **John Rose** (Cyfarwyddwr, Cymru) | 10-15 plws 0 cyfandaliad | 0-2.5 plws 0 cyfandaliad | 129 | 96 | 23 | - |

* Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian (CETV)

** Mae'r ffactorau a ddefnyddir yn y cyfrifiad CETV wedi cael eu diwygio yn ystod y flwyddyn hon. Mae hyn yn golygu y bydd y gwerth CETV agoriadol a ymddengys yn adroddiad eleni yn wahanol i'r swm a ymddengys fel y gwerth CETV olaf yn adroddiad y llynedd.

## Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian (CETV)

Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian (CETV) yw gwerth wedi'i gyfalafu buddiannau'r cynllun pensiwn fel yr aseswyd gan actiwari sydd wedi'i gronni gan aelod ar bwynt penodol mewn amser. Mae'r buddion a brisiwyd yw buddiannau cronnus yr aelod a phensiwn unrhyw briod cysylltiedig a delir o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniad pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau a gronnwyd yn eu cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddiannau y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w cyfanswm aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond eu gwasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddi.

Mae'r ffigurau hefyd yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiant pensiwn mewn cynllun neu drefniad arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i'r trefniadau pensiwn Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiant pensiwn ychwanegol y mae'r aelod wedi'i gronni o ganlyniad iddynt brynu buddiannau pensiwn ychwanegol y maent wedi talu amdanynt eu hunain. Mae CETV yn cael eu cyfrifo yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosib i fudd-daliadau o ganlyniad i Dreth Lwfans Gydol Oes a allai fod yn ddyledus pan ystyrir buddiannau pensiwn.

## Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV sy'n cael ei ariannu gan y cyflogwr. Nid yw'n ystyried y cynnydd mewn pensiwn a gronnwyd oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniad pensiwn arall ac yn defnyddio ffactorau prisio cyffredinol y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Iawndal ar gyfer colli swydd

Ni chafwyd unrhyw ymddeoliadau cynnar gorfodol neu hyblyg neu unrhyw ddiswyddiadau cynnar gorfodol yn ystod y flwyddyn.

## Buddiannau pensiwn

Darperir buddiannau pensiwn drwy Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Rhoddir datgeliadau pensiwn pellach yn nodyn 22.

## Treuliau Cyfarwyddwyr

Ad-delir cyfarwyddwyr ar gyfer mân dreuliau a gafwyd wrth gyflawni eu dyletswyddau ar ran y Gronfa Loteri Fawr ar yr un sail â'r staff eraill. Mae manylion y treuliau hyn ar gael ar y wefan, www.cronfaloterifawr.org.uk

## Cyflogeion â thâl uwch

Mae'r tabl canlynol yn amlinellu nifer y staff, ar sail cyfwerth ag amser llawn, a dderbyniodd dâl cydnabyddiaeth, gan gynnwys taliadau ar sail tâl lle bo'n berthnasol, o £50,000 neu fwy dros y flwyddyn ariannol. Mae'r ffigurau hyn yn eithrio'r cyfarwyddwyr:

| Cyfanswm Tâl Cydnabyddiaeth | Blwyddyn yn Dod i Ben 31 Mawrth 2012 Nifer y staff (CaLIA)) | Blwyddyn yn Dod i Ben 31 Mawrth 2011 Nifer y staff (CaLIA) |
|---|---|---|
| £50,000 - £54,999 | 9.7 | 7.0 |
| £55,000 - £59,999 | 5.6 | 5.0 |
| £60,000 - £64,999 | 4.0 | 5.0 |
| £65,000 - £69,999 | 6.0 | 4.0 |
| £70,000 - £74,999 | 2.0 | 1.0 |
| £75,000 - £79,999 | 1.0 | 2.0 |
| £80,000 - £84,999 | 0 | 1.0 |

## Polisi tâl cydnabyddiaeth aelodau'r Bwrdd

Mae swydd Cadeirydd y Gronfa Loteri Fawr yn benodiad rhan-amser, deuddydd yr wythnos. Mae pedwar cadeirydd y pwyllgorau gwlad hefyd yn rhan-amser, hyd at wyth niwrnod y mis. Penodir a phenderfynir ar dâl cydnabyddiaeth y Cadeirydd a chadeiryddion y pwyllgorau gwlad gan y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet. Mae'r tâl cydnabyddiaeth a dderbynnir gan y Cadeirydd a chadeiryddion y pwyllgorau gwlad wedi'i nodi isod. Nid ydynt yn derbyn unrhyw gyfraniad at bensiwn.

| Cadeiryddion | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 (£) | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 (£) |
|---|---|---|
| **Peter Ainsworth** Cadeirydd, Bwrdd (o 1 Mehefin 2011) | 19,200 | - |
| **Anna Southall** Cadeirydd Dros Dro (tan 31 Mai 2011) Aelod Cyffredinol ac Is-gadeirydd (wedi ailddechrau o 1 Mehefin 2011) | 2,920 | 13,243 |
| **Nat Sloane** Cadeirydd, Pwyllgor Lloegr (o 1 Mehefin 2011) | 20,000 | - |
| **Sanjay Dighe** Cadeirydd, Pwyllgor Lloegr (tan 31 Mai 2011) | 4209 | 25,256 |
| **Syr Adrian Webb** Cadeirydd, Pwyllgor Cymru (o 1 Ionawr 2012) | 4,500 | - |
| **Frank Hewitt CBE** Cadeirydd, Pwyllgor Gogledd Iwerddon | 25,256 | 25,256 |
| **Alison Magee** Cadeirydd, Pwyllgor Yr Alban (tan 30 Tachwedd 2011) | 16,837 | 25,256 |
| **Maureen McGinn** Cadeirydd, Pwyllgor Yr Alban (o 1 Rhagfyr 2011) | 8,000 | - |
| **Janet Reed OBE** Cadeirydd Dros Dro, Pwyllgor Cymru (tan 31 Rhagfyr 2011) | 18,942 | 12,628 |

| Bwrdd | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 (£'000) | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth (£'000) |
|---|---|---|
| **Judith Donovan** Aelod Cyffredinol y Bwrdd (tan 30 Tachwedd 2011) | 9.4 | 11.0 |
| **Roland Doven** | 9.9 | 13.0 |
| **John Gartside** (Hefyd yn aelod o Bwyllgor Lloegr) | 14.1 | 16.1 |
| **Rajay Naik** | 6.3 | 11.1 |
| **Anna Southall** (Is-gadeirydd o fis Hydref 2010 i fis Mai 2011, yna Cadeirydd Interim. Cydnabyddiaeth wedi'i thalu fel Cadeirydd) | 15.6 | 12.7 |
| **Albert Tucker** (Hefyd yn aelod o Bwyllgor Lloegr) | 11.7 | 14.5 |
| **Diana Whitworth** | 9.0 | 8.8 |

Penodir holl aelodau Bwrdd y Gronfa Loteri Fawr gan yr Ysgrifennydd Gwladol am gyfnod penodol. Mae gan aelodau'r Bwrdd hawl i dderbyn tâl cydnabyddiaeth ar gyfer yr amser maent yn ei dreulio ar weithgareddau'r Gronfa Loteri Fawr. Mae'r gweithgareddau hyn, y gall aelodau'r Bwrdd hawlio ffi dyddiol o £218 (2010/11 £218) ar eu cyfer, yn ymwneud yn bennaf â chyfarfodydd yn swyddfeydd y Gronfa. Y gyfradd ddyddiol yw'r hyn a nodir gan DCMS bob blwyddyn. Ni dderbyniodd unrhyw aelod o'r Bwrdd gyfraniadau tuag at eu pensiwn. Yn y dyfodol, y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet fydd yn gyfrifol am benodiadau aelodau Bwrdd a'r gyfradd ddyddiol ar gyfer aelodau'r Bwrdd.

Mae aelodau pwyllgorau gwlad hefyd yn gallu hawlio tâl cydnabyddiaeth ar y gyfradd ddyddiol hon. O 30 Mehefin 2011 mae pob penodai newydd i'r Bwrdd a Phwyllgorau yn cael eu talu ar gyflog penodol sy'n seiliedig ar nifer cytunedig o ddiwrnodau gwaith.

Y cyfanswm taliadau a dalwyd i aelodau'r Bwrdd a phwyllgorau hyd at 31 Mawrth 2012 oedd £197,700 (2010/11 £243,400).

.

| Pwyllgor Lloegr | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 (£'000) | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 (£'000) |
|---|---|---|
| **Dr Alan Billings** | 9.5 | 13.7 |
| **Sue Charteris** (tan 30 Tachwedd 2011) | 4.9 | 5.6 |
| **Scott Greenhalgh** (o 1 Rhagfyr 2011) | 3.3 | - |
| **Geeta Gopalan** (o 1 Rhagfyr 2011) | 3.3 | - |
| **Margaret Hyde** (tan 30 Tachwedd 2011) | 6.8 | 10.3 |
| **Steve Richards** (o 1 Rhagfyr 2011) | 3.3 | - |
| **Danny Silverstone** | 2.7 | 4.8 |
| **Nalini Varma** | 10.6 | 17.3 |
| **Geoffrey Wilkinson** | 10.9 | 12.6 |

| Pwyllgor Cymru | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 (£'000) | BBlwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 (£'000) |
|---|---|---|
| **Graham Benfield** OBE | 1.3 | 2.0 |
| **Fran Targett** OBE | 2.8 | 4.5 |
| **Gareth Newton** | 4.6 | 7.3 |
| **Janet Reed** OBE (Cadeirydd Dros Dro tan 31 Rhagfyr 2011) | 0.7 | 3.3 |
| **Mike Theodoulou** | 7.6 | 9.4 |
| **Barbara Wilding** CBE, QPM, CCMI | 3.8 | 8.0 |

| Pwyllgor Yr Alban | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 (£'000) | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 (£'000) |
|---|---|---|
| **Tim Allen** | 2.6 | 4.0 |
| **Maureen McGinn** (tan 30 Tachwedd 2011) | 3.0 | 6.4 |
| **Elizabeth Cameron** | 2.6 | 3.3 |
| **Helen Forsyth** | 4.7 | 5.3 |
| **David Green** | 4.3 | 4.7 |
| **Alistair Grimes** | 4.7 | 4.8 |
| **Kristofer McGhee** (tan 30 Tachwedd 2011) | 3.3 | 5.5 |
| **Lucy McTernan** | 5.0 | 3.0 |
| **Shirley Young** | 3.9 | 5.4 |

| Pwyllgor Gogledd Iwerddon | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 (£'000) | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 (£'000) |
|---|---|---|
| **Geraldine Campbell** | 2.0 | 4.3 |
| **Paul Cavanagh** | 5.1 | 3.4 |
| **Julie Harrison** | 1.3 | 2.7 |
| **Claire Keatinge** | 1.9 | 1.5 |
| **Peter Osbourne** | 1.2 | 3.1 |

Ad-delir aelodau'r Bwrdd a phwyllgorau am fân dreuliau wrth gyflawni eu dyletswyddau ar ran y Gronfa Loteri Fawr. Mae manylion y treuliau hyn ar gael ar y wefan, www.cronfaloterifawr.org.uk

**Peter Wanless**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifon
10 Gorffennaf 2012

# Ein datganiadau ariannol

## TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD Y RHEOLWR A'R ARCHWILYDD CYFFREDINOL I SENEDD Y DU, CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU, SENEDD YR ALBAN A CHYNULLIAD GOGLEDD IWERDDON

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Gronfa Loteri Fawr ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2012 o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993. a Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Segur 2008. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y Datganiadau o Incwm Cynhwysfawr, Sefyllfa Ariannol, Llif Arian, Newidiadau mewn Ecwiti; a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi o fewn y polisïau cyfrifo a amlinellwyd y tu mewn iddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth y mae'r adroddiad yn disgrifio ei fod wedi'i archwilio.

## Cyfrifoldebau priodol y Gronfa, y Swyddog Cyfrifon a'r archwilydd

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifon, mae'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifon yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am gael ei fodloni eu bod yn darparu barn wir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993. a Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Segur 2008. Cynhaliais fy arolwg yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny'n mynnu fy mod i a fy staff yn cydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

## Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn ymwneud â dod o hyd i dystiolaeth o'r symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigon i roi sicrhad rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd rhag camddatgan materol, p'un ai drwy dwyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesiad o'r canlynol: P'un a yw'r polisïau cyfrifo'n briodol ar gyfer amgylchiadau'r Gronfa Loteri Fawr ac yn cael eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifo arwyddocaol a wneir gan y Gronfa Loteri Fawr; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Ar ben hynny darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blynyddol i adnabod anghysondebau materol gyda'r datganiadau ariannol a archwilir. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau materol, ystyriaf y goblygiadau mewn perthynas â'm tystysgrif i.

Mae'n ofynnol i mi ddod o hyd i ddigon o dystiolaeth i roi sicrhad rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso i'r dibenion yn unol â bwriad Senedd y DU a bod y trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd faterol mae'r gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso yn unol â bwriad Senedd y DU ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Barn am ddatganiadau ariannol

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn darparu barn wir a theg am gyflwr materion y Gronfa Loteri Fawr ar 31 Mawrth 2012 ac am y diffyg ar ôl treth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993, Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Segur 2008 a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddir trwy hynny.

## Barn am faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1993; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn adrannau un, pedwar a phump ar gyfer y flwyddyn ariannol pan baratowyd y datganiadau ariannol yn cyfateb i'r datganiadau ariannol.

## Materion yr adroddaf arnynt trwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd amdano mewn perthynas â'r materion canlynol yr adroddaf amdanynt i chi os, yn fy marn i:

- nad yw cofnodion cyfrifo digonol wedi'u cadw; neu
- os nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio'n cyfateb i'r cofnodion cyfrifo; neu
- os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen ar gyfer fy archwiliad; neu
- os nad yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu cydymffurfiad â chanllawiau Trysorlys EM.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw arsylwadau ynglŷn â'r datganiadau ariannol hyn.

**Amyas C E Morse**
**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

12 Gorffennaf 2012

# Cyfrifon blynyddol

## Datganiad o incwm cynhwysfawr

| | Nodyn | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | |
| **Incwm Loteri** | | | |
| Elw o'r Loteri Genedlaethol | 13 | 770,917 | 773,162 |
| Incwm Buddsoddi o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | 13 | 5,550 | 8,528 |
| Llog banc a llog arall a dderbyniwyd | 2 | 27 | (146) |
| Adennill grantiau | 2 | 3,141 | 5,012 |
| | | 779,635 | 786,556 |
| **Incwm Cyfrifon Segur** | | | |
| Trosglwyddiadau o Reclaim Fund Ltd | 27 | 47,630 | - |
| Llog banc a dderbyniwyd ar arian cyfrifon segur | 27 | 251 | - |
| | | 47,881 | - |
| **Incwm arall** | 2 | 6,456 | 7,237 |
| **Cyfanswm Incwm** | | 833,972 | 793,793 |
| **Gwariant** | | | |
| **Gwariant ar raglenni Loteri** | | | |
| Ymrwymiadau grant a wnaed | 3 | 759,590 | 290,831 |
| Llai ymrwymiadau wedi darfod neu wedi'u diddymu | 3 | (9,383) | (8,037) |
| Trosglwyddo i Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Olympaidd | 21 | 171,728 | 171,728 |
| Gwariant uniongyrchol i gefnogi rhaglenni | 4 | 3,421 | 4,953 |
| | | 925,356 | 459,475 |
| **Gwariant ar y rhaglen cyfrifon segur** | | | |
| Ymrwymiadau grant a wnaed | 27 | 37,990 | - |
| **Costau gweithredu** | | | |
| Costau gweithredu dosbarthu arian Loteri | 5 | 48,960 | 53,103 |
| Costau gweithredu dosbarthu arian cyfrifon segur | 27&5 | 1,970 | - |
| Costau gweithredu a ailgodir | 5 | 6,456 | 7,237 |
| Costau ailstrwythuro a buddsoddi | 8 | 654 | 379 |
| | | 58,040 | 60,719 |
| **Cyfanswm gwariant** | | 1,021,386 | 520,194 |
| **(Diffyg)/gwarged cyn treth** | | (187,414) | 273,599 |
| Treth | 9 | (159) | 146 |
| **(Diffyg)/gwarged ar ôl treth** | | (187,573) | 273,745 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Incwm/gwariant cynhwysfawr arall** | | | |
| Cynnydd/ (gostyngiad) ar ailbrisio buddsoddiadau | 13 | 8,652 | (1,056) |
| **Cyfanswm (gwariant) incwm net cynhwysfawr** | | (178,921) | 272,689 |
| **Arian wrth gefn** | | | |
| Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2011 | | (357,311) | (630,000) |
| Cyfanswm (gwariant)/incwm net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | | (178,921) | 272,689 |
| **Dygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2012** | | (536,232) | (357,311) |

Nid oes gan y Gronfa Loteri Fawr unrhyw enillion neu golledion cydnabyddedig ar wahân i'r rhai uchod. Nid oes unrhyw weithgareddau sydd wedi dod i ben.

# Datganiad o sefyllfa ariannol

| | Nodyn | 31 Mawrth 2012 £'000 | 31 Mawrth 2011 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 10 | 3,773 | 3,847 |
| Asedau anniriaethol | 11 | 11,774 | 5,237 |
| | | 15,547 | 9,084 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Masnachu ac arian arall a dderbynnir | 12 | 28,706 | 16,895 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | | 22,094 | 6,501 |
| Balans buddsoddi yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | 13 | 398,843 | 523,406 |
| | | 449,643 | 546,802 |
| **Cyfanswm asedau** | | 465,190 | 555,886 |
| **Ymrwymiadau cyfredol** | | | |
| Masnachu ac arian arall a delir | 14 | (13,179) | (5,425) |
| Ymrwymiadau grant | 16 | (473,063) | (450,550) |
| | | (486,242) | (455,975) |
| **Asedau anghyfredol llai ymrwymiadau net cyfredol** | | (21,052) | 99,911 |
| **Ymrwymiadau anghyfredol** | | | |
| Masnachu ac arian arall a delir | 14 | (1,541) | (1,726) |
| Ymrwymiadau grant | 16 | (506,394) | (447,177) |
| | | (507,935) | (448,903) |
| **Darpariaethau** | 15 | (7,245) | (8,319) |
| **Asedau llai ymrwymiadau** | | (536,232) | (357,311) |
| **Cynrychiolwyd gan:** | | | |
| **Arian wrth gefn y Loteri** | | (544,153) | (357,311) |
| **Arian wrth gefn cyfrifon segur** | | 7,921 | - |
| | | (536,232) | (357,311) |

Llofnodwyd ar ran Bwrdd y Gronfa Loteri Fawr ar 10 Gorffennaf 2012.

**Peter Wanless**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifon

**Peter Ainsworth**
Cadeirydd

Mae'r nodiadau ar dudalennau 96 i 123 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad llif arian

| | Nodyn | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Arian a dynnwyd i lawr o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | | 909,682 | 731,370 |
| Trosglwyddiadau o Reclaim Fund Ltd (Cyfrifon Segur) | | 47,630 | - |
| Taliadau sy'n gysylltiedig â Chyfrifon Segur | | (39,863) | - |
| Adennill grantiau ac arian o ffynonellau eraill | | 3,141 | 5,012 |
| Incwm arall | | 6,463 | 6,431 |
| Llog a dderbyniwyd | | 278 | (146) |
| Taliadau i gyflenwyr | | (21,564) | (27,426) |
| Taliadau i weithwyr ac ar eu rhan | | (34,381) | (36,803) |
| Taliadau i dderbynyddion grantiau | | (665,382) | (512,493) |
| Trosglwyddiad i OLDF | | (171,728) | (171,728) |
| Arian a dalwyd ac a gadwyd gan drydydd partïon | | (11,598) | 3,740 |
| Treth a dalwyd ar y llog a dderbyniwyd | | (8) | (990) |
| **Llif arian net o weithgareddau gweithredu** | 19 | 22,670 | (3,033) |
| | | | |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Taliadau i gaffael eiddo, peiriannau a chyfarpar | | (540) | (279) |
| Taliadau i gaffael asedau anniriaethol | | (6,537) | (3002) |
| | | (7,077) | (3,281) |
| | | | |
| **Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian parod** | | 15,593 | (6,314) |
| | | | |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod** | | | |
| Balansau arian parod a ddygwyd ymlaen | | 22,094 | 6,501 |
| Llai balansau arian parod a ddygwyd ymlaen | | (6,501) | (12,815) |
| | | | |
| **Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian parod** | | 15,593 | (6,314) |
| | | | |
| **Datganiad o newidiadau mewn ecwiti** | | | |
| **Arian wrth gefn cyffredinol** | | | |
| Balans a ddygwyd ymlaen | | (357,311) | (630,000) |
| Cyfanswm gwariant cynhwysfawr | | (178,921) | 272,689 |
| Balans a ddygwyd ymlaen | | (536,232) | (357,311) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 96 i 123 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau i'r cyfrifon

## 1. Datganiad o bolisïau cyfrifo

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2011/12 a gyhoeddir gan Drysorlys EM a'r Cyfarwyddiadau Cyfrifon a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon yn unol ag Adran 36A (2) Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 (fel y'i diwygir gan Ddeddfau'r Loteri Genedlaethol 1998 a 2006) a gofynion Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Segur 2008. Mae'r polisïau cyfrifo sydd wedi'u cynnwys yn y FReM yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) wedi'u haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Pan fydd y FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifo, dewiswyd y polisi cyfrifo y bernir ei fod fwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau penodol y Gronfa Loteri Fawr at ddiben darparu barn wir a theg. Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan y Gronfa Loteri Fawr ar gyfer 2011/12 isod. Maent wedi cael eu cymhwyso'n gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyrir eu bod yn faterol i'r cyfrifon. Nid ydym wedi mabwysiadu unrhyw IFRS a gyhoeddwyd nad yw wedi dod i rym eto.

## 1.1 Confensiwn cyfrifo

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn costau hanesyddol. Ystyrir bod cost gyfredol yn brocsi ar gyfer gwerth teg.

Ar gyfer 2011/12 nid yw'r Gronfa Loteri Fawr yn credu bod costau cyfredol yn sylweddol wahanol i'r costau hanesyddol a ddangosir yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol. Heb gyfyngu ar yr wybodaeth a roddir, mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion cyfrifo a datgelu'r Ddeddf Cwmnïau, FReM a Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, lle bo'n briodol.

## 1.2 Busnes gweithredol

Paratowyd y cyfrifon blynyddol ar sail busnes cyfredol. Ymgymerwyd ag ymrwymiadau grantiau ar gyfer y blynyddoedd i ddod ar ôl ystyried gofynion arian parod derbynyddion grantiau (gellir ymestyn y rhain dros dair i bum mlynedd) ac ar ôl ystyried y rhagamcaniadau incwm a ddarparwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gan gynnwys trosglwyddo arian i Ddosbarthwr Loteri'r Gemau Olympaidd. Wrth ystyried incwm y dyfodol mae'r Bwrdd yn tybio fel mater o bolisi cyhoeddus y bydd y Loteri yn parhau i weithredu. Mae'r Bwrdd wedi cymryd effaith y newidiadau i'r gyfran incwm y cytunwyd arni gan Senedd y DU i ystyriaeth.

## 1.3 Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol

Mae'r balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (NLDF) yn parhau o dan stiwardiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon. Er hynny, mae cyfran y balans hwn y gellir ei phriodoli i'r Gronfa Loteri Fawr i'w gweld yn y cyfrifon ac, ar 31 Mawrth 2012, wedi'i chadarnhau gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon fel arian sydd ar gael ar gyfer ei ddosbarthu gan y Gronfa Loteri Fawr mewn perthynas ag ymrwymiadau presennol ac yn y dyfodol.

## 1.4 Eiddo, peiriannau a chyfarpar

Mae eiddo, peiriannu a chyfarpar wedi'u cydnabod yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol am y gost, ac eithrio eitemau â chost o lai na £2,000 sy'n cael eu dibrisio i'r Datganiad Incwm Cynhwysfawr ym mlwyddyn eu caffael.

Darperir dibrisiant yn unol â'r cyfraddau a gyfrifwyd i ddileu prisiau'r asedau ar sail llinell wastad yn ystod amcangyfrif o'u hoes ddefnyddiol, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Gwelliannau prydles | Dros gyfnod y brydles |
| Cyfarpar TG | 3 blynedd |
| Offer, dodrefn a ffitiadau Swyddfa | 3 blynedd |

## 1.5 Asedau anniriaethol

Yn unol ag IAS 38 'Asedau Anniriaethol', ystyrir bod costau datblygu y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i ddylunio a phrofi'r cynnyrch meddalwedd rheoli grantiau adnabyddadwy ac unigryw yn ased anniriaethol. Mae costau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol yn cynnwys ffioedd contractwyr allanol a chostau cyflogyddion. Yn dilyn cydnabyddiaeth gychwynnol o'r asedau rydym yn amorteiddio ar sail linol dros y bywyd defnyddiol amcangyfrifedig fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Meddalwedd y system ariannu | 10 mlynedd |
| Gwefan | 5 mlynedd |

Ar gyfer asedau sy'n cael eu hadeiladu, nid ydym yn amorteiddio.

## 1.6 Cronfa bensiwn

Mae gweithwyr yn rhan o ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), cynllun pensiwn amlgyflogwr heb ei ariannu â buddion diffiniedig. Telir buddiannau pensiwn gan y PCSPS. Mae cyfrifoldebau'r Gronfa Loteri Fawr wedi'u cyfyngu i gost, sydd wedi'i osod gan Brif Actwari'r Llywodraeth, sy'n gysylltiedig â chyflogau a delir ym mhob blwyddyn

## 1.7 Prydlesi gweithredol

### Prydlesai

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn dosbarthu prydlesi lle nad oes ganddi risgiau a gwobrwyon perchnogaeth sylweddol fel prydles weithredol yn unol ag IAS 17 'Prydlesi'. Codir costau prydlesi gweithredol a ddelir gan y Gronfa Loteri Fawr ar y Datganiad Incwm Cynhwysfawr (net o gyfnodau di-rent) dros y cyfnod y maent yn berthnasol iddo. Dosrennir buddiannau cyfnodau di-rent ar brydlesi dros y cyfnod hyd at ddiwedd y brydles ar sail linol.

Ar 31 Mawrth 2012, mae holl brydlesi eiddo'r Gronfa Loteri Fawr wedi'u dosbarthu fel prydlesi gweithredol. Ni ellir dyrannu'r taliadau prydles ar gyfer eiddo'n ddibynadwy rhwng y cydrannau tir ac adeiladau.

Fodd bynnag, mae'n glir nad yw dwy elfen y trefniadau prydles yn trosglwyddo holl risgiau a gwobrwyon y berchnogaeth yn sylweddol i'r Gronfa Loteri Fawr ac felly mae'r ddwy elfen wedi cael eu dosbarthu fel prydlesi gweithredol.

### Prydleswr

Os yw'r Gronfa Loteri Fawr wedi darparu cymhelliant di-rent neu gymhelliant arall i denant, dosrennir cost y cymhelliant hwn dros y cyfnod hyd at pwynt y toriad rhent neu ddyddiad darfod y brydles, p'un bynnag a ddaw yn gyntaf ar sail linol.

## 1.8 Gwariant ar raglenni

Mae Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 yn gwneud darpariaeth i'r Gronfa Loteri Fawr ddosbarthu grantiau i ariannu neu gynorthwyo ariannu prosiectau a gwneud neu gychwyn trefniadau sydd â'r nod o dalu am wariant sy'n elusennol neu'n gysylltiedig ag iechyd, addysg neu'r amgylchedd fel y pennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

### Cynigion ac ymrwymiadau grant

Mae'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn datgan ei bod yn ofynnol gwahaniaethu rhwng ymrwymiadau meddal ac ymrwymiadau caled.

Diffinnir ymrwymiadau caled fel swm y grant sy'n daladwy dros gyfnod y cynllun y mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi llunio cytundeb ysgrifenedig ar ei gyfer gyda'r ymgeisydd. Codir ymrwymiadau caled ar y Datganiad Incwm Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn pan lofnodir y contractau. Dangosir yr ymrwymiadau caled ar y Datganiad o Sefyllfa Ariannol fel ymrwymiad, ac mae'r balans yn cael ei ostwng wrth i daliadau gael eu rhyddhau i dderbynyddion grantiau.

Diffinnir ymrwymiadau meddal fel cytundeb mewn egwyddor gan y Gronfa Loteri Fawr i ariannu cynllun a chynnig grant a wneir i'r ymgeisydd nad yw'r ymgeisydd wedi'i dderbyn yn ffurfiol eto. Dangosir y rhain fel nodyn i'r cyfrifon ond nid ydynt yn cael eu trin fel rhan o'r Datganiad Incwm Cynhwysfawr.

**Grantiau sy'n cael eu had-dalu a'u hadennill**
Mae amodau grant y Gronfa Loteri Fawr yn caniatáu adennill ac ad-dalu grantiau a dalwyd. Gall hyn ddigwydd os bydd deiliaid grant yn methu â chydymffurfio â'r amodau a thelerau neu os yw'r union wariant gan ddeiliaid yn is na'r grant sydd wedi'i dalu ar sail amcangyfrif o'r costau.

Mae arian sy'n cael ei adennill yn cael ei gydnabod fel incwm wrth dderbyn yr ad-daliad.

**Gwariant uniongyrchol ar raglenni**
Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn cofnodi costau a gafwyd wrth gyflwyno gwasanaethau'n uniongyrchol i fuddiolwyr neu dderbynyddion grantiau'n unol â'u trefniadau polisi o dan Adran 43 Deddf y Loteri Uniongyrchol fel 'gwariant uniongyrchol ar raglenni'. Er enghraifft, darparu strwythurau cefnogi ymgeiswyr a derbynyddion grantiau a sicrwydd ansawdd er budd uniongyrchol derbynyddion grantiau.

## 1.9 Treth
Codir treth gorfforaethol ar sail y gyfraith dreth sydd mewn grym ar ddyddiad y sefyllfa ariannol. Codir y dreth hon ar log a dderbyniwyd ar falansau arian a ddelir mewn cyfrifon banc masnachol.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi'i chofrestru ar gyfer Treth ar Werth (TAW). Codir ac adenillir TAW ar weithgareddau'r Gronfa Loteri Fawr sy'n cydymffurfio â'r diffiniad o weithgareddau busnes a amlinellir yn y ddeddfwriaeth TAW. Mae hyn yn cynnwys llawer o'n gweithgareddau Trydydd Parti.

## 1.10 Arian parod a chyfwerth ag arian parod
Mae arian parod yn cynnwys arian mewn llaw ac adneuon ar-alw a ddelir gyda banciau masnachol.

## 1.11 Darpariaethau
Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn adnabod darpariaeth mewn sefyllfa fel a ganlyn:

1. mae rhwymedigaeth gyfreithiol o ganlyniad i benderfyniad yn y gorffennol
2. mae'n debygol y bydd angen adnoddau i setlo'r rhwymedigaeth
3. gellir amcangyfrif y swm yn ddibynadwy.

Ar hyn o bryd mae gan y Gronfa Loteri Fawr ddarpariaethau ar gyfer ailstrwythuro costau a thrafodion prydles beichus.

## 1.12 Rheoli grantiau
**Partneriaid dirprwyedig**
Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi ymgymryd â chytundebau lle mae nifer o gyrff dirprwyedig yn mynd i weithredu fel mudiadau arweiniol wrth gyflwyno cynlluniau grantiau. Wrth wneud hyn mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi dirprwyo'r swyddogaeth gwneud penderfyniadau am grantiau statudol i fudiadau eraill. Cofnodir yr arian a roddir ymlaen llaw i bartneriaid dirprwyedig er mwyn talu am ymrwymiadau caled  nad ydynt wedi'u talu ar ddiwedd y flwyddyn fel ased cyfredol nes bod y Gronfa Loteri Fawr yn derbyn cadarnhad bod ymrwymiadau grant wedi'u bodloni.

**Ymddiriedolaethau**
Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi gwneud dyfarniadau i gwmnïau cyfyngedig trwy warant newydd sy'n gweithredu fel unig ymddiriedolwr mewn ymddiriedolaethau elusennol newydd. Cofnodir ariannu a ddyfernir i'r ymddiriedolaethau hyn fel rhwymedigaeth nes bod y Gronfa Loteri Fawr yn gwneud taliadau i'r ymddiriedolaethau. Nid yw'r symiau a ddelir gan yr ymddiriedolaeth wedi'u dangos fel asedau o fewn y Gronfa Loteri Fawr.

### Cynlluniau ar y cyd
Os yw'r Gronfa Loteri Fawr yn ymwneud â chynllun ar y cyd, fel a ddiffinnir yn Neddf y Loteri Genedlaethol 1998, cyfrifir ymrwymiadau caled a wneir mewn perthynas â'r cynllun ar y cyd ar sail cyfran y Gronfa Loteri Fawr o'r cynllun. Cofnodir yr arian a roddir ymlaen llaw i'r cynllun ar y cyd at ddiben talu ymrwymiadau caled fel ased cyfredol nes bod y Gronfa Loteri Fawr yn

derbyn cadarnhad bod yr ymrwymiadau grantiau wedi'u bodloni. Mae'r costau gweinyddu wedi'u cynnwys yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr yn unol â'r swm a godir ar y Gronfa Loteri Fawr.

## 1.13 Asedau trydydd parti

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn cadw rhai asedau sy'n perthyn i drydydd parti fel ceidwad. Nid yw'r rhain yn gyfrifon cydnabyddedig gan nad oes gan y Gronfa Loteri Fawr fudd uniongyrchol ynddynt. Mae'r balansau banc a ddelir ar ran trydydd partïon wedi'u dangos yn nodyn 25.

## 1.14 Offerynnau ariannol

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn adolygu pob contract yn erbyn IAS 39 mewn perthynas â chydnabod a mesur offerynnau ariannol. Mae'r asedau a'r rhwymedigaethau yr ystyrir eu bod yn ariannol eu natur wedi'u hamlinellu yn nodyn 20. Nid yw'r Gronfa Loteri Fawr yn dal unrhyw offerynnau ariannol cymhleth.

## 1.15 Adrodd cylchrannol

Yn unol ag IFRS 8 mae Bwrdd y Gronfa Loteri Fawr, fel 'Prif Gorff Gwneud Penderfyniadau Gweithredol', wedi nodi bod y Gronfa Loteri Fawr yn gweithredu mewn pum segment daearyddol materol er mwyn dosbarthu ariannu ar draws Prydain Fawr, sef y DU, Cymru, Lloegr Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae gan y Gronfa Loteri Fawr ffynhonnell incwm sylweddol gan y Loteri, ac mae'r fformat adrodd cylchrannol yn adlewyrchu strwythur rheoli ac adrodd mewnol y Gronfa Loteri Fawr. Gweithredir rhai rhaglenni ar draws y DU gyfan ac adroddir yn annibynnol ar y rhain i'r pedair gwlad.

## 1.16 Cyfrifon Segur

Mae'r Arian Cyfrifon Segur wedi'u cymryd i ystyriaeth o dan yr un polisïau ag Arian Loteri, gyda'r symiau wedi'u gwahaniaethu yn y datganiadau ariannol hyn. Rhoddir manylion pellach yn nodyn 27. Er eglurder, mae datganiadau ariannol memorandwm sy'n ymwneud ag Arian Cyfrifon Segur yn unig wedi'u cynnwys ar dudalen 122.

## 1.17 Safonau Adrodd sydd wedi'u cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu eto

Nid yw FReM y Trysorlys yn mynnu bod y Safonau a'r Dehongliadau a ganlyn yn cael eu cymhwyso yn 2011/12. Ni fyddai cymhwysiad y safonau fel y'u diwygir yn cael effaith faterol ar y cyfrifon ar gyfer 2011-12 petaent wedi cael eu cymhwyso yn ystod y flwyddyn honno.

| | |
|---|---|
| **IAS 1** | Cyflwyno datganiadau ariannol (Incwm Cynhwysfawr Arall) - yn amodol ar ymgynghori |
| **IAS 12** | Trethi Incwm (diwygiad) - yn amodol ar ymgynghori |
| **IAS 19** | Buddiannau ôl-cyflogaeth (pensiynau) - yn amodol ar ymgynghori |
| **IAS 27** | Datganiadau Ariannol ar Wahân - yn amodol ar ymgynghori |
| **IAS 28** | Buddsoddiadau mewn Cymdeithion a Mentrau ar y Cyd - yn amodol ar ymgynghori |
| **IFRS 7** | Offerynnau Ariannol: Datgeliadau (gwelliannau blynyddol) - effeithiol 2012/13 |
| **IFRS 9** | Offerynnau Ariannol - yn amodol ar ymgynghori |
| **IFRS10** | Datganiadau Ariannol Cyfunedig - yn amodol ar ymgynghori |
| **IFRS11** | Trefniadau ar y Cyd - yn amodol ar ymgynghori |
| **IFRS12** | Datgelu Buddiannau mewn Endidau Eraill - yn amodol ar ymgynghori |
| **IFRS 13** | Mesur Gwerth Teg - yn amodol ar ymgynghori |
| **IPSAS 32** | Trefniad Consesiynau Gwasanaeth - yn amodol ar ymgynghori. |

## 2. Incwm

Mae adenillion grant o £3,141,000 (2010/11 £5,012,000) yn cynrychioli incwm a ddychwelwyd gan ddeiliaid grantiau (gweler nodyn 1.8).

Mae addasiad llog y banc yn ymwneud â gorddatganiad hanesyddol o'r llog banc a dderbynnir, sydd wedi cael ei gywiro yn ystod y flwyddyn.

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 £'000 |
|---|---|---|
| **Llog banc a llog arall a dderbynnir** | | |
| Llog banc a dderbyniwyd | 27 | 27 |
| Addasiad yn llog y banc | - | (173) |
| | 27 | (146) |
| **Incwm arall** | | |
| Incwm o gyflwyno ariannu nad yw'n dod o'r Loteri | 4,112 | 4,468 |
| Incwm o gyflwyno arian y Loteri ar ran dosbarthwyr eraill | 310 | 514 |
| Incwm rhent | 1,828 | 1,854 |
| Arall | 206 | 401 |
| | 6,456 | 7,237 |

Mae incwm arall yn gysylltiedig ag ailgodi taliadau gan y Gronfa Loteri Fawr ar gyfer rheoli rhaglenni grant ar ran mudiadau eraill. Mae hefyd yn cynnwys incwm rhent pan fydd y Gronfa Loteri Fawr yn isosod eiddo.

## 3. Gwariant ar raglenni

Mae IFRS 8 yn gofyn am ddatgelu data ariannol fesul cylchran adroddadwy.  Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn rheoli ac yn adrodd am weithgareddau dyfarnu grantiau fesul cylchrannau daearyddol. Serch hynny nid yw costau gweithredu'n cael eu rheoli a'u hadrodd ar sail gylchrannol.

Nid yw'r Gronfa Loteri Fawr yn dyrannu incwm ond yn rheoli pob cyfran ddaearyddol trwy bennu cyllidebau grant. Fel yr amlinellir yn adran pedwar yr adroddiad blynyddol, pennir cyllidebau grant yn seiliedig ar yr adnoddau ariannol sydd ar gael. Mae'r Bwrdd wedi dyrannu ariannu dangosol i bob gwlad ar gyfer Cynllun Strategol 2009-2015 ar ôl i gyfran o'r gyllideb, hyd at 10 y cant, cael ei brigdorri ar gyfer rhaglenni'r DU. O'r gyllideb sy'n weddill mae Lloegr yn derbyn 77.5 y cant;  Yr Alban 11.5 y cant Cymru 6.5 y cant a Gogledd Iwerddon 4.5 y cant. Dros gyfnod y cynllun mae gan bob pwyllgor gwlad ddisgresiwn, o fewn cyfyngiadau penodol, o ran cyflwyno penderfyniadau grant. Mae'r tabl isod yn amlinellu hymrwymiadau grant wedi'u codi ar y Datganiad Incwm Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn.

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 £'000 | | | | | | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | DU | Lloegr | Yr Alban | Cymru | Gogledd Iwerddon | **Cyfanswm** | |
| Ymrwymiadau grant a wnaed | 112,603 | 497,483 | 77,620 | 49,174 | 22,710 | 759,590 | 290,831 |
| Llai ymrwymiadau sydd wedi darfod ac wedi'u diddymu | (773) | (6,937) | (536) | (598) | (539) | (9,383) | (8,037) |
| **Ymrwymiadau grant net a wnaed** | 111,830 | 490,546 | 77,084 | 48,576 | 22,171 | 750,207 | 282,794 |

## 4. Gwariant uniongyrchol i gefnogi rhaglenni

Costau yn ymwneud â gwariant er budd uniongyrchol derbynyddion trydydd parti a wnaed fel rhan o gontract yn hytrach na dyfarniad grant.

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 £'000 |
|---|---|---|
| Cefnogaeth a ddarperir yn uniongyrchol i ymgeiswyr a derbynyddion grantiau | 3,421 | 3,518 |
| Dyfarniad Scottish Youth Football | - | 1,435 |
| | 3,421 | 4,953 |

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi ymrwymo i'r contractau canlynol a fydd yn darparu cefnogaeth uniongyrchol i fuddiolwyr. Cyfrifir am y gwariant pan fydd y gwasanaethau sy'n destun y contract yn cael eu darparu.
Ar 31 Mawrth roedd yr ymrwymiadau ariannol canlynol yn ddyledus ar y contractau hyn.

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 £'000 |
|---|---|---|
| Highlands and Islands Enterprise – Contract cefnogi Growing Community Assets | - | 144 |
| 18 Contract (2010/11 6) i gyflwyno'r rhaglen Sgiliau Bywyd yng Nghymru | 4,406 | 4,403 |
| 5 (2010/11: 4) contractau cefnogi a datblygu eraill | 10,809 | 2,774 |

## 5. Costau gweithredu

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 | | | | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 |
|---|---|---|---|---|---|
| | Costau gweithredu dosbarthu incwm y Loteri £'000 | Costau gweithredu a ailgodir £'000 | Costau gweithredu dosbarthu arian Cyfrifon Segur £'000 | Cyfanswm costau gweithredu £'000 | Cyfanswm costau gweithredu £'000 |
| Tâl cydnabyddiaeth gweithwyr | 30,485 | 2,449 | 260 | 33,194 | 35,329 |
| Teithio a threuliau | | | | | |
| – Staff | 1,504 | 79 | 4 | 1,587 | 1,575 |
| – Aelodau bwrdd a phwyllgor | 59 | - | - | 59 | 79 |
| Taliadau o dan brydlesi gweithredu: | | | | | |
| – Eiddo | 2,982 | 2,149 | 33 | 5,164 | 5,117 |
| – Arall | (96) | - | - | (96) | 467 |
| Costau llety eraill | 2,817 | - | - | 2,817 | 2,725 |
| Costau cyfathrebu | 1,991 | 100 | 10 | 2,101 | 2,478 |
| Cefnogaeth allanol ar gyfer rhaglenni grant | 630 | 81 | 3 | 714 | 1,415 |
| Gwerthuso rhaglenni | 631 | 54 | 4 | 689 | 1,039 |
| Recriwtio a hyfforddi staff | 1,044 | 8 | - | 1,052 | 1,066 |
| Ffioedd proffesiynol | 718 | 1,188 | 3 | 1,909 | 2,542 |
| Tâl archwilwyr ar gyfer gwaith archwilio[1] | 104 | - | - | 104 | 106 |
| Tâl archwilwyr ar gyfer gwaith ardystio grantiau (Swyddfa Archwilio Cymru) | 19 | 5 | - | 24 | 5 |
| Costau'r isadeiledd TG | 2,172 | - | - | 2,172 | 1,678 |
| Costau a ailgodir gan y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet | - | - | 1,630 | 1,630 | - |
| Costau eraill | 528 | - | 23 | 551 | 867 |
| TAW | 2,758 | 343 | - | 3,101 | 3,220 |
| Eitemau anariannol: | | | | | |
| – Dibrisio | 614 | - | - | 614 | 632 |
| – Dibrisio eiddo, peiriannau a chyfarpar | - | - | - | - | - |
| | 48,960 | 6,456 | 1,970 | 57,386 | 60,340 |

[1] Nid yw'r Swyddfa Archwilio Lleol wedi cael ei thalu ar gyfer unrhyw waith nad yw'n ymwneud ag archwilio a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn.

## 6.Dangosydd perfformiad ariannol

Ein dangosydd perfformiad ariannol yw'r ganran o'n cyfran o incwm Loteri rydym yn ei gwario ar ei dosbarthu. O'r mesur hwn rydym yn eithrio costau rydym yn eu hailgodi ar bobl eraill, gan gynnwys costau dosbarthu arian Loteri ac arian nad yw'n dod o'r Loteri ar gyfer mudiadau eraill ac eiddo a isosodir. Rydym hefyd yn eithrio costau unigol buddsoddiad i wella effeithlonrwydd yn y dyfodol. Ar y sail hon, 6.3 y cant o'r incwm hwnnw (2010/11 6.8 y cant) oedd cost dosbarthu ein cyfran o incwm Loteri.

| | **Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 Cyfanswm £'000** | **Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 Cyfanswm £'000** |
|---|---|---|
| Costau gweithredu ar gyfer dosbarthu incwm y Loteri | 48,960 | 53,103 |
| Elw o'r Loteri Genedlaethol | 770,917 | 773,162 |
| Incwm Buddsoddi | 5,550 | 8,528 |
| | 776,467 | 781,690 |
| Canran | 6.3% | 6.8% |

## 7. Nifer a chostau staff

Roedd cyfanswm cost y staff, gan gynnwys tâl cydnabyddiaeth aelodau'r Bwrdd, fel a ganlyn:

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 Cyfanswm £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|
| Tâl a chyflogau | 26,951 | 28,059 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 2,196 | 2,179 |
| Costau pensiwn eraill | 4,740 | 4,884 |
| Costau staff asiantaeth | 691 | 1,446 |
| Cyflogau wedi'u cyfalafu | (1,384) | (1,024) |
| | 33,194 | 35,544 |

Mae'r costau hyn yn cynnwys £110,441 ar gyfer staff ar secondiad gyda mudiadau eraill. Mae adenillion o £106,006 wedi'u cynnwys gydag incwm arall. Mae cyflog a hawliau pensiwn aelodau uwch dîm rheoli a Bwrdd y Gronfa Loteri Fawr wedi'u cynnwys uchod; mae manylion wedi'u datgelu yn yr Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth. Nid yw'n bosib nodi nifer a chost yr aelodau staff o fewn y cyfanswm nad ydynt wedi'u cyflogi ar sail barhaol, ac eithior'r rhai a gyflogir drwy asiantaethau.

Mae cyflogau wedi'u cyfalafu'n ymwneud â phobl sy'n gweithio ar y prosiect BPR ac maent wedi'u cynnwys mewn Meddalwedd Ariannu sy'n cael ei ddatblygu o dan Asedau Anniriaethol (nodyn 11).

Roedd nifer cyfartalog y gweithwyr cyfwerth ag amser llawn a staff dros dro yn gweithio i'r Gronfa Loteri Fawr yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 | | | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer cyfartalog y staff dros dro (CaALI) | Nifer cyfartalog y gweithwyr (CaALI) | Cyfanswm nifer cyfartalog y staff (CaALI) | Cyfanswm nifer cyfartalog y staff (CaALI) |
| Dyfarnu grantiau | 19 | 562 | 581 | 605 |
| Cefnogi cwsmeriaid a budd-ddeiliaid | 3 | 173 | 176 | 186 |
| Llywodraethu a gweinyddu | 4 | 160 | 164 | 170 |
| Staff sy'n ymwneud â phrosiectau cyfalaf | - | 30 | 30 | 21 |
| | 26 | 925 | 951 | 982 |

Ar 31 Mawrth 2012 roedd y Gronfa Loteri Fawr yn cyflogi 955 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn (2010/11 994). Roedd hyn yn cynnwys 33 o weithwyr dros dro cyfwerth ag amser llawn (2010/11 75)

## Pecynnau ymadael

Er nad yw cyflogeion y Gronfa Loteri Fawr yn weision sifil, mae eu telerau cyflogaeth yn darparu ar gyfer taliadau terfynu a phensiynau ymddeol yn gynnar wedi'u cyfrifo yn yr un modd â Chynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil. Telir cost y buddiannau hyn gan y Gronfa Loteri Fawr ac nid o Gronfeydd y Gwasanaeth Sifil na'r Trysorlys

| Band costau'r pecyn ymadael | Nifer y diswyddiadau gorfodol | Nifer y ymadawiadau eraill | Cyfanswm y pecynnau ymadael fesul band costau |
|---|---|---|---|
| < £10,000 | 0 (1) | 0 (0) | 0 (1) |
| £10,000 - £25,000 | 9 (7) | 0 (0) | 9 (7) |
| £25,001 - £50,000 | 3 (5) | 0 (0) | 3 (5) |
| £50,001 - £100,000 | 1 (8) | 0 (0) | 1 (8) |
| £100,001 - £150,000 | 0 (0) | 0 (0) | 0 (0) |
| £150,001 - £200,000 | 0 (3) | 0 (0) | 0 (3) |
| Cyfanswm y pecynnau ymadael fesul math | 13 (24) | 0 (0) | 13 (24) |
| **Cyfanswm cost £'000** | **283 (1,347)** | **0 (0)** | **283 (1,347)** |

Y ffigurau mewn cromfachau yw cymaryddion y flwyddyn flaenorol.

## 8. Costau ailstrwythuro a buddsoddi

Archwiliwn ein strwythur drwy'r amser ac yn gwneud newidiadau er mwyn cyflwyno gwasanaethau effeithlon ac effeithiol sy'n addas i'r diben. Fel rhan o'r broses hon, yn ystod 2011/12 roedd costau'r ailstrwythuro yn cynnwys taliadau terfynau a thrafodion eiddo. Y prif drafodyn eiddo oedd adleoli ein swyddfa yn Leeds o Carlton Tower i Consort House. Yn ogystal â hyn, lleihawyd maint y swyddfa yng Nghaerwysg.

Rydym wedi buddsoddi mewn adolygiad o'n prosesau busnes, gan gynnwys system rheoli ariannu newydd i wella gwasanaeth cwsmeriaid a chynyddu effeithlonrwydd. Mae costau uniongyrchol staff sy'n gweithio ar y prosiect hwn, ynghyd â chaledwedd a thrwyddedau wedi'i gyfalafu'n unol ag IAS 16 ‘Eiddo, peiriannau a chyfarpar’ ac IAS 38 ‘Asedau anniriaethol’ (gweler nodiadau 10 a 11).

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 £’000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 March 2011 £’000 |
|---|---|---|
| Taliadau terfynu | 237 | 57 |
| Rhesymoli eiddo | 170 | 765 |
| Darpariaeth brydles feichus | - | (637) |
| Adolygu ailbeiriannu prosesau busnes | 247 | 194 |
| | 654 | 379 |

## 9. Treth

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn talu treth gorfforaethol ar log banc ac unrhyw log arall a dderbynnir yn unig.

Y taliad treth ar gyfer 2011/12 yw £159,000 (2010/11 £146,000 yn dderbynadwy). Mae ad-daliad y flwyddyn gynt yn gysylltiedig â gorddarpariaeth o dreth cyfwerth â £173,000 yn 2008/09. Nid yw arian a gynhyrchir gan falansau sy'n cael ei gadw a'i fuddsoddi gan Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar ran y Gronfa Loteri Fawr yn drethadwy.

## 10. Eiddo, peiriannau a chyfarpar

| | Gwelliannau prydlesol | TG | Offer, dodrefn a ffitiadau swyddfa | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Cost** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Ar 1 Ebrill 2011 | 6,815 | 1,915 | 300 | 9,030 |
| Ychwanegiadau | 5 | 535 | - | 540 |
| Gwarediadau | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2012** | 6,820 | 2,450 | 300 | 9,570 |
| **Dibrisio** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2011 | 3,452 | 1,479 | 252 | 5,183 |
| Tâl am y flwyddyn | 366 | 209 | 39 | 614 |
| Disposals | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2012** | 3,818 | 1,688 | 291 | 5,797 |
| **Llyfrwerth net** | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2012** | 3,002 | 762 | 9 | 3,773 |
| **Cost** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2010 | 6,588 | 1,863 | 300 | 8,751 |
| Ychwanegiadau | 227 | 52 | - | 279 |
| Gwarediadau | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2011** | 6,815 | 1,915 | 300 | 9,030 |
| **Dibrisio** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2010 | 3,099 | 1,239 | 213 | 4,551 |
| Tâl am y flwyddyn | 353 | 240 | 39 | 632 |
| Gwarediadau | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2011** | 3,452 | 1,479 | 252 | 5,183 |
| **Llyfrwerth net** | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2011** | 3,363 | 436 | 48 | 3,847 |
| **Ar 31 Mawrth 2010** | 3,489 | 625 | 87 | 4,201 |

Mae'r holl welliannau prydlesol ar eiddo prydles fer gyda phrydles sy'n dod i ben o fewn 20 mlynedd.

## 11. Asedau anniriaethol

| | Meddalwedd system ariannu - yn cael ei ddatblygu | Gwefan o dan ddatblygiad | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost** | | | **Cost** |
| Ar 1 Ebrill 2011 | 5,237 | - | 5,237 |
| Ychwanegiadau | 6,289 | 248 | 6,537 |
| **Ar 31 Mawrth 2012** | 11,526 | 248 | 11,774 |

| | Meddalwedd system ariannu - yn cael ei ddatblygu | Gwefan o dan ddatblygiad | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2010 | 2,235 | - | 2,235 |
| Ychwanegiadau | 3,002 | - | 3,002 |
| **Ar 31 Mawrth 2011** | 5,237 | - | 5,237 |

## 12. Masnachu ac arian arall a dderbynnir

| | Ar 31 Mawrth 2012 £'000 | Ar 31 Mawrth 2011 £'000 |
|---|---|---|
| **Swm sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Yn cael ei ddal gan bartneriaid dirprwyol ar gyfer talu ymrwymiadau grantiau | 20,024 | 8,815 |
| Adneuon a blaensymiau | 263 | 1,573 |
| Symiau eraill a dderbynnir | 3,641 | 2,727 |
| | 23,928 | 13,115 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 4,778 | 3,780 |
| | 28,706 | 16,895 |

Mae'r balansau sydd i'w derbyn fel a ganlyn:

| | Ar 31 Mawrth 2012 £'000 | Ar 31 Mawrth 2011 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau sy'n ddyledus gan gyrff eraill y Llywodraeth | 3,580 | 965 |
| Symiau sy'n ddyledus gan awdurdodau lleol | 22 | - |
| Symiau sy'n ddyledus gan gyrff y tu allan i'r Llywodraeth | 25,104 | 15,930 |

## 13. Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol

| | £'000 | £'000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill 2011** | | 523,406 |
| Incwm o'r Loteri Genedlaethol | 770,917 | |
| Incwm buddsoddi gan NLDF | 5,550 | |
| Arian a dynnir i lawr o'r NLDF | (909,682) | |
| Cynnydd net yn y balans | | (133,215) |
| **Cost ar 31 Mawrth 2012** | | 390,191 |
| Enillion buddsoddi heb eu gwireddu | | 8,652 |
| **Gwerth marchnad ar 31 Mawrth 2012** | | 398,843 |

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn derbyn cyfran o'r arian a delir gan Camelot Group plc i Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar ôl tynnu costau'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon wrth iddo ddefnyddio ei swyddogaethau o dan Ddeddf y Loteri, costau'r rheolydd (Comisiwn y Loteri Genedlaethol), costau'r rheolwr buddsoddi (y Comisiynwyr Dyledion Cenedlaethol) a chostau Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol.

## 14. Masnachu ac arian arall a delir

| | Ar 31 Mawrth 2012 £'000 | Ar 31 Mawrth 2011 £'000 |
|---|---|---|
| **Swm sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| TAW | 127 | 109 |
| Trethi a nawdd cymdeithasol eraill | 1,143 | 1,164 |
| Treuliau masnachu | 885 | 15 |
| Yn ddyledus i bartner ar y cyd ar gyfer talu ymrwymiadau grant | 6,516 | - |
| Treuliau eraill | 869 | 200 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 3,639 | 3,937 |
| | 13,179 | 5,425 |
| **Swm sy'n dod yn ddyledus o fewn mwy nag un flwyddyn** | | |
| Taliadau, gohiriadau ac incwm gohiriedig | 1,541 | 1,726 |
| **Cyfanswm** | **14,720** | **7,151** |

Mae'r balans canlynol sy'n daladwy i gyrff eraill y Llywodraeth wedi'i gynnwys yn y symiau uchod:

| | | |
|---|---|---|
| Symiau sy'n ddyledus i gyrff eraill y Llywodraeth | 7,820 | 885 |
| Symiau sy'n ddyledus i awdurdodau lleol | - | - |
| Symiau sy'n ddyledus i gyrff y tu allan i'r llywodraeth | 6,900 | 6,266 |
| | 14,720 | 7,151 |

## 15. Darpariaethau ar gyfer ymrwymiadau a thaliadau

| | Taliadau prydles beichus £'000 | Cyfraniadau ymddeol yn gynnar £'000 | Darpariaethau colli swyddi £'000 | Cyfanswm darpariaethau £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2011 | 6,387 | 1,010 | 922 | 8,319 |
| Darpariaethau newydd a grëwyd | - | - | 266 | 266 |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd | (694) | (222) | (267) | (1,183) |
| Darpariaethau a ryddhawyd | - | (153) | (4) | (157) |
| **Dygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2012** | **5,693** | **635** | **917** | **7,245** |

### Taliadau prydles beichus

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi is-osod rhan o'i heiddo yn Plough Place, Llundain i dri thenant. Mae'r ddarpariaeth yn cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng y rhent a godir ar denantiaid y Gronfa Loteri Fawr a'r hyn y mae'r Gronfa wedi'i gontractio i'w dalu i'w landlordiaid. Cyfrifir y ddarpariaeth ar gyfer y gwahaniaeth yn rhent y farchnad gan ddefnyddio cyfradd chwyddiant dybiedig o 3 y cant. Bydd y ddarpariaeth yn cael ei gwireddu dros 11 mlynedd, sef tymor y brydles sy'n weddill.

Ar 31 Mawrth 2012 rydym wedi rhoi disgownt ar gyfer taliadau prydles beichus gan ddefnyddio'r gyfradd ddisgownt a gynghorwyd gan Drysorlys EM, sef 2.2 y cant.

Ni chrëwyd unrhyw ddarpariaethau newydd yn ystod y flwyddyn.

### Ailstrwythuro: ymddeol, diswyddo a chefnogaeth

O ganlyniad i ailstrwythuro yn y flwyddyn gyfredol ac mewn blynyddoedd cynharach, nodwyd swyddi penodol nad oes eu hangen bellach, neu sydd wedi'u hadleoli. O ganlyniad mae staff wedi cael eu diswyddo neu wedi ymddeol yn gynnar.

- Os bydd staff sy'n gymwys i ymddeol yn gynnar yn gwneud hynny, mae'r Gronfa dan rwymedigaeth gontract i fodloni rhai cyfraniadau pensiwn penodol nes bod y staff hyn yn cyrraedd eu dyddiad ymddeol statudol. Darperir amcangyfrif o'r cyfraniadau hyn ar gyfer y dyfodol. Bydd taliadau yn erbyn y ddarpariaeth hon yn parhau am hyd at ddeng mlynedd.
- Mae darpariaeth wedi'i gwneud ar gyfer costau diswyddo amcangyfrifedig y staff hynny y mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi bod yn ymgynghori â hwy cyn 31 Mawrth 2012. Gwneir taliadau diswyddo'n unol â threfniadau a thelerau contract a amlinellir yn nhrefniadau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth hon yn cael ei gwireddu dros y flwyddyn ariannol nesaf hyd at 2012/13.
- Mae gan gyflogeion contract y Gronfa Loteri Fawr hawl fel rhan o'u contract i £500 wrth gael eu diswyddo, mewn perthynas â phrynu cyrsiau hyfforddi neu ddeunyddiau ar gyfer datblygu o ran cyflogaeth yn y dyfodol. Mae hyn wedi'i ddarparu hefyd.

## 16. Grantiau yr ymrwymwyd i'w talu (ymrwymiadau caled)

| | £'000 | £'000 |
|---|---|---|
| **Ymrwymiadau caled** | | |
| Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2011 | | 897,727 |
| Ymrwymiadau grant a wnaed | 759,590 | |
| Ymrwymiadau di-rym neu wedi'u diddymu | (9,383) | |
| Ymrwymiadau grant a fodlonwyd | (668,477) | |
| Symudiad net mewn ymrwymiadau caled | | 81,730 |
| **Dygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2012** | | **979,457** |

### Ymrwymiadau caled sy'n heneiddio

Mae balans yr ymrwymiad caled ar ddiwedd y flwyddyn yn cynrychioli'r symiau sy'n ddyledus i dderbynyddion yn ystod y cyfnodau a ganlyn:

| | Ar 31 Mawrth 2012 £'000 | Ar 31 Mawrth 2011 £'000 |
|---|---|---|
| Grantiau yr ymrwymwyd i'w talu o fewn un flwyddyn | 473,063 | 450,550 |
| Grantiau yr ymrwymwyd i'w talu dros fwy nag un flwyddyn | 506,394 | 447,177 |
| | 979,457 | 897,727 |

Mae'r balansau a ganlyn sy'n daladwy i gyrff eraill y Llywodraeth wedi'u cynnwys yn y symiau uchod.

| | Ar 31 Mawrth 2012 £'000 | Ar 31 Mawrth 2011 £'000 |
|---|---|---|
| Grantiau yr ymrwymwyd i'w talu i gyrff eraill y Llywodraeth | 17,213 | 38,042 |
| Grantiau yr ymrwymwyd i'w talu i gyrff awdurdodau lleol | 74,398 | 93,586 |
| Grantiau yr ymrwymwyd i'w talu i fudiadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol | 4,219 | 6,923 |

## 17. Ymrwymiadau meddal

Mae ymrwymiadau meddal yn cynrychioli cynigion grant nad ydynt wedi'u derbyn yn ffurfiol yn ysgrifenedig eto gan yr ymgeisydd. Gan hynny, nid yw'r cynigion hyn yn cael eu cydnabod fel ymrwymiad ariannol o fewn y cyfrifon hyn.

| | £'000 | £'000 |
|---|---|---|
| **Ymrwymiadau meddal** | | |
| Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2011 | | 54,792 |
| Ymrwymiadau meddal a wnaed | 768,841 | |
| Ymrwymiadau meddal di-rym neu wedi'u diddymu | (4,352) | |
| Ymrwymiadau meddal a drosglwyddwyd i ymrwymiadau caled | (759,590) | |
| Symudiad net mewn ymrwymiadau meddal | | 4,899 |
| Dygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2012 | | 59,691 |

## 18. Cynlluniau ar y cyd

### Parks for People

Gweinyddir y cynllun hwn gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar ran yr holl bartïon i'r cytundeb. Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi cytuno i gyfrannu hyd at £130 miliwn i'r cyfanswm ariannu disgwyliedig o £309 miliwn. Mae gwerth £4.4 miliwn o ymrwymiadau grant newydd (2010/11 £21 miliwn) wedi'i gynnwys o fewn ymrwymiadau caled; ac mae ymrwymiadau grant a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth yn cynnwys gwerth £34.2 miliwn (2010/11 £51.1 miliwn) sy'n cynrychioli cyfraniad y Gronfa Loteri Fawr at y cynllun Parks for People ar y cyd. Mae ffigur y credydwyr yn cynnwys £6.5m sy'n ddyledus i Gronfa Dreftadaeth y Loteri mewn perthynas â'n cyfraniad i daliadau y maent wedi'u gwneud i dderbynyddion grantiau

## 19. Cysoni incwm a gwariant i'r mewnlif arian net o weithgareddau gweithredu

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 £'000 |
|---|---|---|
| (Diffyg)/Gwarged ar gyfer y cyfnod | (178,921) | 272,689 |
| Dibrisio eiddo, peiriannau a chyfarpar | 614 | 632 |
| Dibrisio gwaredu eiddo, peiriannau a chyfarpar | - | - |
| Dibrisio asedau anniriaethol | - | - |
| (Diffyg)/Gwarged wedi'i addasu ar gyfer trafodion nad ydynt yn arian parod | (178,307) | 273,321 |
| (Cynnydd)/Gostyngiad mewn masnachu ac arian aral a dderbynnir | (11,780) | 1,748 |
| Gostyngiad/(Cynnydd) yn y balans NLDF | 124,563 | (49,264) |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn masnachu ac arian arall a dderbynnir | 7,538 | (1,773) |
| Gostyngiad mewn darpariaethau | (1,074) | (2,351) |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn darpariaethau ar gyfer ymrwymiadau grant | 81,730 | (224,714) |
| **Mewnlif/(all-lif) arian net o weithgareddau gweithredu** | 22,670 | (3,033) |

## 20. Risgiau ariannol

### Offerynnau ariannol

Mae Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 7 'Offerynnau Ariannol: Datgeliadau' (IFRS 7) yn mynnu datgelu'r rôl y mae offerynnau ariannol wedi'u cael yn ystod y cyfnod wrth greu neu newid y risgiau y mae endid yn eu hwynebu wrth gyflawni'i weithgareddau. Mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl lawer mwy cyfyngedig wrth greu neu newid risgiau ar gyfer y Gronfa Loteri Fawr na'r hyn sy'n nodweddiadol ar gyfer y cwmnïau a restrir y mae IFRS 7 yn berthnasol iddynt yn bennaf. Nid oes gan y Gronfa Loteri Fawr y pŵer i fenthyg arian ac ni all ond fuddsoddi arian sy'n deillio o gymorth ar ffurf grantiau. Mae asedau ac atebolrwydd ariannol yn cael eu cynhyrchu gan weithgareddau gweithredu bob dydd yn hytrach na chael; eu dal i newid y risgiau sy'n wynebu'r mudiad.

### Risg Hylifedd

Yn 2011–12, deilliodd £771 miliwn (92 y cant) o incwm y Gronfa Loteri Fawr o'r Loteri Genedlaethol. Deilliodd yr incwm sy'n weddill o enillion ar fuddsoddi'r balans a ddelir gyda NLDF, £6 miliwn (1 y cant) ynghyd â swm bach o log banc a mân incwm o £10 miliwn (1 y cant) ynghyd ag incwm o gyfrifon segur o £48 miliwn (6 y cant). Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod eu hymrwymiadau caled (h.y. contractau grant wedi'u llofnodi) ac eitemau taladwy eraill yn fwy na gwerth yr arian yn NLDF ar 31 Mawrth 2012. Er hynny, mae'r Bwrdd yn ystyried nad yw'r Gronfa Loteri Fawr yn agored i risgiau hylifedd sylweddol ac mae'n fodlon y bydd ganddi adnoddau hylif digonol o fewn NLDF a'r banc i gynnwys pob cais tebygol am daliad grant dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) wedi hysbysu'r Bwrdd nad yw'n bwriadu newid trefniadau dosbarthu'r Loteri ar gyfer y sector gwirfoddol ac elusennol. Mae'r Bwrdd wedi pennu strategaeth dyfarnu grantiau hir dymor i sicrhau bod ymrwymiadau'r Gronfa Loteri Fawr yn cyfateb i'r asedau, a bod y Gronfa Loteri Fawr yn gallu bodloni'i hymrwymiadau hyd at 2019, pan ddaw pedwaredd drwydded y Loteri i ben.

Gan hynny, hyd yn oed os cafwyd dirywiad hir dymor mewn incwm Loteri, byddai'r Bwrdd yn gallu addasu cyllidebau grant i wneud iawn am hynny.

| **Asedau hylif ar 31 Mawrth 2012** | **£m** |
|---|---|
| Gwerth marchnad buddsoddiadau NLDF | 399 |
| Arian parod | 14 |
| | 413 |
| **Rhagamcaniad o lifoedd arian yn ystod 2012/13** | |
| Incwm o'r Loteri Genedlaethol | 737 |
| Llai trosglwyddiad i Gemau Olympaidd Llundain 2012 | (80) |
| Incwm arall | 17 |
| Taliadau costau gweithredu | (50) |
| Taliadau grant | (640) |
| **Rhagfynegiad o dreuliau net** | (16) |
| **Rhagfynegiad o asedau hylifol ar 31 Mawrth 2013** | 397 |

Mae'r rhagfynegiadau incwm yn seiliedig ar ragamcaniadau a ddarperir gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'r rhagamcaniad o daliadau grant yn seiliedig ar broffiliau tynnu i lawr disgwyliedig a luniwyd ar 31 Mawrth 2012.

## Risg marchnadoedd a chyfraddau llog

Mae asedau ariannol y Gronfa Loteri Fawr yn cael eu buddsoddi yn NLDF, sy'n buddsoddi mewn band cul o asedau isel eu risg megis bondiau llywodraeth ac arian parod. Nid oes gan y Bwrdd unrhyw reolaeth dros fuddsoddi'r arian hwn. Gan y ddau reswm hwn, nid yw'r Gronfa Loteri Fawr wedi cyflawni dadansoddiad sensitifrwydd ar risgiau'r farchnad. Ar ddyddiad y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, £399 miliwn oedd gwerth ein buddsoddiadau ar y farchnad. Ar gyfartaledd enillodd arian NLDF 2.26 y cant yn ystod y flwyddyn. Delir y balansau arian sy'n cael ei dynnu i lawr o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol i dalu am ymrwymiadau grant a chostau gweithredu mewn cyfrifon banc mynediad di-oed, gyda chyfraddau llog amrywiol â chyfradd llog o 0.15 y cant yn ystod y flwyddyn. Mae'r dirywiad sydyn mewn cyfraddau llog y farchnad yn 2008 wedi cael effaith sylweddol ar enillion, ond mae'r risg yn fach gan fod ychydig iawn o le i gyfraddau ostwng ymhellach. £14.1 miliwn oedd balans ariannol y Gronfa Loteri Fawr ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r Bwrdd yn ystyried nad yw'r Gronfa Loteri Fawr yn agored i risgiau cyfraddau llog sylweddol. Ar gyfer asedau ariannol eraill a rhwymedigaethau ariannol y Gronfa Loteri Fawr roedd y gyfradd log yn 0 y cant.

| **Balansau arian** | **2011-12 £'000** | **2010-11 £'000** |
|---|---|---|
| Sterling ar gyfraddau llog arnawf - Cronfa Loteri Fawr | 14,076 | 6,501 |
| Sterling ar gyfraddau llog arnawf - cyfrifon segur | 8,018 | - |
| Sterling ar gymysgedd o gyfraddau penodol | 398,843 | 523,406 |
| | 420,937 | 529,907 |

## Risg credyd
Mae taliadau i'w derbyn y Gronfa Loteri Fawr yn cynnwys rhagdaliadau, yn bennaf ar brydlesi eiddo a balansau rhynglywodraethol. Mae'r balansau rhynglywodraethol yn bennaf gyda chyd-ddosbarthwyr y Loteri ac yr oeddent oll wedi'u had-dalu neu eu cytuno erbyn cyfnod llofnodi'r cyfrifon. Nid yw'r Bwrdd yn ystyried bod y Gronfa Loteri Fawr yn agored i risgiau credyd sylweddol

## Risgiau arian tramor
Nid yw'r Gronfa Loteri Fawr yn agored i unrhyw risgiau arian tramor.

## Asedau ariannol fesul categori

| Asedau yn ôl y Datganiad o Sefyllfa Ariannol | 2011-12 £'000 | 2010-11 £'000 |
|---|---|---|
| Asedau anghyfredol | 15,547 | 9,084 |
| Buddsoddiadau sydd ar werth | 398,843 | 523,406 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod - Cronfa Loteri Fawr | 14,076 | 6,501 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod - cyfrifon segur | 8,018 | - |
| Benthyciadau a thaliadau i'w derbyn | 28,706 | 16,895 |
| | 465,190 | 555,886 |

## Rhwymedigaethau ariannol fesul categori

| Rhwymedigaethau yn ôl y Datganiad o Sefyllfa Ariannol | 2011-12 £'000 | 2010-11 £'000 |
|---|---|---|
| Rhwymedigaethau ariannol: | | |
| - Ymrwymiadau grant | 473,063 | 450,550 |
| - Taliadau gweithredu | 13,179 | 5,425 |
| | 486,242 | 455,975 |

## Gwerthoedd teg
Isod mae cymhariaeth, fesul categori, o lyfrwerthoedd a gwerthoedd teg asedau a rhwymedigaethau ariannol y Gronfa Loteri Fawr ar 31 Mawrth 2012.

### Asedau ariannol ar 31 Mawrth 2012:

| | Llyfrwerth £'000 | Gwerth teg £'000 |
|---|---|---|
| Arian parod [1] | 22,094 | 22,094 |
| Buddsoddiadau [2] | 398,843 | 398,843 |
| Taliadau i'w derbyn [3] | 28,706 | 28,706 |
| | 449,643 | 449,643 |

### Asedau ariannol ar 31 Mawrth 2011:

| | Llyfrwerth £'000 | Gwerth teg £'000 |
|---|---|---|
| Arian parod | 6,501 | 6,501 |
| Buddsoddiadau | 523,406 | 523,406 |
| Taliadau i'w derbyn | 16,895 | 16,895 |
| | 546,802 | 546,802 |

### Rhwymedigaethau ariannol ar 31 Mawrth 2012:

| | Llyfrwerth £'000 | Gwerth teg £'000 |
|---|---|---|
| Ymrwymiadau grant [4] | 473,063 | 473,063 |
| Taliadau gweithredu [5] | 13,179 | 13,179 |
| | 486,242 | 486,242 |

## Rhwymedigaethau ariannol ar 31 Mawrth 2011:

| | Llyfrwerth £'000 | Gwerth teg £'000 |
|---|---|---|
| Ymrwymiadau grant | 450,550 | 450,550 |
| Taliadau gweithredu | 5,425 | 5,425 |
| | 455,975 | 455,975 |

Sail prisio teg

[1] Y ffigur hwn yw gwerth yr adneuon gyda banciau masnachol. Y disgwyliad yw y bydd y llyfrwerth yn cyfateb i'r gwerth teg

[2] Rheolir buddsoddiadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'n darparu manylion llyfrwerth a gwerth teg ein balansau ar gyfer y Bwrdd ar ddyddiad y Datganiad o Sefyllfa Ariannol. Mae'r enillion nas gwireddwyd ar fuddsoddiad yn cael eu hystyried trwy'r Datganiad Incwm Cynhwysfawr, gan arwain at lyfrwerth sy'n cyfateb i werth teg.

[3] Ni phennir bod angen darpariaeth ar gyfer drwgddyled.

[4] Er ein bod yn datgelu gwerth £506 miliwn o ymrwymiadau grant fel rhai nad ydynt yn ddyledus i gael eu talu tan ar ôl blwyddyn, nid ydym wedi gwneud addasiad gwerth teg. Mae'r Bwrdd o dan rwymedigaeth gontractol i dalu'r symiau hyn ar alw, yn amodol ar y contract, ac felly gallai'r symiau gael eu talu o fewn y 12 mis nesaf.

[5] Mae'r holl eitemau taladwy yn ddyledus o fewn telerau contractol arferol, ac felly nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng y llyfrwerth a'r gwerth teg.

## Aeddfedrwydd rhwymedigaethau ariannol

| Rhwymedigaethau yn ôl y Datganiad o Sefyllfa Ariannol | 2011-12 £'000 | 2010-11 £'000 |
|---|---|---|
| Mewn llai na blwyddyn | 1,015,229 | 904,878 |
| Mewn mwy na blwyddyn ond llai na dwy | - | - |
| Mewn dwy i bum mlynedd | - | - |
| Mewn mwy na phum mlynedd | - | - |
| | 1,015,229 | 904,878 |

Mae'r Datganiad o Sefyllfa Ariannol yn datgelu'r ffigur uchod wedi'i wahanu rhwng y symiau sy'n ddyledus mewn un flwyddyn ac mewn mwy nag un flwyddyn. Mae'r rhaniad hwnnw'n seiliedig ar brofiad blaenorol o symiau a dynnir i lawr gan grantïon gan nad yw ein contractau gyda grantïon yn cynnwys y cyfryw raniad. Yn ddamcaniaethol, gallai grantïon ofyn am eu grant cyfan dros y 12 mis nesaf os cwblhawyd eu prosiectau o fewn y cyfnod hwnnw. Gan hynny rydym wedi mabwysiadu ymagwedd ochelgar ac wedi dangos bod yr holl rwymedigaethau'n aeddfedu o fewn un flwyddyn.

## 21. Ymrwymiadau ariannol

### Trosglwyddiad y Gemau Olympaidd

Yn 2007/08 cytunodd Senedd y DU i drosglwyddo £1,085 miliwn o'r NLDF i Gronfa Ddosbarthu Gemau Olympaidd y Loteri i dalu am rai o gostau cynnal y gemau yn 2012. Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ymrwymedig i gyfrannu £638 miliwn rhwng mis Chwefror 2009 a mis Awst 2012 mewn rhandaliadau chwarterol.

### Ymrwymiadau o dan brydlesi gweithredu

Rhoddir cyfanswm yr isafswm taliadau prydles o dan brydlesi gweithredu yn y tabl isod:

| | Ar 31 Mawrth 2012 £'000 | Ar 31 Mawrth 2011 £'000 |
|---|---|---|
| **Prydlesi eiddo lle mai ni yw'r prydlesai:** | | |
| Heb fod yn fwy na blwyddyn | 6,294 | 6,355 |
| Mwy na blwyddyn a heb fod yn fwy na 5 mlynedd | 23,568 | 24,555 |
| Mwy na 5 mlynedd | 23,545 | 29,301 |
| | 53,407 | 60,211 |
| **Prydlesi eiddo lle mai ni yw'r prydleswr:** | | |
| Heb fod yn fwy na blwyddyn | 1,643 | 1,423 |
| Mwy na blwyddyn a heb fod yn fwy na 5 mlynedd | 4,462 | 5,096 |
| Mwy na 5 mlynedd | 4,150 | 5,159 |
| | 10,255 | 11,678 |

Fel yr amlinellir ym mholisi cyfrifo 1.7 ni allwn rannu prydlesi'n ddibynadwy rhwng tir ac adeiladau ond mae'r ddwy elfen yn brydlesi gweithredu.

## 22. Cynllun pensiwn

Darperir buddiannau pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Gall gweithwyr fod mewn un o bedwar cynllun buddiant diffiniedig; naill ai gynllun cyflog terfynol (classic, premium neu classic plus); neu gynllun gyrfa gyfan (nuvos). Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu, a thelir costau'r buddiannau gan arian a bennir gan Senedd y DU bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan classic, premium, classic plus a nuvos yn cynyddu bob blwyddyn yn unol â newidiadau yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI). Gall aelodau hefyd ddewis naill ai'r trefniant buddiant diffiniedig priodol neu bensiwn budd-ddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Pennir cyfraniadau gweithwyr ar gyfradd o 1.5 y cant o'r enillion pensiynadwy ar gyfer y cynllun classic a 3.5 y cant ar gyfer y cynlluniau premium, classic plus a nuvos. Mae buddiannau'r cynllun classic yn cronni ar gyfradd o 1/80 o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ychwanegol, mae cyfandaliad cyfwerth â phensiwn cychwynnol tair blynedd yn daladwy wrth ymddeol. Mae buddiannau'r cynllun premiwm yn cronni ar gyfradd o 1/60 o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i classic, nid oes cyfandaliad awtomatig. I bob pwrpas mae Classic Plus yn gynllun cymysg, gyda buddiannau ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras yn unol â classic a buddiannau ar gyfer gwasanaeth o fis Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n unol â premium. Yn nuvos mae aelodau'n cronni pensiwn yn seiliedig ar enillion pensiynadwy yn ystod cyfnod eu haelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae'r cyfrif pensiwn wedi'i ennill yn cael ei gredydu gyda 2.3 y cant o'u henillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno o'r cynllun ac mae'r pensiwn a gronnir yn cael ei uwchraddio'n unol â'r CPI. Ym mhob achos gall aelodau ddewis ildio (cyfnewid) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a ganiateir gan ddeddfwriaeth dreth.

Trefniant pensiwn cyfranddeiliaid yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 3 y cant a 12.5 y cant (gan ddibynnu ar oedran yr aelod) i bensiwn cyfranddeiliaid a ddewisir gan y cyflogydd o banel o dri darparwr.

Nid oes rhaid i'r cyflogydd gyfrannu ond os yw'n gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfrannu'n gyfatebol hyd at uchafswm o 3 y cant o'r cyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae'r cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8 y cant pellach o gyflog pensiynadwy i dalu cost yr yswiriant risg a ddarperir yn ganolog (marw mewn gwasanaeth ac ymddeol oherwydd salwch).

Ceir manylion pellach am drefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan www.civilservice-pensions.gov.uk

Ar gyfer 2011/12, roedd cyfraniadau'r cyflogwyr o £4,544,138 yn daladwy i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (2010/11 £4,876,047) ar un o bedair cyfradd yn yr amrediadau a nodir isod. Dylid adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd yn sgil gwerthusiad llawn. Cynhaliwyd y prisiad diweddaraf gan Hewitt Bacon a Woodrow ar 31 Mawrth 2007. Mae'r cyfraddau cyfrannu'n adlewyrchu'r buddiannau wrth iddynt gronni, nid pan fo'r costau'n cael eu codi, ac maent yn adlewyrchu profiadau'r cynllun yn y gorffennol. Mae'r cyfraddau ar gyfer 2011/12 yn gweddu i argymhellion gan yr Actiwari.

| **Bandiau** | **Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012** |
|---|---|
| £21,000 a llai | 16.7% |
| £21,001 - £43,500 | 18.8% |
| £43,501 - £74,500 | 21.8% |
| £74,501 a mwy | 24.3% |


| **Bandiau** | **Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012** |
|---|---|
| £21,000 a llai | 16.7% |
| £21,001 - £43,500 | 18.8% |
| £43,501 - £74,500 | 21.8% |
| £74,501 a mwy | 24.3% |


PGPGS yw cynllun buddiannau diffiniedig aml-gyflogwr, ni all y Gronfa Loteri Fawr adnabod ei chyfran o asedau neu atebolrwydd o ran y cynllun.

## 23. Colledion a thaliadau arbennig

Ceir colledion pan nad oes unrhyw dystiolaeth bod amcanion prosiect a ariennir wedi cael eu cyflawni. Yn y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2012 rydym wedi dileu colledion o £1,554,073, gan gynrychioli 116 o ddyfarniadau 2010/11 £2,216,257 gan gynrychioli 140 o ddyfarniadau). Cafwyd pedwar dilead uwchben £100,000, y rhoddir manylion amdano isod.

Detainee Support and Help Unit £174,503
Centre for Community Development Initiatives £187,485
Losanganya L Analengo De London £101,682
Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol Swydd Durham £137,127

Ceir taliadau arbennig yn yr achosion canlynol:

- gwnaed grant yn anfwriadol i sefydliad nad yw'n gyfreithiol gymwys i'w dderbyn ond lle mae'r grant o fewn bwriad cyffredinol deddfwriaeth statudol. Gwariwyd yr holl ddyfarniadau hyn ar amcanion prosiectau, yn unol ag amodau a thelerau'r grant
- cymeradwyir taliadau ex gratia.

Yn y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2012, gwnaed pedwar taliad arbennig gwerth cyfanswm o £39,662 (2010/11 £27,110 gan gynrychioli 4 o ddyfarniadau) mewn perthynas â thrafodion grant.

## 24. Trafodion cyrff cysylltiedig

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn gorff cyhoeddus anadrannol. Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb o noddi polisi'r Gronfa Loteri Fawr o DCMS i Swyddfa'r Cabinet ar 13 Ebrill 2011 ond mae gan y Gronfa Loteri Fawr berthynas ariannol barhaus gyda DCMS, sy'n cadw cyfrifoldeb dros arian loteri. Gan hynny, mae DCMS a Swyddfa'r Cabinet wedi cael eu trin fel partïon cysylltiedig trwy gydol y flwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi cwblhau amrywiaeth o drafodion materol gyda DCMS a chyrff eraill yr ystyrir mai'r adran noddi ar eu cyfer yw DCMS: Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Sport England, Cyngor Celfyddydau Lloegr a Dosbarthwr Loteri'r Gemau Olympaidd.

Mae trafodion gyda DCMS yn adlewyrchu incwm a dderbyniwyd drwy NLDF (Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol) a secondio staff i mewn. Mae trafodion gyda dosbarthwyr eraill y Loteri'n cynnwys incwm a dderbyniwyd ar gyfer rheoli Arian i Bawb a rhentu swyddfeydd. Gwnaed taliadau i Gronfa Dreftadaeth y Loteri a Sport England ar gyfer eu gwasanaethau o ran cynnal rhaglenni grantiau ar y cyd (Nodyn 13).

Yn ogystal, mae'r Gronfa Loteri Fawr yn cwblhau nifer o drafodion materol gydag adrannau'r Llywodraeth a chyrff sy'n ystyried bod adrannau eraill y Llywodraeth yn eu noddi:

- Mae Natural England, a noddir gan yr Adran dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, yn dderbynnydd dyfarniad grant.
- Mae Highlands and Islands Enterprise, a noddir gan Weinidogion yr Alban, yn cyflwyno rhaglen grant ar ein rhan.
- Cyllid a Thollau EM mewn perthynas â thrafodion Talu wrth Ennill ac Yswiriant Gwladol.
- Mae'r Adran Addysg wedi contractio rheolaeth y rhaglen grant ***myplace*** i'r Gronfa Loteri Fawr.
- Mae'r Swyddfa Cymdeithas Sifil wedi contractio rheolaeth y rhaglen Asedau Cymunedol a'r Gronfa Drosglwyddo i'r Gronfa Loteri Fawr.
- Mae Swyddfa'r Cabinet wedi contractio'r Gronfa Loteri Fawr i reoli'r rhaglenni Advice Services Fund a Transforming Local Infrastructure.

### Aelodau Bwrdd

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn glynu wrth gôd ymarfer Swyddfa'r Cabinet ar gyfer aelodau Byrddau cyrff cyhoeddus. Fel mater o bolisi a threfn, mae aelodau Bwrdd yn cadw cofrestri buddiannau sydd ar gael i'r cyhoedd ac yn datgan unrhyw fudd uniongyrchol mewn ceisiadau grant a wneir i'r Gronfa Loteri Fawr a pherthnasoedd masnachol gyda'r Gronfa.

Pan wneir unrhyw benderfyniadau pwyllgor y gellir ystyried yn rhesymol y byddent yn arwain at wrthdaro buddiannau, yn bennaf o ran grantiau i gyrff gwirfoddol, mae cadeirydd y cyfarfod yn sicrhau o'r cychwyn cyntaf bod datgeliad yn cael ei wneud a bod yr aelod pwyllgor yn gadael yn ystod unrhyw drafodaeth o'r eitem dan sylw. Mae gweithdrefnau'r Gronfa Loteri Fawr hefyd yn sicrhau nad yw swyddogion grant yn ymwneud â phrosesu ceisiadau y mae ganddynt fuddiant ynddynt.

Mae nifer o aelodau Bwrdd wedi datgan buddiannau mewn cyrff cyhoeddus, gwirfoddol ac elusennol y mae gan y Gronfa fuddion busnes anfaterol gyda nhw. Datgelir y rhain ar dudalen 77. Mae'r rhain yn cynnwys ymrwymiadau caled a meddal.

## 25. Asedau trydydd parti

Mae'r asedau hyn yn cynrychioli balansau banc a ddelir ar ran trydydd partïon yr ydym yn rheoli rhaglenni grant ar eu rhan, ar ran Dosbarthwr Loteri'r Gemau Olympaidd ac Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol, i wneud taliadau a brosesir gan y Gronfa Loteri Fawr o dan gytundebau lefel gwasanaeth. Nid yw'r balansau hyn wedi'u cynnwys o fewn cyfrifon y Gronfa ei hun.

Ar 31 Mawrth 2012 cadwyd y balansau banc canlynol ar ran trydydd partïon:

| | **31/03/11** £ | **Mewnlif** £ | **All-lif** £ | **31/03/2012** £ |
|---|---|---|---|---|
| Yr Adran Addysg; rhaglen ***myplace*** | 19,687,806 | 106,032,887 | (112,843,808) | 12,876,885 |
| Y Swyddfa Cymdeithas Sifil: Y Rhaglen Asedau Cymunedol | 1,147 | 334 | (1,374) | 107 |
| Cyngor Celfyddydau Lloegr; Arian i Bawb Lloegr | 51,804 | 3,031 | (6,460) | 48,375 |
| Cronfa Dreftadaeth y Loteri; Arian i Bawb; Lloegr, Yr Alban, Gogledd Iwerddon | 83,843 | 2,681 | (22,008) | 64,516 |
| Sport England; Arian i Bawb Lloegr | 25,173 | 3,986 | (6,790) | 22,369 |
| Cyngor Chwaraeon Gogledd Iwerddon | 100 | - | (100) | - |
| Advice Services Fund | - | 17,771,058 | (17,129,720) | 641,338 |
| Transforming Local Infrastructure; Y Swyddfa Cymdeithas Sifil | - | 15,551,847 | (15,419,702) | 132,145 |
| Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol | 1,557,152 | 2,438,873 | (2,673,828) | 1,332,197 |
| Trosglwyddo Asedau Cymunedol; Llywodraeth Cynulliad Cymru | 80,500 | 1,891,519 | (1,456,589) | 515,430 |
| Byd o Natur; Scottish National Heritage | 43,472 | 4,805 | (18,246) | 30,031 |
| Cronfa Drawsnewid; Swyddfa Cymdeithas Sifil a'r Adran Iechyd | 38,755 | 89,997,993 | (89,999,095) | 37,653 |

## 26. Menter ar y cyd – Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol

Mae Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol ("NLPU") yn fenter ar y cyd rhwng Grŵp Camelot plc, dosbarthwyr y Loteri a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Sefydlwyd NLPU i gynyddu ymwybyddiaeth gyhoeddus gadarnhaol o fuddion dosbarthu arian Loteri ar draws y DU a chefnogaeth dros hynny, gan gyfrannu at iechyd cyffredinol y Loteri Genedlaethol a chan hyrwyddo teyrngarwch a chyfranogiad. Ariennir traean o NLPU gan Camelot a dau draean yn uniongyrchol gan Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Mae'r cyfanswm gwariant wedi'i gyfyngu i £3 miliwn. Mae'n atebol i Fwrdd Rheoli sy'n cynnwys cynrychiolwyr tri budd-ddeiliaid allweddol: Camelot, dosbarthwyr y Loteri a DCMS, gyda Chomisiwn y Loteri Genedlaethol yn bresennol fel arsylwr.

Nid yw cyfran y fenter ar y cyd sy'n berthnasol i'r Gronfa Loteri Fawr wedi'i chydgrynhoi o fewn y cyfrifon cenedlaethol o ystyried y materoldeb.

Bydd mwy o wybodaeth a chyfrifon NLPU ar gael ar eu gwefan (www.achosiondayloteri.org.uk) maes o law.

## 27. Arian Cyfrifon Segur

O dan Ddeddf Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Segur 2008 ('y Ddeddf'), gall banciau a chymdeithasau adeiladu drosglwyddo arian o gyfrifon segur i Reclaim Fund Ltd, endid nid er elw sydd ag awdurdod i weithredu fel y gronfa hawlio'n ôl.

Mae Reclaim Fund Ltd yn trosglwyddo arian y mae wedi'i fodloni nad oes ei angen i dalu hawliadau yn y dyfodol gan berchnogion y cyfrifon segur i'r Gronfa Loteri Fawr. Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn dosbarthu'r arian hwnnw yn unol â'r Ddeddf a'r cyfarwyddiadau a roddir iddo gan y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet ('y Gweinidog') a'r gweinyddiaethau datganoledig.

Dyrennir arian rhwng pedair gwlad y Deyrnas Unedig yn unol ag offeryn statudol a gymeradwyir gan Senedd y DU.

Didynnir y costau a gafwyd gan y Gronfa Loteri Fawr a'r Gweinidog mewn perthynas â gweithredu'r cynllun yn gyffredinol cyn eu dyrannu rhwng y pedair gwlad. Didynnir y costau a gafwyd gan y Gweinidog a'r gweinyddiaethau datganoledig mewn perthynas â'r gwledydd unigol o'r arian a ddyrennir.

Mewn perthynas â Lloegr, mae'r cyfarwyddiadau'n darparu bod yr holl arian a drosglwyddir i'r Gronfa Loteri Fawr yn cael ei drosglwyddo i Ymddiriedolaeth y Gymdeithas Fawr er mwyn cyfalafu Big Society Capital, cyfanwerthwr buddsoddi cymdeithasol. Cyn sefydlu Ymddiriedolaeth y Gymdeithas Fawr, gwnaeth y Gronfa Loteri Fawr ddyfarniadau ei hun yn unol â chyfarwyddiadau.

Mewn perthynas â'r tair gwlad arall, mae'r Gronfa Loteri Fawr yn gwneud dyfarniadau grant mewn modd tebyg i arian loteri, felly mae ymrwymiadau dros ben o ddyfarniadau grant a wnaed nad ydynt wedi cael eu tynnu i lawr gan dderbynyddion grantiau eto.
Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn cadw arian heb ei dynnu i lawr eto fel adneuon mewn banciau masnachol.

Cafwyd y trosglwyddiadau ariannol eraill yn 2011-12 fel nid oes unrhyw ffigurau cyfatebol

| | Cyfanswm £'000 | Lloegr £'000 | Yr Alban £'000 | Cymru £'000 | G Iwerddon £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Trosglwyddiadau o Reclaim Fund Ltd | 47,630 | | | | |
| Llog banc a dderbyniwyd ar arian cyfrifon segur | 251 | | | | |
| Cyfanswm incwm cyfrifon segur | 47,881 | | | | |
| Costau gweithredu'r Gronfa Loteri Fawr wrth ddosbarthu incwm cyfrifon segur | 340 | | | | |
| Ar gael i'w ddyrannu i wledydd | 47,541 | | | | |
| Cyfran ym mhob gwlad | | 83.9% | 8.4% | 4.9% | 2.8% |
| Cyfran a roddir i bob gwlad | | 39,887 | 3,993 | 2,330 | 1,331 |
| Costau a gafwyd gan y Gweinidog a'r gweinyddiaethau datganoledig | (1,630) | (1,630) | - | - | - |
| Trosglwyddiadau i Ymddiriedolaeth y Gymdeithas Fawr | (37,990) | (37,990) | - | - | - |
| Ymrwymiadau grant eraill a wnaed | - | - | - | - | - |
| Balans yr arian sydd ar gael i'w ddosbarthu | 7,921 | 267 | 3,993 | 2,330 | 1,331 |

## Memorandwm o gyfrifon – cyfrifon segur

### Datganiad Incwm Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012

| | |
|---|---|
| **Incwm** | **£'000** |
| Trosglwyddiadau o Reclaim Fund Ltd | 47,630 |
| Llog banc a dderbyniwyd | 251 |
| | 47,881 |
| **Gwariant ar raglenni** | |
| Trosglwyddiadau i Ymddiriedolaeth y Gymdeithas Fawr | 37,990 |
| Ymrwymiadau grant eraill a wnaed | - |
| | 37,990 |
| **Costau gweithredu** | |
| Costau a gafwyd gan y Gweinidog a'r gweinyddiaethau datganoledig | 1,630 |
| Costau gweithredu eraill | 340 |
| | 1,970 |
| **Cyfanswm gwariant** | 39,960 |
| Gwarged cyn treth | 7,921 |
| Treth | - |
| Gwarged ar ôl treth | 7,921 |
| **Cyfanswm incwm cynhwysfawr** | 7,921 |
| **Arian wrth gefn** | |
| Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2011 | - |
| Cyfanswm incwm net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | 7,921 |
| Dygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2012 | 7,921 |

## Datganiad o Sefyllfa Ariannol

| | |
|---|---|
| **Asedau cyfredol** | **£'000** |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 8,018 |
| Cyfanswm Asedau | 8,018 |
| **Ymrwymiadau cyfredol** | |
| Masnachu ac arian arall a delir | (97) |
| Ymrwymiadau grant | - |
| | (97) |
| **Asedau anghyfredol llai ymrwymiadau net cyfredol** | 7,921 |
| Asedau llai ymrwymiadau | 7,921 |
| **Cynrychiolwyd gan:** | |
| Arian wrth gefn cyfrifon segur | 7,921 |

## 28. Ymrwymiadau cyfalaf

Roedd gwerth £5,529k o ymrwymiadau cyfalaf dan gontract ar 31 Mawrth 2012 (2010/11 £6,289,000) mewn perthynas â'r system rheoli ariannu newydd. O'r rhain delir £34,000 ar y Datganiad o Sefyllfa Ariannol fel croniadau cyfalaf.

## 29. Asedau amodol

Mae gan Ddosbarthwyr y Loteri Genedlaethol hawl i gyfran o dderbynebau'r dyfodol yn sgil gwerthu'r Parc Olympaidd. Mae'r hawliad hwn yn gyfnewid am y cyfraniad ariannu ychwanegol o £675 miliwn ar gyfer Gemau 2012. Gwnaed yn glir i'r dosbarthwyr loteri y byddai taliadau'n cael eu cyflawni  dros y tymor hwy, o ystyried y raddfa amser 25 mlynedd ar gyfer rhaglen ddatblygu'r Parc Olympaidd a'i dibyniaeth ar berfformiad y farchnad. Yr amcangyfrif cyfredol gan DCMS yw y dylai'r taliadau ddechrau yng nghanol y 2020au, gyda'r swm cyfan yn cael ei ad-dalu erbyn 2030/31.

Fel olynydd i Gomisiwn y Mileniwm, mae gan y Gronfa Loteri Fawr hawl i gyfran o'r elw o werthu tir ar Orynys Greenwich gan Awdurdod Llundain Fawr ar ôl i gostau penodol gael eu talu.  Nid oes unrhyw daliadau wedi dod yn ddyledus, ond rhagamcanir y bydd taliadau o £87 miliwn yn cael eu derbyn rhwng 2012 a 2031.

## 30. Rhwymedigaethau amodol

Rhoddir manylion ymrwymiadau meddal yn Nodyn 17. Nid oes unrhyw rwymedigaethau amodol eraill i adrodd amdanynt (2010/11 £0).

## 31. Adolygiad ar ôl y fantolen

Ni chafwyd unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol yn effeithio'n ariannol ar y cyfrifon blynyddol rhwng 31 Mawrth 2012 a dyddiad awdurdodi cyhoeddiad y cyfrifon hyn, 12 Gorffennaf 2012

# Ein grantiau mawr

Yn ystod 2011/12 gwnaed chwe dyfarniad o £5 miliwn neu fwy. Rydym bellach yn rheoli cyfanswm o 40 dyfarniad gyda gwerth o £5 miliwn neu fwy. Yn yr atodiad hwn crynhown gynnydd pob un o'r dyfarniadau hyn. Nid yw'r atodiad hwn yn destun archwiliad.

## Portffolio y DU

### Rhaglen ryngwladol

**Mudiad:** **Helpage International**
**Enw'r cynllun grant:** **Preventing HIV/AIDS and alleviating its impact in multi-generational households**
**Grant a ddyfarnwyd:** **£5.1 miliwn**

Nod y portffolio hwn o naw prosiect ar draws Dwyrain a De Affrica yw ymdrin ag anghenion pobl hŷn, pobl sy'n byw gyda HIV/AIDS, a phlant amddifaid a bregus sy'n byw mewn aelwydydd aml-genhedlaeth lle mai aelodau hŷn y teulu sydd â'r baich gofalu am y teulu oherwydd salwch neu farwolaeth y genhedlaeth ganol. Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 ac yn 2009/10 cymeradwywyd cynnydd yn y grant fel rhan o becyn cefnogaeth ychwanegol ar gyfer grantiau rhyngwladol sy'n cael eu heffeithio gan y dirywiad economaidd byd-eang. Erbyn 31 Mawrth 2012 roeddem wedi talu £4,034,061. Disgwylir i'r prosiect gael ei gwblhau erbyn mis Ebrill 2013.

**Mudiad:** **Care International**
**Enw'r cynllun grant:** **Enhancing mobile populations' access to HIV/AIDS services, information and support**
**Grant a ddyfarnwyd:** **£ 5.1 miliwn**

Nod y portffolio pum mlynedd hwn o brosiectau yw datblygu model o weithio gyda phoblogaethau mudol wedi'u hymyleiddio sy'n agored i HIV/AIDS ar lwybrau mudoledd uchel rhwng Bangladesh, India a Nepal. Dyfarnwyd y grant yn 2008/09 ac yn 2009/10 cymeradwywyd cynnydd yn y grant fel rhan o becyn cefnogaeth ychwanegol ar gyfer deiliaid grantiau rhyngwladol sy'n cael eu heffeithio gan y dirywiad economaidd byd-eang. Erbyn 31 Mawrth 2012 roeddem wedi talu £2,161,856. Disgwylir i'r prosiect gael ei gwblhau erbyn mis Awst 2014.

**Mudiad:** **Coleg y Brifysgol Llundain – Sefydliad Iechyd Plant**
**Enw'r cynllun grant:** **Improving maternal, newborn and child health in low-income countries**
**Grant a ddyfarnwyd:** **£5.1 million**

Nod y portffolio pum mlynedd hwn o brosiectau yw lleihau marwolaeth ymysg mamau a phlant mewn ardaloedd gwledig a dargedir yn Bangladesh ac India drwy wella arferion gofal cartref megis bwydo ar y fron yn gynnar a defnyddio citiau esgor diogel, a chynyddu gofal iechyd i fenywod beichiog a babanod drwy leihau oedi wrth geisio gofal a'i chyrraedd. Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 ac yn 2009/10 cymeradwywyd cynnydd yn y grant fel rhan o becyn cefnogaeth ychwanegol ar gyfer grantiau rhyngwladol sy'n cael eu heffeithio gan y dirywiad economaidd byd-eang. Erbyn 31 Mawrth 2012 roeddem wedi talu £3,853,857. Disgwylir i'r grant gael ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2013.

## Living Landmarks

**Mudiad:** Sustrans
**Enw'r cynllun grant:** Connect2
**Grant a ddyfarnwyd:** £50 miliwn

Nod y prosiect yw cysylltu pobl â'i gilydd ac â lleoedd drwy fynd i'r afael ag achosion 'gwahanu' o fewn cymunedau, megis ffyrdd a rheilffyrdd prysur sy'n gwneud teithio o un lle i'r llall yn anoddach.

Dyfarnwyd y grant yn 2007/08, ac erbyn 31 Mawrth 2012, roeddem wedi talu £19,213,881 i'r derbynnydd. Rhagwelir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau erbyn mis Gorffennaf 2013.

**Mudiad:** Falkirk Council
**Enw'r cynllun grant:** The HELIX 'creating living connections'
**Grant a ddyfarnwyd:** £25 miliwn

Mewn lleoliad rhwng Falkirk a Grangemouth, bydd y prosiect yn creu cyswllt camlas newydd, peiriant codi cychod 'Kelpie', cyrchfan camlesi a pharc 'Helics' newydd.

Dyfarnwyd y grant yn 2007/08, ac erbyn 31 Mawrth 2012, roeddem wedi talu £3,420,708 i'r derbynnydd. Rhagwelir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau yn 2013.

**Mudiad:** Cyngor Cernyw
**Enw'r cynllun grant:** Cornwall's Heartlands Project
**Grant a ddyfarnwyd:** £22.3 miliwn

Bydd y prosiect yn trawsnewid safle tir llwyd 7.5 hectar yn Pool, gan gynnwys 4.5 hectar o dir segur a Robinson's Shaft, grŵp o adeiladau mwyngloddio rhestredig, i greu rhwydwaith o fannau gwyrdd a chyfleusterau amlddefnydd.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 ac erbyn 31 Mawrth 2012 roeddem wedi talu £20,131,342. Mae'r prosiect bellach wedi cyrraedd y cam cwblhau ymarferol ac fe'i agorwyd yn swyddogol ym mis Ebrill 2012.

**Mudiad:** Cyngor Dinas Belfast
**Enw'r cynllun grant:** Connswater Community Greenway
**Grant a ddyfarnwyd:** £23.5 miliwn

Bydd y prosiect yn creu parc llinol drwy Ddwyrain Belfast gan ddilyn llwybr Afon Connswater a'i llednentydd, Afon Loop ac Afon Knock.

Dyfarnwyd y grant yn 2007/08, ac erbyn 31 Mawrth 2012, roeddem wedi talu £1,441,569 i'r derbynnydd. Mae'r raddfa amser wedi'i hoedi oherwydd trafodaethau contract.

## Ymddiriedolaeth Forces in Mind

**Mudiad:** Confederation of British Service and Ex-Service Organisations
**Enw'r cynllun grant:** Forces in Mind
**Grant a ddyfarnwyd:** £35 miliwn

Mae Ymddiriedolaeth Forces in Mind, sy'n anelu at gefnogi lles seicolegol cyn-filwyr a'u teuluoedd a'u helpu i symud yn llwyddiannus i fywyd fel sifiliaid, yn canolbwyntio ar gyn-filwyr o wrthdaro mwy diweddar. Lansiwyd y rhaglen Forces in Mind gwerth £35 miliwn ar 25 Mehefin 2010 er mwyn i ymgeiswyr sefydlu Ymddiriedolaeth annibynnol ar draws y DU gyda gwaddol o £35 miliwn i'w wario dros 20 mlynedd.

Sefydlwyd yr Ymddiriedolaeth ar 31 Ionawr 2012 ac mae eisoes wedi sicrhau cefnogaeth bartneriaeth gan Sefydliad y Tywysogion William a Harry a fydd yn cefnogi'r Ymddiriedolaeth gyda'i grantiau ei hun dros raglen tair blynedd yn ogystal â helpu i gynyddu ymwybyddiaeth o'r problemau y mae cyn-filwyr yn eu hwynebu.

Erbyn 31 Mawrth 2012 roedd £35,000,000 wedi'i dalu. Disgwyliwn y bydd yr ymddiriedolaeth yn cwblhau'r gwaith hwn yn 2032.

## Efelychu ac Arloesedd

**Mudiad:** Social Finance Limited
**Enw'r cynllun grant:** Social Impact Bond - HMP Peterborough
**Grant a ddyfarnwyd:** £6.3 miliwn

Bydd y prosiect hwn yn profi llwyddiant model y Bond Effaith Gymdeithasol er mwyn gweld a ellir profi y bydd yn lleihau cyfraddau aildroseddu ymysg troseddwyr tymor byr yng Ngharchar EM Peterborough.

Bydd y prosiect yn codi arian gan fuddsoddwyr i ariannu gwasanaethau megis cefnogaeth tai a cyngor ar ddyledion, gyda'r nod o gefnogi buddiolwyr yn y carchar am bedwar mis ar gyfartaledd ar ôl cael eu rhyddhau. Os yw'r ymyraethau hyn yn llwyddiannus wrth leihau'r gyfradd aildroseddu'n ddigonol, bydd y Gronfa Loteri Fawr yn darparu taliad rhannol yn seiliedig ar y canlyniadau llwyddiannus hyn. Mae'r Gronfa Loteri Fawr hefyd yn talu am gostau gweinyddol y prosiect. Bydd buddiolwyr y prosiect yn garcharorion gwryw â dedfrydau byr (o dan ddwy flynedd), eu teuluoedd a'r cymunedau y maent yn dod ohonynt.

Dyfarnwyd y grant i'r prosiect ym mis Mehefin 2010. Erbyn 31 Mawrth 2012 roeddem wedi talu £428,404. Disgwylir i'r prosiect gael ei gwblhau erbyn mis Gorffennaf 2018.

**Mudiad:** Social Finance Limited
**Enw'r cynllun grant:** Building a market for Social Impact Bonds
**Grant a ddyfarnwyd:** £5 miliwn

Mae'r prosiect hwn yn anelu at ddatblygu model ariannu'r Bond Effaith Gymdeithasol er mwyn mynd i'r afael â nifer o broblemau cymdeithasol sydd wedi hen galedu. Trwy'r grant hwn bydd Social Finance yn datblygu o leiaf tri SIB mewn nifer o feysydd thematig. Bydd y marchnadle'n cael ei ddatblygu ymhellach trwy ymgysylltu â'r llywodraeth a budd-ddeiliaid a buddsoddwyr eraill wrth ddatblygu Bondiau Effaith Gymdeithasol a lledaenu arfer gorau ac offerynnau i alluogi efelychu'r model yn gyflym.

Dyfarnwyd y grant i'r prosiect ym mis Awst 2010. Erbyn 31 Mawrth 2012 roeddem wedi talu £3,000,000. Disgwylir i'r prosiect gael ei gwblhau ym mis Medi 2013.

**Mudiad:** Catch 22 Charity Limited
**Enw'r cynllun grant:** Gwireddu Uchelgais
**Grant a ddyfarnwyd:** £24.9 miliwn

Mae Gwireddu Uchelgais yn fuddsoddiad £25 miliwn a fydd yn efelychu ymyraethau effeithiol a seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi pobl ifanc i gyflawni eu potensial ac osgoi llwybrau sy'n arwain at droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae dau ddimensiwn allweddol iddi - atal pobl rhag troseddu am y tro cyntaf ac efelychu arfer SGCh effeithiol.

Mae'r rhaglen yn cael ei chyflwyno trwy'r model portffolio. Ym mis Mawrth 2012 penodwyd consortiwm a arweiniwyd gan Catch 22 fel ein Partner DU i gyflwyno'r rhaglen.

Ar ôl dyfarnu grant datblygu'n flaenorol i sefydlu'r prosiect hwn, erbyn 31 Mawrth 2012 nid ydym wedi gwneud taliadau ar gyfer y grant hwn. Dros y flwyddyn ariannol nesaf bydd catch 22 a phartneriaid yn dechrau ar waith dwys gyda 25 o brosiectau sydd wedi cael eu dewis fel rhan o'r portffolio. Mae'r rhain yn cynrychioli rhai o'r prosiectau sydd â'r dystiolaeth orau yn y DU o gefnogi pobl ifanc i osgoi troseddu. Disgwyliwn i'r prosiect gael ei gwblhau erbyn 2015.

## Cyfranogiad a Chynnwys y Cyhoedd

**Mudiad:** The Foundation and Friends of The Royal Botanic Gardens, Kew
**Enw'r cynllun grant:** Grow Wild
**Grant a ddyfarnwyd:** £10.5 miliwn

Bydd y rhaglen hon yn ymgyrch cynnwys y cyhoedd cenedlaethol enfawr i ysbrydoli unigolion, grwpiau a chymunedau i gymryd camau cadarnhaol dros gadwraeth leol. Bydd y prosiect yn cydweithio â mudiadau ar draws y DU i annog y cyhoedd i feddwl eto am flaenoriaethau amgylcheddol a phwysigrwydd heriau amgylcheddol allweddol, mewn ffordd gynhwysfawr, cynhwysol a phellgyrhaeddol. Cyfanswm gwerth y prosiect yw £12,967,123, y mae £10,505,123 ohono wedi'i ddyfarnu gan y Gronfa Loteri Fawr.

Dros gyfnod y grant mae Kew wedi pennu targedau uchelgeisiol i gyrraedd dros 4 miliwn o bobl ifanc ac annog dros 1 miliwn o bobl i weithredu. Bydd pedair gardd nodedig yn trawsnewid mannau trefol nas defnyddiwyd, bydd dros 2 filiwn o safleoedd yn cael eu plannu a 200,000 o safleoedd ychwanegol yn cael eu plannu gan bobl ifanc.

Dyfarnodd pwyllgor ariannu'r DU £10,505,123 i'r prosiect Kew Go Native! ym mis Mawrth 2012. Erbyn 31 Mawrth 2012 nid ydym wedi gwneud unrhyw daliadau. Disgwyliwn y bydd y prosiect wedi'i gwblhau erbyn 2017.

**Mudiad:** Public Service Broadcasting Trust Limited
**Enw'r cynllun grant:** Fixers
**Grant a ddyfarnwyd:** £7.2 miliwn

Mae Fixers yn brosiect arloesol sydd wedi profi ei werth a gyflwynir ar hyn o bryd yn Lloegr a fydd yn ehangu ei raglen pobl ifanc yn Lloegr ac yn ei chyflwyno ar draws y DU. Gall pobl ifanc rhwng 16 a 25 oed ddewis a datblygu ymgyrchoedd a fydd yn ddefnyddiol i'r gymuned leol ac yn helpu pobl eraill. Mae dros 5,000 o bobl ifanc wedi gweithio ar 600 o brosiectau Fixers a fydd, ar ôl i'w graddfa gynyddu, yn cyrraedd tua 21,000 o 'Fixers' newydd.

Dyfarnodd pwyllgor ariannu'r DU £7,197,907 i'r prosiect Fixers ym mis Mawrth 2012. Erbyn 31 Mawrth 2012 nid ydym wedi gwneud unrhyw daliadau. Disgwyliwn y bydd y prosiect wedi'i gwblhau erbyn 2016.

## Rhaglenni DU eraill

### Ymddiriedolaeth Cyfran Deg

**Mudiad:** Ymddiriedolaeth Cyfran Deg Cyf
**Enw'r cynllun grant:** Ymddiriedolaeth Cyfran Deg
**Grant a ddyfarnwyd:** £50 miliwn

Mae Ymddiriedolaeth Cyfran Deg wedi'i thargedu at 77 o ardaloedd ar draws y DU a gollodd allan ar arian y Loteri cyn 2002. Y Rhwydwaith Sefydliadau Cymunedol yw'r unig Ymddiriedolwr ar gyfer y rhaglen ar draws y DU ac yn rheoli asiantau datblygu ym mhob ardal Cyfran Deg.

Mae'r rhaglen yn helpu cymunedau i gymryd rheolaeth ar eu hanghenion a'u blaenoriaethau eu hunain trwy eu cynnwys wrth benderfynu beth yw'r anghenion a'r blaenoriaethau hynny a sut y dylid eu diwallu. Mae wedi adeiladu sgiliau cymunedol, hyder, profiad a rhwydweithiau er mwyn sicrhau effaith gadarnhaol a pharhaol ym mhob ardal.

Talwyd y grant llawn i'r Ymddiriedolaeth yn 2002/03. Yn Yr Alban daeth y rhaglen i ben yn 2010 a bydd yn gorffen yng ngweddill y DU yn 2013.

### Yr Ymddiriedolaeth Etifeddiaeth

**Mudiad:** Ymddiriedolaeth Etifeddiaeth y DU
**Enw'r cynllun grant:** Ymddiriedolaeth Etifeddiaeth y DU
**Grant a ddyfarnwyd:** £29 miliwn

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08. Gwnaethom ddyfarnu grant o £29 miliwn. Gwnaed dyfarniadau ar wahân gan DCMS a Chyngor Celfyddydau Lloegr i greu gwaddol £40 miliwn ar gyfer Ymddiriedolaeth Etifeddiaeth y DU. Bydd Ymddiriedolaeth Etifeddiaeth y DU yn helpu cymunedau ledled y wlad i greu etifeddiaeth a fydd yn parhau yn sgil Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain yn 2012. Bydd eu prosiectau'n uno diwylliant, chwaraeon ac addysg; yn gwneud gwahaniaeth parhaus i bawb dan sylw; yn cefnogi mentrau llawr gwlad, sydd yn aml yn fach eu graddfa; ac yn uno cymunedau buddiant ar lefel leol a rhanbarthol. Mae Ymddiriedolaeth Etifeddiaeth y DU eisoes wedi ymrwymo'r mwyafrif o'r arian ar gyfer ei rhaglen ranbarthol a chenedlaethol, a bydd yn cwblhau ei waith erbyn 2013.

## Portffolio Lloegr

### BASIS

**Mudiad:** Cyngor Ffoaduriaid Prydain
**Enw'r cynllun grant:** RCO Infrastructure Building Project- Realising Potential
**Grant a ddyfarnwyd:** £5.1 miliwn (BASIS), £10,000 (Supporting Change and Impact)

Bydd y prosiect hwn yn sefydlu cefnogaeth isadeiledd ar draws Lloegr ar gyfer cyflwyno cefnogaeth ac adeiladu gallu i Sefydliadau Cymunedol Ffoaduriaid (RCO).

Bydd 400 RCO yn elwa o gyngor ar eu datblygiad, eu cynaladwyedd, eu llywodraethu a'u rheolaeth.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 ac ym mis Chwefror 2012 dyfarnwyd ariannu gwerth £10,000 ar gyfer Supporting Change and Impact. Erbyn 31 Mawrth 2012 roeddem wedi talu £4,710,878. Rhagwelir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau erbyn mis Medi 2012.

### Big Local

**Mudiad:** Big Local Trust
**Enw'r cynllun grant:** Big Local Trust
**Grant a ddyfarnwyd:** £196.9 miliwn

Bydd rhaglen y Big Local Trust (BLT) yn cael ei chyflwyno gan fudiad newydd a sefydlir trwy gonsortiwm a arweinir gan The Community Development Foundation (CDF) a chwe phartner cyflwyno, Capacity Global, CCLA, IVAR, NMAN, Renaisi ac UnLtd. Byddant yn gweithredu fel ymddiriedolwr corfforaethol yr ymddiriedolaeth i gyflwyno BLT, gyda'r nod o greu cymdogaethau cynaliadwy a gwydn. Disgwylir y bydd yr ymddiriedolaeth yn gweithredu am o leiaf 10 mlynedd, gyda gwasanaethau'n cael eu cyflwyno yn Lloegr.

Amcanion y prosiect yw cyflwyno rhaglen weithgareddau i ddarparu cymorth hir dymor sy'n cefnogi ac yn cydlynu â'r gwaith gwerthfawr sydd eisoes yn cael ei gyflawni ar lefel gymunedol, leol a chenedlaethol i helpu ardaloedd a chymunedau lleol difreintiedig i adeiladu eu gallu.

Lansiwyd yr ymddiriedolaeth ym mis Chwefror 2012. Erbyn 31 Mawrth 2012 roeddem wedi talu £100,000,000.

### Changing Spaces

**Mudiad:** Building Research Establishment Ltd
**Enw'r cynllun grant:** The Community Sustainable Energy programme
**Grant a ddyfarnwyd:** £11.7 miliwn

Mae'r portffolio hwn yn dyfarnu grantiau i fudiadau cymunedol nid er elw cymwys ar gyfer gosod technolegau microgynhyrchu trydan megis tyrbinau gwynt a phaneli solar, ynghyd â mesurau arbed ynni.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 ac erbyn 31 Mawrth 2012 roeddem wedi talu £10,256,930. Rhagwelir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau erbyn mis Mehefin 2013.

**Mudiad:** Groundwork
**Enw'r cynllun grant:** Community Spaces
**Grant a ddyfarnwyd:** £57.5 miliwn (Changing Spaces), £806,400 (Supporting Change and Impact)

Mae Groundwork yn defnyddio'r ariannu i ddyfarnu grantiau i grwpiau cymunedol nid er elw i greu gwell amgylcheddau lleol a chynyddu mynediad i fannau lleol, yn ogystal â gwella mannau gwyrdd lleol a chynyddu nifer o bobl sy'n ymwneud yn weithredol â datblygu a rhedeg prosiectau amgylcheddol.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 ac ym mis Rhagfyr 2011 dyfarnwyd ariannu gwerth £806,400 ar gyfer Supporting Change and Impact i'r partner dyfarnu. Erbyn 31 Mawrth 2012 roeddem wedi talu £50,818,828. Rhagwelir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2014.

**Mudiad:** Natural England
**Enw'r cynllun grant:** Access to Nature
**Grant a ddyfarnwyd:** £28.8 miliwn (Changing Spaces), £1.4 miliwn (Supporting Change and Impact)

Mae Natural England yn defnyddio'r ariannu i ddyfarnu grantiau i fudiadau'r sectorau gwirfoddol, cymunedol a chyhoeddus i weithio gyda phobl nad oes ganddynt lawer o wybodaeth am natur neu gyswllt â hi. Mae'r prosiectau'n annog pobl i ddysgu am yr amgylchedd naturiol a hefyd i greu/gwella mannau bywyd gwyllt i ddiwallu anghenion cymunedau lleol.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 ac ym mis Rhagfyr 2011 dyfarnwyd ariannu gwerth £1,363,200 ar gyfer Supporting Change and Impact i'r partner dyfarnu. Erbyn 31 Mawrth 2012 roeddem wedi talu £16,607,793. Rhagwelir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau erbyn mis Medi 2014.

**Mudiad:** Cymdeithas Frenhinol Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt
**Enw'r cynllun grant:** Local Food
**Grant a ddyfarnwyd:** £57.5 miliwn (Changing Spaces), £2.3 miliwn (Supporting Change and Impact)

Mae'r Gymdeithas Frenhinol Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt yn defnyddio'r ariannu i wneud dyfarniadau i grwpiau cymunedol nid er elw ar gyfer prosiectau sy'n rhoi'r cyfle i bobl dyfu a phrynu bwyd yn lleol drwy, er enghraifft, rhandiroedd a chynlluniau blychau. Nod y prosiectau yw ysgogi gweithgarwch economaidd drwy ddatblygu mentrau cymdeithasol sy'n ymwneud â bwyd lleol ac yn hyrwyddo'r cysylltiad rhwng bwyd a ffyrdd iach o fyw.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 ac ym mis Rhagfyr 2011 dyfarnwyd ariannu gwerth £2,342,400 ar gyfer Supporting Change and Impact i'r partner dyfarnu. Erbyn 31 Mawrth 2012 roeddem wedi talu £33,295,752. Rhagwelir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2014.

**Mudiad:** MIND
**Enw'r cynllun grant:** Ecominds
**Grant a ddyfarnwyd:** £8.9 miliwn (Changing Spaces), £2 miliwn (Supporting Change and Impact)

Mae MIND yn defnyddio'r ariannu i wneud dyfarniadau i grwpiau cymunedol nid er elw ar gyfer prosiectau sy'n integreiddio defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl i'r gymuned.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2008/09 ac ym mis Rhagfyr 2011 dyfarnwyd ariannu gwerth £2,014,999 ar gyfer Supporting Change and Impact i'r partner dyfarnu. Erbyn 31 Mawrth 2012 roeddem wedi talu £9,214,254. Rhagwelir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau erbyn mis Medi 2013.

**Mudiad:** The Crime Concern Trust Ltd
**Enw'r cynllun grant:** Community Space Challenge
**Grant a ddyfarnwyd:** £8.4 miliwn (Changing Spaces), £1.3 miliwn (Supporting Change and Impact)

Mae Crime Concern Trust yn darparu amrywiaeth o brosiectau amgylcheddol ar gyfer pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddu. Mae'r prosiectau'n cynnwys pobl leol wrth wella eu cymdogaethau, gan roi ymdeimlad o falchder yn eu cymuned iddynt.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 ac ym mis Rhagfyr 2012 dyfarnwyd ariannu gwerth £1,288,600 ar gyfer Supporting Change and Impact i'r portffolio. Erbyn 31 Mawrth 2012 roeddem wedi talu £7,220,022. Rhagwelir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau erbyn mis Medi 2012.

**Mudiad:** Imperial College
**Enw'r cynllun grant:** Open Air Laboratories Network
**Grant a ddyfarnwyd:** £13 miliwn (Changing Spaces), £1.5 miliwn (Supporting Change and Impact)

Mae'r rhwydwaith o brosiectau'n cydweithio â phobl yn eu cymunedau wrth ochr gwyddonwyr blaenllaw er mwyn datblygu'r sgiliau a'r profiad i archwilio, astudio, mwynhau a diogelu eu hamgylchedd naturiol. Mae'r data'n cael ei gasglu i ddarparu adnodd addysgol newydd y gall y cymunedau ei hygyrchu.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 ac ym mis Chwefror 2012 dyfarnwyd ariannu gwerth £1,500,000 ar gyfer Supporting Change and Impact i'r portffolio. Erbyn 31 Mawrth 2012 roeddem wedi talu £12,119,026. Rhagwelir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2012.

**Mudiad:** Sefydliad Plunkett
**Enw'r cynllun grant:** Making Local Food Work
**Grant a ddyfarnwyd:** £10 miliwn (Changing Spaces), £500,000 (Supporting Change and Impact)

Mae Sefydliad Plunkett yn defnyddio'r ariannu i wneud dyfarniadau i brosiectau sy'n gweithio gyda phobl leol er mwyn iddynt dyfu eu bwyd eu hunain a rhedeg eu siopau a'u cydweithfeydd eu hunain.

Mae'n ceisio ailgysylltu defnyddwyr â'r tir drwy gynyddu mynediad i bwyd ffres, iachus a lleol.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 ac ym mis Chwefror 2012 dyfarnwyd ariannu gwerth £500,000 ar gyfer Supporting Change and Impact i'r portffolio. Erbyn 31 Mawrth 2012 roeddem wedi talu £9,953,673. Rhagwelir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau erbyn mis Medi 2012.

**Mudiad:** Places for People Homes Ltd
**Enw'r cynllun grant:** Green spaces for people
**Grant a ddyfarnwyd:** £15.7 miliwn (Changing Spaces), £1 miliwn (Supporting Change and Impact)

Mae'r ariannu hwn yn hwyluso amrywiaeth o brosiectau i greu a gwella mannau gwyrdd ar gyfer pobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol, yn enwedig ar ystadau lle mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn broblem.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 ac ym mis Chwefror 2012 dyfarnwyd ariannu gwerth £1,000,000 ar gyfer Supporting Change and Impact i'r portffolio. Erbyn 31 Mawrth 2012 roeddem wedi talu £15,878,999. Rhagwelir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau erbyn mis Medi 2012.

## Lles

**Mudiad:** The Soil Association
**Enw'r cynllun grant:** Food for Life
**Grant a ddyfarnwyd:** £16.9 miliwn (Well-being), £1 miliwn (Supporting Change and Impact)

Sefydlodd y portffolio cenedlaethol hwn 20 cymuned flaenllaw ym mhob un o naw rhanbarth y llywodraeth. Gan ddefnyddio ysgolion lleol fel bothau, nod y portffolio yw i blant a theuluoedd wella eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u mynediad i bwydydd iach a chynaliadwy.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 ac ym mis Chwefror 2012 dyfarnwyd ariannu gwerth £1,004,400 ar gyfer Supporting Change and Impact i'r portffolio. Erbyn 31 Mawrth 2012 roeddem wedi talu £16,913,532. Rhagwelir y caiff y prosiect ei gwblhau erbyn mis Ebrill 2013.

**Mudiad:** School Food Trust
**Enw'r cynllun grant:** Let's Get Cooking
**Grant a ddyfarnwyd:** £20 miliwn (Lles), £1 miliwn (Supporting Change and Impact)

Nod y portffolio prosiectau cenedlaethol hwn yw cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad bwyta plant oedran ysgol, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 ac ym mis Chwefror 2012 dyfarnwyd ariannu gwerth £1,037,824 ar gyfer Supporting Change and Impact i'r portffolio. Erbyn 31 Mawrth 2012 roeddem wedi talu £17,079,655. Rhagwelir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau erbyn diwedd mis Hydref 2013.

.

**Mudiad:** Awdurdod Llundain Fawr
**Enw'r cynllun grant:** Well London
**Grant a ddyfarnwyd:** £9.5 miliwn (Lles), £486,000 (Supporting Change and Impact)

Mae'r portffolio hwn yn gweithio'n agos gyda 20 o gymunedau bach a difreintiedig i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd sy'n gysylltiedig â deiet gwael, diffyg gweithgarwch corfforol a lles meddyliol gwael.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 ac ym mis Chwefror 2012 dyfarnwyd ariannu gwerth £486,000 ar gyfer Supporting Change and Impact i'r portffolio. Erbyn 31 Mawrth 2012 roeddem wedi talu £9,460,000. Rhagwelir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau erbyn mis Mai 2013.

**Mudiad:** Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Stockport
**Enw'r cynllun grant:** North West Networks for Healthy Living Partnership
**Grant a ddyfarnwyd:** £7 miliwn (Lles), £589,898 (Supporting Change and Impact)

Mae'r portffolio hwn yn cynnwys Gogledd-orllewin Lloegr ac yn cynnwys prosiectau 'celf ar bresgripsiwn' ar gyfer y rhai sydd ag anawsterau iechyd meddwl ysgafn i gymedrol, gweithdai coginio a bwyta 'cawl a salad' a rhaglenni 'iach am fywyd'.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 ac ym mis Chwefror 2012 dyfarnwyd ariannu gwerth £589,898 ar gyfer Supporting Change and Impact i'r portffolio. Erbyn 31 Mawrth 2012 roeddem wedi talu £6,184,671. Rhagwelir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau erbyn mis Medi 2013.

**Mudiad:** Awdurdod Iechyd Strategol Swydd Efrog a'r Humber
**Enw'r cynllun grant:** Altogether Better – working to create healthier people and communities
**Grant a ddyfarnwyd:** £6.9 miliwn (Well-being), £202,108 (Supporting Change and Impact)

Mae'r portffolio hwn yn cynnwys rhanbarth Swydd Efrog a'r Humber a nod y prosiectau yw helpu pobl i fwyta'n fwy iach, bod yn fwy actif yn gorfforol a gwella'u hiechyd meddwl.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 ac ym mis Chwefror 2012 dyfarnwyd ariannu gwerth £202,108 ar gyfer Supporting Change and Impact i'r portffolio. Erbyn 31 Mawrth 2012 roeddem wedi talu £6,724,031. Rhagwelir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau erbyn mis Mai 2013.

**Mudiad:** Age UK (National Council on Ageing gynt)
**Enw'r cynllun grant:** Fit as a Fiddle
**Grant a ddyfarnwyd:** £15.1 miliwn (Lles), £979,828 (Supporting Change and Impact)

Mae'r portffolio prosiectau cenedlaethol 'Fit as a Fiddle' hwn yn ceisio symbylu diddordeb pobl hŷn mewn gweithgareddau corfforol a bwyta'n iach, yn ogystal ag ymdrin â materion sy'n ymwneud ag iechyd meddyliol a chorfforol.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 ac ym mis Chwefror 2012 dyfarnwyd ariannu gwerth £979,828 ar gyfer Supporting Change and Impact i'r portffolio. Erbyn 31 Mawrth 2012 roeddem wedi talu £13,571,694. Rhagwelir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2013.

**Mudiad:** Mind – National Association for Mental Health
**Enw'r cynllun grant:** Time to Change
**Grant a ddyfarnwyd:** £16.2 miliwn (Lles), £467,136 (Supporting Change and Impact)

Mae portffolio prosiectau cenedlaethol hwn yn ceisio dileu stigma a gwahaniaethu drwy wella dealltwriaeth gyhoeddus, cynyddu dyheadau pobl a'u hannog i sefyll dros eu hawliau.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 ac ym mis Chwefror 2012 dyfarnwyd ariannu gwerth £467,136 ar gyfer Supporting Change and Impact i'r portffolio. Erbyn 31 Mawrth 2012 roeddem wedi talu £16,016,259. Rhagwelir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau erbyn mis Ebrill 2013.

**Mudiad:** Sustrans Cyf
**Enw'r cynllun grant:** Active Travel Consortium
**Grant a ddyfarnwyd:** £20 miliwn (Well-being), £1.4 million (Supporting Change and Impact)

Nod y portffolio cenedlaethol hwn o brosiectau yw galluogi unigolion y nodwyd eu bod yn anactif neu'n annigonol o actif i gerdded a beicio fel rhan o'u bywydau bob dydd, gan wella eu lles corfforol a meddyliol.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 ac ym mis Chwefror 2012 dyfarnwyd ariannu gwerth £1,413,276 ar gyfer Supporting Change and Impact i'r portffolio. Erbyn 31 Mawrth 2012 roeddem wedi talu £19,762,018 miliwn. Rhagwelir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau erbyn mis Mai 2013.

**Mudiad:** Ffederasiwn Ymddiriedolaethau Groundwork
**Enw'r cynllun grant:** Target: Lles
**Grant a ddyfarnwyd:** £8.9 miliwn (Lles), £1.2 miliwn (Supporting Change and Impact)

Portffolio o 91 o brosiectau sy'n cynnwys rhanbarth y gogledd-orllewin yw hwn ac mae ei nod yw gwella lles pobl sy'n byw yn y cymunedau mwyaf difreintiedig drwy gyflwyno gweithgareddau sy'n gwella lles meddyliol, yn cynyddu lefelau gweithgarwch corfforol ac yn annog bwyta'n iach.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 ac ym mis Chwefror 2012 dyfarnwyd ariannu gwerth £1,190,223 ar gyfer Supporting Change and Impact i'r portffolio. Erbyn 31 Mawrth 2012 roeddem wedi talu £9,116,284. Rhagwelir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2013.

**Mudiad:** South East Coast Strategic Health Authority
**Enw'r cynllun grant:** Chances 4 Change – Re-addressing the hidden health inequalities in the South East
**Grant a ddyfarnwyd:** £5.6 miliwn (Lles), £735,197 (Supporting Change and Impact)

Mae'r portffolio hwn yn cynnwys 62 o brosiectau yn rhanbarth y De-ddwyrain i fynd i'r afael â'r grwpiau a'r unigolion sydd wedi'u heithrio fwyaf yn gymdeithasol, yn economaidd ac yn ddaearyddol ac sydd am wella eu hiechyd yn barhaol.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 a chwblhaodd y portffolio ei waith ym mis Tachwedd 2011. Ym mis Chwefror 2012 dyfarnwyd ariannu gwerth £735,197 ar gyfer Supporting Change and Impact i'r portffolio. Erbyn 31 Mawrth 2011 roeddem wedi talu £5,479,575. Rhagwelir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau erbyn mis Mai 2013.

**Mudiad:** Ymddiriedolaeth Peabody
**Enw'r cynllun grant:** Activate London
**Grant a ddyfarnwyd:** £4.7 miliwn (Lles), £895,876 (Supporting Change and Impact)

Mae gan y portffolio hwn brosiectau ym mhob un o'r 33 o fwrdeistrefi, yn targedu'r problemau iechyd meddwl mwy cyffredin.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 ac ym mis Chwefror 2012 dyfarnwyd ariannu gwerth £895,876 ar gyfer Supporting Change and Impact i'r portffolio. Erbyn 31 Mawrth 2012 roeddem wedi talu £4,603,328. Rhagwelir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau erbyn mis Ebrill 2013.

## Portffolio'r Alban

### Investing in Communities – Dynamic, Inclusive Communities

**Mudiad:** Cyngor Mudiadau Gwirfoddol Yr Alban (SCVO)
**Enw'r cynllun grant:** Supporting Voluntary Action
**Grant a ddyfarnwyd:** £8.1 miliwn

Mae'r grant yn cydlynu rhaglen strategol o weithgareddau i wella effeithiolrwydd y rhwydwaith CGG yn gyffredinol, yn cydlynu ac yn gwella'r ffordd y mae'n gweithio gyda rhwydweithiau eraill y sector gwirfoddol a chydraddoldeb ar draws y wlad. Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007 ac erbyn 31 Mawrth 2012 roeddem wedi talu £7,526,075. Disgwyliwyd i'r prosiect gael ei gwblhau yn 2012 ond oherwydd oedi wrth ddatblygu rhai gweithgareddau prosiect mae'n bosib y caiff ei estyn i ran gyntaf 2013..

### Ymddiriedolaeth JESSICA (Yr Alban)

**Mudiad:** Resilience Scotland
**Enw'r cynllun grant:** Ymddiriedolaeth JESSICA (Yr Alban)
**Grant a ddyfarnwyd:** £14.9 miliwn

Bydd Ymddiriedolaeth JESSICA (Yr Alban) (a elwir bellach yn Resilience Scotland) yn gweithio ochr yn ochr â'r brif Ymddiriedolaeth JESSICA a ariennir gan Ewrop i gynnig cefnogaeth ddatblygu, grantiau a benthyciadau ad-daladwy i grwpiau a arweinir gan gymunedau yn yr 13 cymuned drefol fwyaf difreintiedig yn Yr Alban. Erbyn 31 Mawrth 2012 roeddem wedi gwneud gwaddol gwerth £14,920,000 i'r ymddiriedolaeth.

## Portffolio Gogledd Iwerddon

### Ymddiriedolaeth Building Change (Gogledd Iwerddon)

**Mudiad:** Building change Trust Ltd
**Enw'r cynllun grant:** Building Change Trust
**Grant a ddyfarnwyd:** £10 miliwn

Bydd Ymddiriedolaeth Building Change yn buddsoddi £10 miliwn i helpu grwpiau cymunedol a sefydliadau gwirfoddol mwy i addasu a datblygu ffyrdd newydd o weithio er mwyn sicrhau y bydd y sector yn addas i'r diben yn y dyfodol. Caiff yr arian ei fuddsoddi dros 10 mlynedd.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2008/09. Erbyn 31 Mawrth 2009 roedd £10,000,000 wedi'i dalu. Rhagwelir y caiff y prosiect hwn ei gwblhau yn 2019.

# Ein cefndir statudol

## Cyfarwyddiadau polisi

Rhoddir y pŵer i'n hadran noddi o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 i roi Cyfarwyddiadau o ran materion sydd i'w hystyried wrth ddyfarnu grantiau. Trosglwyddodd cyfrifoldeb dros y Gronfa Loteri Fawr, gan gynnwys pennu cyfarwyddiadau polisi, o'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i Swyddfa'r Cabinet ar 13 Ebrill 2011. Yn dilyn ymgynghoriad cynhwysfawr mae gennym gyfarwyddiadau polisi newydd bellach ar gyfer ein hariannu yn Lloegr, Ynys Manaw a'r DU a ddaw i rym o 01 Ebrill 2012.

Fodd bynnag, ar gyfer 2011/12 roedd ein cyfarwyddiadau Polisi cyfredol yn berthnasol ynghyd â chyfarwyddyd newydd a gyhoeddwyd ar 2 Rhagfyr 2010 ac a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2011. Amlinellir y cyfarwyddiadau hyn isod.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi cydymffurfio â'r Cyfarwyddiadau hyn ym mhob agwedd faterol trwy gydol y flwyddyn ariannol 2011/12.

## Lloegr a'r DU

**CYFARWYDDIADAU A RODDWYD I'R GRONFA LOTERI FAWR O DAN ADRAN 36E DEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL ETC. 1993**

Trwy hyn mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, wrth ddefnyddio'r pwerau a gyflwynwyd iddi gan adran 36E Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 ac ar ôl ymgynghori â'r Gronfa Loteri Fawr ("y Gronfa"), Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Gweinidogion yr Alban ac Adran dros Ddiwylliant, y Celfyddydau a Hamdden Gogledd Iwerddon yn unol ag adran 36E(5) y Ddeddf, yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Gronfa:

**1.** Yn y Cyfarwyddiadau hyn bydd unrhyw gyfeiriad at adran yn cyfeirio at adran yn Neddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993.

## Cyfarwyddiadau Cyffredinol

**2.** Wrth ddefnyddio unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant datganoledig Lloegr, gwariant datganoledig Ynys Manaw a gwariant grant trawsnewidiol, bydd y Gronfa yn ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy y dylai'r Gronfa ddosbarthu grantiau, y dibenion dros ddosbarthu grantiau a'r amodau y dylid eu hystyried wrth i'r Gronfa ddosbarthu arian:

**A.** Yr angen am sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu o dan adran 25(1) ar gyfer prosiectau sy'n hyrwyddo lles y cyhoedd ac nad ydynt wedi'u bwriadu'n bennaf er elw preifat.

**B.** Yr angen am sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu o dan adran 25(1) i brosiectau sy'n gwneud gwelliannau real a chynaliadwy i ansawdd bywyd cymunedau lleol.

**C.** Yr angen am annog arloesedd wedi'i gydbwyso gyda'r angen am reoli risg mewn modd sy'n gymesur â'r math o brosiect ac ymgeisydd.

**Ch.** Yr angen am hyrwyddo amcanion datblygiad cynaliadwy ymhellach.

**D.** Yr angen am bennu cyfyngiadau amser penodol ar y cyfnodau y mae grantiau'n daladwy, boed hynny ar gyfer gwariant cyfalaf neu refeniw.

**Dd.** Yr angen:

(i) ym mhob achos, i'r ymgeiswyr ddangos dichonoldeb ariannol y prosiect dros gyfnod y grant;

(ii) os ceisir am arian cyfalaf:

(a) am gynllun busnes clir gan gynnwys yr angen am sicrhau bod adnoddau ar gael er mwyn bodloni unrhyw gostau rhedeg a chynnal a chadw sy'n gysylltiedig â phob prosiect am gyfnod rhesymol, gan ystyried maint a natur y prosiect; a

(b) sicrhau proses werthuso a rheoli prosiect ar gyfer prosiectau mawr sy'n cyd-fynd â'r rhai yn Adolygiadau Gateway Swyddfa Masnach y Llywodraeth. .

(iii) mewn achosion eraill, dylid ystyried argaeledd tebygol arian arall i dalu am gostau parhaus am gyfnod rhesymol ar ôl cwblhau dyfarniad y Loteri, gan roi ystyriaeth i faint a natur y prosiect, ac i arian y Loteri gael ei ddefnyddio i gynorthwyo cynnydd tuag at ddichonoldeb pryd bynnag y bo'n bosib.

**E.** Y dymunoldeb o weithio gyda mudiadau eraill, gan gynnwys dosbarthwyr eraill, lle fo hyn yn ffordd effeithiol o gyflwyno elfennau o strategaeth y Gronfa.

**F.** Yr angen am sicrhau bod gan y Gronfa wybodaeth o'r fath y mae'n ei hystyried yn angenrheidiol i wneud penderfyniadau ar bob cais, gan gynnwys cyngor arbenigol annibynnol pan fo hynny'n ofynnol.

**Ff.** Yr angen am fynnu y bydd elfen o ariannu partneriaeth a/neu gyfraniadau mewn nwyddau gan ffynonellau eraill sy'n gymesur â gallu rhesymol y gwahanol fathau o ymgeiswyr, neu ymgeiswyr mewn ardaloedd penodol, i sicrhau'r cyfryw gefnogaeth.

**G.** Yr angen am gynnwys amod yn yr holl grantiau i gydnabod arian y Loteri gan ddefnyddio brand cyffredin y Loteri.

**Ng.** Yr angen am gynnwys y cyhoedd wrth lunio polisïau, pennu blaenoriaethau a dosbarthu grantiau.

## Grantiau Trawsnewidiol

**3.** Wrth ddefnyddio unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant grant trawsnewidiol, bydd y Gronfa yn ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy y dylai'r Gronfa ddosbarthu grantiau, y dibenion dros ddosbarthu grantiau a'r amodau y dylid eu hystyried wrth i'r Gronfa ddosbarthu arian:

**A.** Yr angen am sicrhau bod y Gronfa yn dosbarthu arian dros amser i brosiectau ym mhob gwlad yn y Deyrnas Unedig.

**B.** Yr angen i arian gael ei ddosbarthu at ddibenion gwariant cyfalaf ar brosiectau a dim ond ei ddosbarthu fel arall os yw'r arian:

(i) yn cael ei ddosbarthu at ddibenion gwaddolion neu ar ffurf grantiau refeniw pan fo'r:

(a) cyfryw waddolion neu grantiau yn gysylltiedig â phrosiect cyfalaf, y mae arian wedi'i ddosbarthu neu y bwriedir dosbarthu arian mewn perthynas â hwy; a phan fo'r

(b) cyfryw waddolion neu grantiau yn cefnogi cyflwyno canlyniadau'r prosiect, cynyddu hygyrchedd, lleihau rhwystrau at fynediad a sicrhau bod prosiectau o'r fath yn gynaliadwy; neu

(ii) yn cael ei ddosbarthu ar gyfer arian datblygu i brosiectau yr aseswyd eu bod yn addas i gael eu hariannu.

**C.** Yr angen am drawsnewid ac adfywio cymunedau a'r amgylchedd diriaethol.

**Ch.** Yr angen am gyfranogiad cyhoeddus helaeth wrth benderfynu dyfarnu grantiau sy'n:

(i) cynnwys ymgynghori, systemau pleidleisio neu fecanweithiau addas eraill;

(ii) rhydd rhag tuedd, llygredd a chamddefnydd; ac sy'n

(iii) cynnwys partneriaethau gyda chyfryngau darlledu, electronig, print ac eraill.

## Gwariant Datganoledig Lloegr ac Ynys Manaw

**4.** Wrth weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant datganoledig Lloegr ac Ynys Manaw, bydd y Gronfa'n ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy y bydd yn dosbarthu grantiau, y dibenion dros ddosbarthu grantiau, a'r amodau y dylid eu hystyried wrth i'r Gronfa ddosbarthu arian:

**A.** Yr angen am sicrhau bod y Gronfa, wrth ystyried ei hasesiad o anghenion ac unrhyw flaenoriaethau y mae wedi'u hadnabod yn ei strategaeth, dros amser yn dosbarthu arian i ledaeniad weddol eang o dderbynyddion, gan gynnwys mudiadau bach, y mudiadau hynny sy'n gweithredu ar lefel leol yn unig, mentrau cymdeithasol, a mudiadau sy'n gweithio dramor y mae ganddynt bencadlys yn Lloegr.

**B.** Yr angen am sicrhau dros amser bod y Gronfa'n dosbarthu arian yn rhesymol gyfartal rhwng gwariant ar/sy'n gysylltiedig â:

(i) hyrwyddo dysgu cymunedol;

(ii) hyrwyddo diogelwch a chydlyniant cymunedol; a

(iii) hyrwyddo lles corfforol a meddyliol.

**C.** Yr angen am ystyried buddiannau Lloegr yn gyffredinol, buddiannau holl rannau gwahanol Lloegr a meintiau poblogaeth cymharol, ac i ba raddau y gellir lleihau amddifadedd economaidd a chymdeithasol mewn rhannau gwahanol o Loegr.

**5.** Mewn perthynas â gwariant datganoledig Lloegr, bydd y Gronfa'n ystyried yr angen am ddosbarthu arian o dan adran 25(1) i brosiectau sydd â'r nod o gyflawni un neu fwy o'r amcanion canlynol:

**A.** Gwell cyfleoedd i bobl mewn bywyd, gyda gwell mynediad i hyfforddiant a datblygiad i wella eu sgiliau bywyd.

**B.** Cymunedau cryfach gyda dinasyddion mwy actif, yn cydweithio i fynd i'r afael â'u problemau.

**C.** Gwell amgylcheddau gwledig a threfol y gall cymunedau eu hygyrchu a'u mwynhau'n well.

**Ch.** Pobl a chymunedau mwy iach a mwy actif.

**6.** Mewn perthynas â gwariant datganoledig Lloegr ac Ynys Manaw, bydd y Gronfa, wrth ddosbarthu arian o dan adran 25(1), yn ystyried yr angen am sicrhau bod un neu'n fwy o'r blaenoriaethau a ganlyn yn cael eu bodloni:

**A.** Gwella sgiliau teuluol.

**B.** Gwella sgiliau llythrennedd, rhifedd, TGCh a chreadigol.

**C.** Datblygu sgiliau defnyddwyr, gan gynnwys rheoli cyllid a dyledion.

**Ch.** Datblygu sgiliau busnes sylfaenol, yn benodol ar gyfer menter gymdeithasol a chreadigol.

**D.** Dileu rhwystrau i, a datblygu, cyflogadwyedd, gan gynnwys drwy wella sgiliau cyfathrebu a datrys problemau.

**Dd.** Datblygu sgiliau bywyd, gan gynnwys sgiliau sy'n helpu i wella annibyniaeth bersonol a rhyngweithio ag eraill.

**E.** Cefnogi anghenion hyfforddi gwirfoddolwyr.

**F.** Dathlu hunaniaeth gymunedol, diwylliant, amrywiaeth a llwyddiannau.

**Ff.** Cryfhau isadeiledd y sector gwirfoddoli a gwirfoddol.

**G.** Adeiladu gallu ar gyfer cynnwys y gymuned.

**Ng.** Ehangu ar brofiadau plant a phobl ifanc a chodi disgwyliadau.

**H.** Lleihau unigedd, er enghraifft ar gyfer pobl hŷn, pobl anabl a'u gofalwyr, a galluogi iddynt gymryd rhan mewn bywyd cymunedol a theuluol.

**I.** Cefnogi dinasyddiaeth, arweinyddiaeth a chynllunio a chyflwyno lleol

**L.** Sicrhau mannau mwy diogel, yn rhydd rhag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu

**Ll.** Mannau cyhoeddus a chelf gyhoeddus wedi'u cynllunio'n dda, sy'n lân ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

**M.** Cynyddu defnydd gan y gymuned o barciau lleol, cyfleusterau chwarae, mannau cyhoeddus, adeiladau cymunedol a'r cefn gwlad.

**N.** Galluogi i gymunedau fynd i'r afael â phroblemau amgylcheddol lleol a gwella eu hamgylchedd lleol.

**O.** Hyrwyddo ymwybyddiaeth amgylcheddol drwy brosiectau addysgol.

**P.** Cynyddu cyfranogiad cymunedol mewn chwaraeon, dawns, chwarae a gweithgaredd corfforol a chreadigol.

**Ph.** Datblygu ymagweddau gwell at fynd i'r afael â phroblemau iechyd meddwl, gan gynnwys trwy addysg, ymwybyddiaeth gyhoeddus a'r celfyddydau.

**R.** Gwella cyfleoedd ar gyfer bwyta'n iachach a hyrwyddo'rberthynas rhwng dulliau cynhyrchu a'r amgylchedd.

**Rh.** Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd trwy brosiectau addysgol a gwybodaeth.

Llofnodwyd ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

30 Tachwedd 2006

## Lloegr

**CYFARWYDDYD A RODDWYD I'R GRONFA LOTERI FAWR O DAN ADRAN 36E(1) DEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL ETC. 1993**

Trwy hyn mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon, wrth ddefnyddio'r pwerau a roddwyd iddo gan adran 36E Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 ac ar ôl ymgynghori â'r Gronfa Loteri Fawr (“y Gronfa”) yn unol ag adran 36E(5) y Ddeddf, yn rhoi'r Cyfarwyddyd a ganlyn i'r Gronfa:

**1.** Yn y Cyfarwyddyd hwn bydd unrhyw gyfeiriad at adran yn cyfeirio at adran yn Neddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993.

**2.** Wrth bennu i bwy y bydd yn dosbarthu grantiau, y dibenion dros ddosbarthu grantiau, a'r amodau y dylid eu hystyried wrth iddi ddosbarthu arian o dan Adran 36B, bydd y Gronfa Loteri Fawr yn ystyried y materion a ganlyn wrth weithredu ei swyddogaethau mewn perthynas â gwariant Lloegr:

Yr angen am sicrhau y caiff ariannu yn Lloegr ei ddosbarthu i brosiectau sy'n creu buddion ar gyfer pobl a chymunedau lleol a wasanaethir gan y sector gwirfoddol a chymunedol.

Llofnodwyd ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon

2 Rhagfyr 2010

## Yr Alban

### CYFARWYDDIADAU A RODDIR I'R GRONFA LOTERI FAWR O DAN ADRAN 36E(4)(b) DEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL ETC. 1993

Trwy hyn mae Gweinidogion yr Alban, wrth ddefnyddio'r pwerau a gyflwynwyd iddynt gan adran 36E(4)(b) Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 ac ar ôl ymgynghori â'r Gronfa Loteri Fawr ("y Gronfa") ac ar ôl sicrhau caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn unol ag adran 36E(8) y Ddeddf, yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Gronfa:

**1.** Yn y Cyfarwyddiadau hyn bydd unrhyw gyfeiriad at adran yn cyfeirio at adran yn Neddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993.

## Cyfarwyddiadau Cyffredinol

**2.** Wrth weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant datganoledig Yr Alban, bydd y Gronfa'n ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy y bydd yn dosbarthu grantiau, y dibenion dros ddosbarthu grantiau, a'r amodau y dylid eu hystyried wrth i'r Gronfa ddosbarthu arian:

**A.** Yr angen am sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu o dan adran 25(1) ar gyfer prosiectau sy'n hyrwyddo lles y cyhoedd ac nad ydynt wedi'u bwriadu'n bennaf er elw preifat.

**B.** Yr angen am sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu o dan adran 25(1) i brosiectau sy'n gwneud gwelliannau real a chynaliadwy i ansawdd bywyd cymunedau lleol.

**C.** Yr angen am annog arloesedd wedi'i gydbwyso gyda'r angen am reoli risg mewn modd sy'n gymesur â'r math o brosiect ac ymgeisydd.

**Ch.** Yr angen am hyrwyddo amcanion datblygiad cynaliadwy ymhellach.

**D.** Yr angen am bennu cyfyngiadau amser penodol ar y cyfnodau y mae grantiau'n daladwy, boed hynny ar gyfer gwariant cyfalaf neu refeniw.

**D.** Yr angen:

(i) ym mhob achos, i'r ymgeiswyr ddangos dichonoldeb ariannol y prosiect dros gyfnod y grant;

(ii) os ceisir am arian cyfalaf:

(a) am gynllun busnes clir gan gynnwys yr angen am sicrhau adnoddau er mwyn bodloni unrhyw gostau rhedeg a chynnal a chadw sy'n gysylltiedig â phob prosiect am gyfnod rhesymol, gan ystyried maint a natur y prosiect; a

(b) sicrhau proses werthuso a rheoli prosiect ar gyfer prosiectau mawr sy'n cyd-fynd â'r rhai yn Adolygiadau Gateway Swyddfa Masnach y Llywodraeth.

(iii) mewn achosion eraill, dylid ystyried argaeledd tebygol arian arall i dalu am gostau parhaus am gyfnod rhesymol ar ôl cwblhau dyfarniad y Loteri, gan roi ystyriaeth i faint a natur y prosiect, ac i arian y Loteri gael ei ddefnyddio i gynorthwyo cynnydd tuag at ddichonoldeb pryd bynnag y bo'n bosib.

**E.** Y dymunoldeb o weithio gyda mudiadau eraill, gan gynnwys dosbarthwyr eraill, lle fo hyn yn ffordd effeithiol o gyflwyno elfennau o strategaeth y Gronfa.

**F.** Yr angen am sicrhau bod gan y Gronfa wybodaeth o'r fath y mae'n ei hystyried yn angenrheidiol i wneud penderfyniadau ar bob cais, gan gynnwys cyngor arbenigol annibynnol pan fo hynny'n ofynnol.

**Ff.** Yr angen am geisio am elfen o ariannu partneriaeth a/neu gyfraniadau mewn nwyddau gan ffynonellau eraill sy'n gymesur â gallu rhesymol y gwahanol fathau o ymgeiswyr, neu ymgeiswyr mewn ardaloedd penodol, i sicrhau'r cyfryw gefnogaeth.

**G.** Yr angen am gynnwys amod yn yr holl grantiau i gydnabod arian y Loteri gan ddefnyddio brand cyffredin y Loteri.

**Ng.** Yr angen am gynnwys y cyhoedd wrth lunio polisïau, pennu blaenoriaethau a dosbarthu grantiau.

## Gwariant Datganoledig Yr Alban

**3.** Wrth weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant datganoledig Yr Alban, bydd y Gronfa'n ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy y bydd yn dosbarthu grantiau, y dibenion dros ddosbarthu grantiau, a'r amodau y dylid eu hystyried wrth i'r Gronfa ddosbarthu arian:

**A.** Yr angen am weithredu o fewn cyd-destun polisi unigryw Yr Alban, gan ychwanegu gwerth at strategaeth Gweinidogion Yr Alban lle bo'n briodol; cefnogi mwy o degwch yn Yr Alban wrth ddatblygu cyfleoedd i bawb ffynnu o fewn cenedl sy'n fwy llwyddiannus ac yn fwy cynaliadwy.

**B.** Yr angen am sicrhau dros amser bod y Gronfa'n dosbarthu arian i ymdrin â blaenoriaethau mynd i'r afael ag anfantais, datblygu lles a delio ag anghydraddoldeb; gan sicrhau ar yr un pryd lledaeniad helaeth o dderbynyddion, gan gynnwys mudiadau bach, y rhai sy'n gweithio ar lefel leol, mentrau a mudiadau cymdeithasol sydd â chanolfan yn Yr Alban ac sy'n gweithio tramor.

**C.** Yr angen am ystyried buddiannau Yr Alban yn gyffredinol, buddiannau rhannau gwahanol o'r Alban a meintiau poblogaeth cymharol, ac i ba raddau y gellir lleihau amddifadedd economaidd a chymdeithasol mewn rhannau gwahanol o'r Alban.

**Ch.** Yn olaf, yr angen am sicrhau dros amser bod y Gronfa'n dosbarthu arian yn rhesymol gyfartal rhwng gwariant ar/sy'n gysylltiedig â:

(i) hyrwyddo dysgu cymunedol;

(ii) hyrwyddo diogelwch a chydlyniant cymunedol; a

(iii) hyrwyddo lles corfforol a meddyliol.

Y flaenoriaeth o fynd i'r afael ag anfantais a'r angen am ymdrin ag anghydraddoldeb.

**4.** Mewn perthynas â gwariant datganoledig Yr Alban, bydd y Gronfa'n ystyried yr angen am ddosbarthu Arian o dan adran 25(1) i brosiectau sydd â'r nod o gyflawni un neu fwy o'r amcanion canlynol:

**A.** MWY CALL: Gwell cyfleoedd i bobl mewn bywyd.

**B.** MWY CRYF A MWY DIOGEL: Cymunedau sy'n cydweithio i ymdrin ag anghydraddoldeb.

**C.** MWY GWYRDD: Gwasanaethau ac amgylcheddau gwell a mwy cynaliadwy i bobl.

**Ch.** MWY IACH: Pobl a chymunedau mwy iach.

**5.** Mewn perthynas â gwariant datganoledig Yr Alban bydd y Gronfa'n ystyried yr egwyddorion canlynol wrth ddosbarthu arian o dan adran 25(1):

**A.** YMGYSYLLTU – dylai datblygu rhaglenni fod yn seiliedig ac ymgysylltu'n weithredol â phartneriaid cyhoeddus a phreifat ac yn y trydydd sector.

**B.** UNDOD A CHYDLYNIANT - sicrhau bod unigolion a chymunedau ledled Yr Alban yn cael cyfle i gyfrannu at genedl sy'n fwy llwyddiannus, cymryd rhan ynddi ac elwa ohoni.

**C.** CYNALADWYEDD – gwella amgylchedd Yr Alban heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, a lleihau effaith Yr Alban ar yr amgylchedd byd-eang.

**Ch.** YCHWANEGEDD a CHYDWEDDU – dylai datblygu rhaglenni cydweddu â strategaethau a gweithgareddau partneriaid a budd-ddeiliaid ac ychwanegu gwerth atynt.

**D.** CYDWEITHIO - lle bo'n bosib dylai canlyniadau prosiectau a rhaglenni elwa o gydweithio effeithiol rhwng mudiadau a rhwng partneriaid cyhoeddus a phreifat a'r rhai yn y trydydd sector.

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Yr Alban gan John Swinney, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Thwf Cynaliadwy, aelod o Lywodraeth Yr Alban

Gorffennaf 2009

## Cymru

### CYFARWYDDIADAU A RODDWYD I'R GRONFA LOTERI FAWR O DAN ADRAN 36E DEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL ETC. 1993

Trwy hyn mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, wrth ddefnyddio'r pwerau a gyflwynwyd iddi gan adran 36E(4)(a) Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 ac ar ôl ymgynghori â'r Gronfa Loteri Fawr ("y Gronfa") ac ar ôl sicrhau caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn unol ag adran 36E(8) y Ddeddf, yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Gronfa:

**1.** Yn y Cyfarwyddiadau hyn bydd unrhyw gyfeiriad at adran yn cyfeirio at adran yn Neddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993.

## Cyfarwyddiadau Cyffredinol

**2.** Wrth ddefnyddio unrhyw un o'i phwerau mewn perthynas â gwariant datganoledig Cymru, bydd y Gronfa'n ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy y gall y Gronfa wneud grantiau neu fenthyciadau, at ba ddiben y bydd y Gronfa'n gwneud grantiau neu fenthyciadau, y broses a ddefnyddir i benderfynu pa daliadau i'w gwneud ac o dan ba amodau a thelerau y mae'r Gronfa'n gwneud grantiau neu fenthyciadau:

**A.** Yr angen am sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu o dan adran 25(1) ar gyfer prosiectau sy'n hyrwyddo lles y cyhoedd ac nad ydynt wedi'u bwriadu'n bennaf er elw preifat.

**B.** Yr angen am sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu o dan adran 25(1) i brosiectau sy'n gwneud gwelliannau real a chynaliadwy i ansawdd bywyd cymunedau lleol.

**C.** Yr angen am annog arloesedd wedi'i gydbwyso gyda'r angen am reoli risg mewn modd sy'n gymesur â'r math o brosiect ac ymgeisydd.

**Ch.** Yr angen am hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg ac adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru, gan gynnwys gweithredu'r egwyddor o gydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Dylid cyflawni hyn trwy gynnwys amodau penodol mewn perthynas ag iaith mewn grantiau a monitro, a goruchwylio perfformiad derbynyddion grantiau mewn perthynas â'r amodau hynny.

**D.** Yr angen am hyrwyddo amcanion datblygiad cynaliadwy ymhellach.

**Dd.** Yr angen am bennu cyfyngiadau amser penodol ar y cyfnodau y mae grantiau'n daladwy, boed hynny ar gyfer gwariant cyfalaf neu refeniw.

**E.** Yr angen:

(i) ym mhob achos, i'r ymgeiswyr ddangos dichonoldeb ariannol y prosiect dros gyfnod y grant;

(ii) os ceisir am arian cyfalaf:

a) am gynllun busnes clir gan gynnwys yr angen am sicrhau adnoddau er mwyn bodloni unrhyw gostau rhedeg a chynnal a chadw sy'n gysylltiedig â phob prosiect am gyfnod rhesymol, gan ystyried maint a natur y prosiect; a

b) sicrhau proses werthuso a rheoli prosiect ar gyfer prosiectau mawr sy'n cyd-fynd â'r rhai yn Adolygiadau Gateway Swyddfa Masnach y Llywodraeth.

(iii) mewn achosion eraill, dylid ystyried argaeledd tebygol arian arall i dalu am gostau parhaus am gyfnod rhesymol ar ôl cwblhau dyfarniad y Loteri, gan roi ystyriaeth i faint a natur y prosiect, ac i arian y Loteri gael ei ddefnyddio i gynorthwyo cynnydd tuag at ddichonoldeb pryd bynnag y bo'n bosib.

**F.** Y dymunoldeb o weithio gyda mudiadau eraill, gan gynnwys dosbarthwyr eraill, lle fo hyn yn ffordd effeithiol o gyflwyno elfennau o'i strategaeth.

**Ff.** Yr angen am sicrhau bod ganddi'r cyfryw wybodaeth y mae'n ei hystyried yn angenrheidiol i wneud penderfyniadau ar bob cais, gan gynnwys cyngor arbenigol annibynnol pan fo hynny'n ofynnol. .

**G.** Yr angen am geisio am elfen o ariannu partneriaeth a/neu gyfraniadau mewn nwyddau gan ffynonellau eraill sy'n gymesur â gallu rhesymol y gwahanol fathau o ymgeiswyr, neu ymgeiswyr mewn ardaloedd penodol, i sicrhau'r cyfryw gefnogaeth.

**Ng**. Yr angen am gynnwys amod yn yr holl grantiau i gydnabod arian y Loteri gan ddefnyddio brand cyffredin y Loteri.

**H.** Yr angen am gynnwys y cyhoedd wrth lunio polisïau, pennu blaenoriaethau a dosbarthu grantiau.

**I.** Yr angen am sicrhau ymagwedd seiliedig ar ganlyniadau, gan gydweithio'n agos â phartneriaid priodol i gyflawni'r patrwm buddsoddiad gorau er budd cymunedau ledled Cymru. Pan fo'n briodol, dylid defnyddio profiadau mudiadau eraill i wella datblygiad a chyflwyniad mecanweithiau ariannu.

## Gwariant Datganoledig Cymru

**3.** Wrth ddefnyddio unrhyw un o'i phwerau mewn perthynas â gwariant datganoledig Cymru, bydd y Gronfa'n ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy y gall y Gronfa wneud grantiau neu fenthyciadau, at ba ddiben y bydd y Gronfa'n gwneud grantiau neu fenthyciadau, y broses a ddefnyddir i benderfynu pa daliadau i'w gwneud ac o dan ba amodau a thelerau y mae'r Gronfa'n gwneud grantiau neu fenthyciadau:

**A.** Yr angen am sicrhau bod y Gronfa, wrth ystyried ei hasesiad o anghenion ac unrhyw flaenoriaethau y mae wedi'u hadnabod yn ei strategaeth, dros amser yn dosbarthu arian i ledaeniad weddol eang o dderbynyddion, gan gynnwys mudiadau bach, y mudiadau hynny sy'n gweithredu ar lefel leol yn unig, mentrau cymdeithasol, a mudiadau sy'n gweithio dramor y mae ganddynt bencadlys yng Nghymru.

**B.** Yr angen am sicrhau dros amser bod y Gronfa'n dosbarthu arian yn rhesymol gyfartal rhwng gwariant ar/sy'n gysylltiedig â:

(i) hyrwyddo dysgu cymunedol;

(ii) hyrwyddo diogelwch a chydlyniant cymunedol; a

(iii) hyrwyddo lles corfforol a meddyliol.

**C.** Yr angen am ystyried buddiannau Cymru'n gyffredinol, buddiannau rhannau gwahanol o Gymru a meintiau poblogaeth cymharol, ac i ba raddau y gellir lleihau amddifadedd economaidd a chymdeithasol mewn rhannau gwahanol o Gymru, a'r angen am annog cyrff gwasanaeth cyhoeddus, yn gweithio ar y cyd, i gyflwyno gwell canlyniadau gwasanaeth i ddinasyddion.

**4.** Mewn perthynas â gwariant datganoledig Cymru, bydd y Gronfa'n ystyried yr angen am ddosbarthu arian o dan adran 25(1) i brosiectau sydd â'r nod o gyflawni un neu fwy o'r canlyniadau a ganlyn:

**A.** rhoi’r sgiliau a’r dysgu i bobl o bob oedran wynebu heriau cymdeithas fodern;

**B.** pobl sy’n cydweithio dros gymunedau cryfach, cyfiawnder cymdeithasol a gwell amgylcheddau gwledig a threfol; a

**C.** pobl a chymunedau sy’n fwy iach ac yn fwy actif yn gorfforol.

**5.** Mewn perthynas â gwariant datganoledig Cymru, bydd y Gronfa, wrth ddosbarthu arian o dan adran 25(1), yn ystyried yr angen am sicrhau bod un neu'n fwy o'r blaenoriaethau a ganlyn yn cael eu bodloni:

**A.** mynd i'r afael â rhwystrau i ddysgu cymunedol a sgiliau bywyd effeithiol;

**B.** pobl sy’n cydweithio dros gymunedau cryfach, cyfiawnder cymdeithasol a gwell amgylcheddau gwledig a threfol; ac

**C.** grymuso cymunedau i ddatblygu a chyflwyno rhaglenni adfywio lleol;

**Ch.** datblygu ymatebion cymunedol adeiladol i ddadrithio, ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu;

**D.** galluogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol a chyfrannu at eu cymuned; ;

**Dd.** galluogi cymunedau i reoli a gwella'u hamgylchedd a'u hamwynderau lleol;

**E.** datblygu galluoedd pobl i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u lles eu hunain yn unol â'r egwyddorion sy'n sylfaen i Her Iechyd Cymru, gan annog unigolion a mudiadau i wella iechyd yng Nghymru;

**F.** hyrwyddo bwyta'n iach a chynyddu gweithgarwch corfforol ar draws yr holl grwpiau oedran, rhyw a chymdeithasol;

**Ff.** datblygu ymagweddau newydd at hyrwyddo adeiladu cymunedol a'r cefn gwlad.

## Gogledd Iwerddon

**CYFARWYDDIADAU A RODDIR I'R GRONFA LOTERI FAWR O DAN ADRAN 36E(4)(b) DEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL ETC. 1993**

Trwy hyn mae Ysgrifennydd Gwladol Gogledd Iwerddon, wrth ddefnyddio'r pwerau a gyflwynwyd iddo gan adran 36E(4)(b) Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 ac ar ôl ymgynghori â'r Gronfa Loteri Fawr ("y Gronfa") a sicrhau caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn unol ag adran 36E(8) y Ddeddf honno, yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Gronfa:

**1.** Yn y Cyfarwyddiadau hyn bydd unrhyw gyfeiriad at adran yn cyfeirio at adran yn Neddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993.

## Cyfarwyddiadau Cyffredinol

**2.** Wrth weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant datganoledig Gogledd Iwerddon, bydd y Gronfa'n ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy y bydd yn dosbarthu grantiau, y dibenion dros ddosbarthu grantiau, a'r amodau y dylid eu hystyried wrth i'r Gronfa ddosbarthu arian:

**A.** Yr angen am sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu o dan adran 25(1) ar gyfer prosiectau sy'n hyrwyddo lles y cyhoedd ac nad ydynt wedi'u bwriadu'n bennaf er elw preifat.

**B.** Yr angen am sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu o dan adran 25(1) i brosiectau sy'n gwneud gwelliannau real a chynaliadwy i ansawdd bywyd cymunedau lleol.

**C.** Yr angen am annog arloesedd wedi'i gydbwyso gyda'r angen am reoli risg mewn modd sy'n gymesur â'r math o brosiect ac ymgeisydd.

**Ch.** Yr angen am hyrwyddo amcanion datblygiad cynaliadwy ymhellach.

**D.** Yr angen am bennu cyfyngiadau amser penodol ar y cyfnodau y mae grantiau'n daladwy, boed hynny ar gyfer gwariant cyfalaf neu refeniw.

**Dd.** Yr angen:

(i) ym mhob achos, i'r ymgeiswyr ddangos dichonoldeb ariannol y prosiect dros gyfnod y grant;

(ii) os ceisir am arian cyfalaf:

(a) am gynllun busnes clir gan gynnwys yr angen am sicrhau adnoddau er mwyn bodloni unrhyw gostau rhedeg a chynnal a chadw sy'n gysylltiedig â phob prosiect am gyfnod rhesymol, gan ystyried maint a natur y prosiect; a

(b) sicrhau proses werthuso a rheoli prosiect ar gyfer prosiectau mawr sy'n cyd-fynd â'r rhai yn Adolygiadau Gateway Swyddfa Masnach y Llywodraeth. .

(iii) mewn achosion eraill, dylid ystyried argaeledd tebygol arian arall i dalu am gostau parhaus am gyfnod rhesymol ar ôl cwblhau dyfarniad y Loteri, gan roi ystyriaeth i faint a natur y prosiect, ac i arian y Loteri gael ei ddefnyddio i gynorthwyo cynnydd tuag at ddichonoldeb pryd bynnag y bo'n bosib.

**E.** Y dymunoldeb o weithio gyda mudiadau eraill, gan gynnwys dosbarthwyr eraill, pan fo hyn yn ffordd effeithiol o gyflwyno elfennau o strategaeth y Gronfa.

**F.** Yr angen am sicrhau bod gan y Gronfa wybodaeth o'r fath y mae'n ei hystyried yn angenrheidiol i wneud penderfyniadau ar bob cais, gan gynnwys cyngor arbenigol annibynnol pan fo hynny'n ofynnol.

**Ff.** Yr angen am geisio am elfen o ariannu partneriaeth a/neu gyfraniadau mewn nwyddau gan ffynonellau eraill sy'n gymesur â gallu rhesymol y gwahanol fathau o ymgeiswyr, neu ymgeiswyr mewn ardaloedd penodol, i sicrhau'r cyfryw gefnogaeth.

**G.** Yr angen am gynnwys amod yn yr holl grantiau i gydnabod arian y Loteri gan ddefnyddio brand cyffredin y Loteri.

**Ng.** Yr angen am gynnwys y cyhoedd wrth lunio polisïau, pennu blaenoriaethau a dosbarthu grantiau

## Gwariant Datganoledig Gogledd Iwerddon

**4.** Wrth weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant datganoledig Gogledd Iwerddon, bydd y Gronfa'n ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy y bydd yn dosbarthu grantiau, y dibenion dros ddosbarthu grantiau, a'r amodau y dylid eu hystyried wrth i'r Gronfa ddosbarthu arian:

**A.** Yr angen am sicrhau bod y Gronfa, wrth ystyried ei hasesiad o anghenion ac unrhyw flaenoriaethau y mae wedi'u hadnabod yn ei strategaeth, dros amser yn dosbarthu arian i ledaeniad weddol eang o dderbynyddion, gan gynnwys mudiadau bach, y mudiadau hynny sy'n gweithredu ar lefel leol yn unig, mentrau cymdeithasol, a mudiadau sy'n gweithio dramor y mae ganddynt bencadlys yng Ngogledd Iwerddon.

**B.** Yr angen am sicrhau dros amser bod y Gronfa'n dosbarthu arian yn rhesymol gyfartal rhwng gwariant ar/sy'n gysylltiedig â:

(i) hyrwyddo dysgu cymunedol;

(ii) hyrwyddo diogelwch a chydlyniant cymunedol; a

(iii) hyrwyddo lles corfforol a meddyliol.

**C.** Yr angen am ystyried buddiannau Gogledd Iwerddon yn gyffredinol, buddiannau holl rannau gwahanol Gogledd Iwerddon a meintiau poblogaeth cymharol, ac i ba raddau y gellir lleihau amddifadedd economaidd a chymdeithasol mewn rhannau gwahanol o Ogledd Iwerddon.

**5.** Mewn perthynas â gwariant datganoledig Gogledd Iwerddon, bydd y Gronfa'n ystyried yr angen am ddosbarthu Arian o dan adran 25(1) i brosiectau sydd â'r nod o gyflawni un neu fwy o'r amcanion canlynol:

**A.** Pobl yn cael cyfle i gyflawni eu potensial llawn

**B.** Gall pobl gymryd rhan yn weithredol yn eu cymunedau i greu newidiadau cadarnhaol

**C.** Perchnogaeth gymunedol ar amgylcheddau gwledig a threfol gwell a mwy diogel

**Ch.** Gwell iechyd corfforol a meddyliol i bawb

**6.** Mewn perthynas â gwariant datganoledig Gogledd Iwerddon, bydd y Gronfa, wrth ddosbarthu arian o dan adran 25(1), yn ystyried yr angen am sicrhau bod un neu'n fwy o'r blaenoriaethau a ganlyn yn cael eu bodloni:

**A.** Gwella sgiliau hanfodol i ddiwallu anghenion cymdeithasol ac economaidd

**B.** Cynyddu cyfleoedd ar gyfer dysgu cymunedol

**C.** Adeiladu gallu cymunedau

**Ch.** Cynyddu cyfleoedd gwirfoddoli ac ar gyfer ymgysylltu rhwng ac o fewn cymunedau

**D.** Adeiladu partneriaethau cymunedol a gwirfoddol/statudol

**Dd.** Gwella cyfleusterau, mynediad a gwasanaethau cymunedol

**E.** Cynyddu cyfranogiad cymunedol wrth amddiffyn, adfer a chynnal yr amgylchedd trefol a gwledig

**F.** Helpu unigolion a chymunedau i ddatblygu sgiliau i wneud dewisiadau ffordd o fyw mwy iach

**Ff.** Hyrwyddo iechyd meddwl a lles emosiynol ar lefel unigolion a chymunedau

Llofnodwyd ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ogledd Iwerddon

## CYFARWYDDIADAU ARIANNOL

Mae'r Cyfarwyddiadau Ariannol a amlinellir isod yn berthnasol ar draws ein holl weithgareddau ym mhedair gwlad y DU. Rydym wedi cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau hyn trwy weithredu gweithdrefnau ar draws y mudiad i sicrhau bod Datganiad o Ofynion Ariannol yn cael eu dilyn. Rydym yn cynnal gwasanaeth archwilio mewnol i wirio ar sail samplu bod yr holl swyddogion ac adrannau yn cadw at y gweithdrefnau cytûn, ac i sicrhau bod y gweithdrefnau hyn yn cael eu dogfennu a'u lledaenu'n briodol.Mae'r Datganiad o Ofynion Ariannol llawn ar gael ar wefan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon: http://www.culture.gov.uk/what_we_do/national_lottery/4202.aspx

CYFARWYDDIADAU ARIANNOL A GYHOEDDWYD O DAN ADRANNAU 36E(3) DEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL ETC. 1993 (FEL Y'U DIWYGIWYD GAN DDEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL 2006).

Sefydlwyd y Gronfa Loteri Fawr o dan Adran 36A Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 ("y Ddeddf") a daeth i rym yn llawn ar 1 Rhagfyr 2006. Bydd y Gronfa Loteri Fawr yn cydymffurfio â'r gofynion sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad o Ofynion Ariannol ynghlwm, sydd â statws cyfarwyddiadau o dan adran 36E(3) Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993

Mae'r Datganiad o Ofynion Ariannol yn ychwanegol at, a dylid ei ddarllen ar y cyd â, Datganiad Rheoli'r Gronfa Loteri Fawr, sy'n ymdrin â materion llywodraethu a rheoli corfforaethol.

Llofnodwyd trwy awdurdod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

| | |
|---|---|
| **Argraffydd** | Belmont Press |
| **Ffotograffau** | Perry Hastings, Brian Morrison, Rob Baker Ashton, Keith Morris, Steve Brock, Shaun Fitzpatrick, Alan Fletcher, Paula Solloway, Syd Shelton, Tom Watson. |
| **Cynllun** | Graphicsi Ltd |

**Copïau pellach ar gael o:**

| | |
|---|---|
| Ffôn | 0300 123 0735 |
| Ffôn testun | 0845 6 02 16 59 |
| E-bost | ymholiadau.cymru@cronfaloterifawr.org.uk |
| Ein gwefan | www.cronfaloterifawr.org.uk |

**Mynediad**
Cysylltwch â ni i drafod unrhyw anghenion cyfathrebu penodol sydd gennych.

**Ein hegwyddorion cydraddoldeb**
Hyrwyddo hygyrchedd; gwerthfawrogi amrywiaeth diwylliannol; hyrwyddo cymryd rhan; hyrwyddo cyfle cyfartal; hyrwyddo cymunedau cynhwysol; lleihau anfantais ac eithrio. Ewch i'n gwefan am fwy o wybodaeth.

**Rydym yn gofalu am yr amgylchedd**
Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ceisio lleihau ei heffaith negyddol ar yr amgylchedd ac mae'n defnyddio adnoddau gwirioneddol gynaliadwy yn unig.

**Ein gweledigaeth**
Rydym wedi'n hymrwymo i ddod â gwir welliannau i gymunedau ac i fywydau'r bobl fwyaf anghenus.

**Ein gwerthoedd**
Rydym wedi adnabod tri gwerth sy'n sail i'n gwaith: bod yn gefnogol ac yn barod i helpu; gwneud y defnydd gorau o arian Loteri; a defnyddio gwybodaeth a thystiolaeth.

Gallwch gael gwybod mwy amdanom ni, ein gwerthoedd a'r rhaglenni ariannu a ddarparwn trwy fynd i'n gwefan, www.cronfaloterifawr.org.uk

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ymrwymedig i werthfawrogi amrywiaeth a hyrwyddo cyfle cyfartal, fel corff dyfarnu grantiau ac fel cyflogwr. Bydd y Gronfa Loteri Fawr yn anelu at fabwysiadu ymagwedd gynhwysol at sicrhau bod ymgeiswyr a derbynyddion grantiau, budd-ddeiliaid, ymgeiswyr am swyddi a chyflogeion yn cael eu trin yn deg.

Yn dyfarnu arian
Y Loteri Genedlaethol

Awarding funds from
The National Lottery®




TSO
information & publishing solutions

Cyhoeddwyd gan y Llyfrfa ac ar gael:

**Ar y we**
www.tsoshop.co.uk

**Post, ffôn, ffacs ac e-bost**
TSO
PO Box 29, Norwich NR3 1GN
Archebion ffôn/ymholiadau cyffredinol 0870 600 5522
Archebion ffacs 0870 600 5533
Archebu trwy Linell Frys Senedd y DU: Lo-Call 0845 7 023474
E-bost customer.services@tso.co.uk
Ffôn testun 0870 240 3701

**Siop Lyfrau Senedd y DU**
12 Bridge Street, Parliament Square
Llundain SW1A 2JX
Archebion ffôn/ymholiadau cyffredinol 020 7219 3890
Archebion ffacs 020 7219 3866
E-bost bookshop@Parliament.uk
Rhyngrwyd bookshop.Parliament.uk

ISBN 978-0-10-297996-1
9 780102 979961